

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

25/03/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg—Ymateb i Adroddiadau ar y Mentrau Iaith a Chymunedau Cymraeg](#)
[Statement: Policy Statement on the Welsh Language—Response to Reports on Mentrau Iaith and Welsh Speaking Communities](#)

[Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol \(Darganfod Twyll\) \(Cymru\) 2014](#)
[The Prevention of Social Housing Fraud \(Detection of Fraud\) \(Wales\) Regulations 2014](#)

[Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) 2014](#)
[The Council Tax Reduction Schemes \(Miscellaneous Amendments\) \(Wales\) Regulations 2014](#)

[Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru](#)
[Delivery of Fire and Rescue Services in Wales](#)

[Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n Ymwneud â Thai](#)
[Tackling Housing Related Anti-Social Behaviour](#)

[Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Addysg \(Cymru\)](#)
[Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Education \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Caerdydd fel Cyrchfan Fusnes

Cardiff as a Business Destination

13:30 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan fusnes ar gyfer gwasanaethau ariannol? OAQ(4)1578(FM)

1. What action has the Welsh Government taken to promote Cardiff as a business destination for financial services? OAQ(4)1578(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are promoting Cardiff, including its enterprise zone, as an internationally competitive area for companies to locate. We have a strong pipeline of inquiries.

Rydym yn hyrwyddo Caerdydd, gan gynnwys ei hardal fenter, fel ardal sy'n gystadleuol yn rhyngwladol i gwmnïau leoli ynddi. Mae gennym gyflenwad cryf o ymholiadau.

- 13:31 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Thank you for that answer, First Minister. Many times during First Minister's questions, and ministerial questions, we hear about the links that the Welsh Government has to other devolved Governments. An important part in promoting Cardiff, would you not accept, is the Mayor of London's role, and the role of London's financial services sector, in particular? What discussions, if any, has your Government had with the Mayor of London, and the London Assembly, about alerting them to opportunities here in Cardiff? I met with the mayor's chief financial adviser the other day, and I could see great synergy. Do you see the same synergy that I can see being developed?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Lower gwaith yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, a'r cwestiynau gwneidogol, rydym yn clywed am y cysylltiadau sydd gan Lywodraeth Cymru â Llywodraethau datganoledig eraill. Rhan bwysig o hyrwyddo Caerdydd, oni fydddech chi'n derbyn, yw swyddogaeth Maer Llundain, a swyddogaeth sector gwasanaethau ariannol Llundain, yn benodol? Pa drafodaethau, os o gwbl, mae eich Llywodraeth wedi eu cael gyda Maer Llundain a Chynulliad Llundain, o ran rhoi gwybod iddynt am gyfleoedd yma yng Nghaerdydd? Cefais gyfarfod â phrif gynghorydd ariannol y maer y diwrnod o'r blaen, ac roeddwn yn gallu gweld synergedd mawr. A ydych chi'n gweld yr un synergedd ag y gallaf i ei weld yn cael ei ddatblygu?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, the Minister has met the Lord Mayor of London—not, admittedly, the Mayor of London. I can say that the message is getting across in London anyway. For example, the 'Financial Times' and the 'London Evening Standard' recently described Cardiff as a great near-shoring location for international business. Of course, we have our own office in London, and its job is to look to bring investment into Wales.
- Wel, mae'r Gweinidog wedi cyfarfod ag Arglwydd Faer Llundain—nid Maer Llundain, mae'n rhaid cyfaddef. Gallaf ddweud bod y neges yn cael ei chyfleu yn Llundain beth bynnag. Er enghraifft, disgrifiodd y 'Financial Times' a'r 'London Evening Standard' Caerdydd fel lleoliad cyfagos gwych ar gyfer busnes rhyngwladol yn ddiweddar. Wrth gwrs, mae gennym ein swyddfa ein hunain yn Llundain, a'i chyfrifoldeb hi yw ceisio dod â buddsoddiad i Gymru.
- 13:32 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Would the First Minister agree that the coalition Government has done no favours to financial services in Cardiff, because of its proposal to offshore 105 jobs from Companies House, in my constituency of Cardiff North? These are jobs that have been outsourced from the Department for Work and Pensions, then outsourced from the Cabinet Office, and are now to be offshored to India.
- A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno nad yw'r Llywodraeth glymblaid wedi gwneud unrhyw ffafrau â gwasanaethau ariannol yng Nghaerdydd, oherwydd ei chynnig i symud 105 o swyddi o Dŷ'r Cwmniau, yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, dramor? Mae'r rhain yn swyddi sydd wedi cael eu hallanoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac yna eu hallanoli o Swyddfa'r Cabinet, ac maen nhw bellach yn mynd i gael eu symud i India.
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
That is a shocking statistic. However, it shows what the coalition Government does best, which is exporting jobs.
- Mae hwnna'n ystadegyn syfrdanol. Fodd bynnag, mae'n dangos yr hyn y mae'r Llywodraeth glymblaid yn ei wneud orau, sef allforio swyddi.
- 13:32 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
First Minister, Wales has lost many jobs in recent years, with multinational companies choosing to relocate elsewhere, and, indeed, Government jobs relocating elsewhere. Do you think that there is more that you could do to support the Wales Co-operative Centre to help workers finance and organise their own buy-outs under such circumstances? Furthermore, will the Welsh Government commit to considering, and, if appropriate, facilitating, workers' buy-outs as a matter of course when foreign investors are looking to withdraw activities from Wales?
- Brif Weinidog, mae Cymru wedi colli llawer o swyddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i gwmniau rhyngwladol ddewis adleoli i fannau eraill, ac, yn wir, swyddi'r Llywodraeth yn cael eu hadleoli i fannau eraill. A ydych chi'n credu bod mwy y gallech chi ei wneud i gefnogi Canolfan Cydweithredol Cymru i helpu gweithwyr i ariannu a threfnu'r broses o brynu'r cwmni eu hunain dan amgylchiadau o'r fath? Hefyd, a wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i ystyried, ac, os yw'n briodol, ei gwneud yn haws i weithwyr brynu'r cwmni, fel mater o drefn pan fo buddsoddwyr tramor yn bwriadu tynnu gweithgareddau o Gymru?

13:33	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can assure the leader of Plaid Cymru that the Welsh Government has not outsourced jobs out of Wales. Nevertheless, I take her point that it is important that a co-operative model is seen as a workable model. We see good examples of that across Wales, and have done in the past. Working with the Wales Co-operative Centre, yes, we would want to see more co-operative models being rolled out across Wales in the future.</p>	<p>Gallaf sicrhau arweinydd Plaid Cymru nad yw Llywodraeth Cymru wedi allanoli swyddi allan o Gymru. Serch hynny, rwy'n derbyn ei phwynt ei bod yn bwysig bod model cydweithredol yn cael ei ystyried yn fodel ymarferol. Rydym yn gweld enghreifftiau da o hynny ledled Cymru, ac wedi eu gweld yn y gorffennol. Gan weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru, byddem, mi fyddem yn awyddus i weld mwy o fodelau cydweithredol yn cael eu cyflwyno ledled Cymru yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ysmygu mewn Ceir sy'n Cludo Plant		Smoking in Cars Carrying Children	
13:33	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography <i>2. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd gan fod yr adroddiad ar agweddau'r cyhoedd at ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn dangos yn glir gefnogaeth ar gyfer gwaharddiad? OAQ(4)1575(FM)</i></p>	<p><i>2. What action will the Welsh Government be taking now that the report on public attitudes to smoking in cars carrying children clearly indicates support for a ban to be imposed? OAQ(4)1575(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:33	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>As we have said on many occasions, we will consider legislative options once we have reviewed the evaluation of our Fresh Start Wales campaign in the summer.</p>	<p>Fel rydym ni wedi ei ddweud droeon, byddwn yn ystyried opsiynau deddfwriaethol ar ôl i ni adolygu'r gwerthusiad o'n hymgyrch Cychwyn Iach Cymru yn yr haf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:33	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, you will be aware that 82% of the public in Wales have agreed now that smoking in cars carrying children should be banned. The same percentage said that they would comply with a ban if one was introduced. The United Kingdom Government—after pressure from Labour members of the House of Lords—will be introducing legislation next year, and the signs are that the Scottish Parliament will do likewise. What possible reason is there for your Government to drag its feet on this issue?</p>	<p>Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod 82% o'r cyhoedd yng Nghymru wedi cytuno bellach y dylid gwahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant. Dywedodd yr un ganran y byddent yn cydymffurfio â gwaharddiad pe byddai hynny'n cael ei gyflwyno. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig—yn dilyn pwysau gan aelodau Llafur yn Nhŷ'r Arglwyddi—yn cyflwyno deddfwriaeth y flwyddyn nesaf, a'r arwyddion yw y bydd Senedd yr Alban yn gwneud yr un fath. Pa reswm posibl a allai fod i'ch Llywodraeth chi lusgo ei thraed ar y mater hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have hardly dragged our feet—we were the first to suggest it, in fact, long before England, and long before Scotland. What we said was that we would conduct a survey over the course of two years. That survey is now complete, and we will examine the findings of that exercise, and then look to legislate if those findings are robust. The Member is right to say that it does appear that there is widespread public support for such a ban in Wales.</p>	<p>Nid wyf yn credu ein bod wedi llusgo ein traed—ni oedd y cyntaf i'w awgrymu, a dweud y gwir, ymhell cyn Lloegr, ac ymhell cyn yr Alban. Yr hyn a ddywedasom oedd y byddem yn cynnal arolwg dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r arolwg hwnnw wedi ei gyflawni bellach, a byddwn yn archwilio canfyddiadau'r ymarfer hwnnw, ac yna'n ystyried deddfu os bydd y canfyddiadau hynny'n gadarn. Mae'r Aelod yn iawn i ddweud ei bod yn ymddangos bod cefnogaeth eang ymhlith y cyhoedd i waharddiad o'r fath yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:34	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you are correct to say that there is overwhelming support to end smoking in cars when children are present. With the Fresh Start Wales campaign, which was launched two years ago, due to end this week, I do ask how well this campaign has engaged with the many across Wales. Furthermore, what is the level of comprehensive feedback and data that you have acquired already, and when will you be deciding what further action your Government will take on this issue?</p>	<p>Weinidog, rydych chi'n gywir i ddweud bod cefnogaeth aruthrol i roi terfyn ar ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol. Gan fod ymgyrch Cychwyn Iach Cymru, a lanswyd ddwy flynedd yn ôl, yn dod i ben yr wythnos hon, rwyf yn gofyn pa mor dda mae'r ymgyrch hon wedi ymgysylltu â'r mwyafrif ledled Cymru. Hefyd, beth yw lefel yr adborth a data cynhwysfawr yr ydych chi wedi ei dderbyn eisoes, a phryd y byddwch chi'n penderfynu pa gamau pellach y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd ar y mater hwn?</p>
13:35	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The report on smoking in cars carrying children was published at the end of November 2013. It showed that there has been an increase in the number of people who believe that smoking in cars where children are being carried should be banned. That is something that we are considering and we will respond before the summer.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ysmegu mewn ceir sy'n cludo plant ddiwedd mis Tachwedd 2013. Roedd yn dangos y bu cynnydd i'r nifer o bobl sy'n credu y dylai ysmegu mewn ceir y mae plant yn cael eu cludo ynddynt gael ei wahardd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried a byddwn yn ymateb cyn yr haf.</p>
	Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau	Questions Without Notice from the Party Leaders
13:35	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yn awr, cwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf, arweinydd yr wrthblaid.</p>	<p>Now, questions from party leaders. First, the leader of the opposition.</p>
13:35	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>First Minister, when was the last time Ed Miliband sought your advice on health policy?</p>	<p>Brif Weinidog, pryd oedd y tro diwethaf y gofynnodd Ed Miliband i chi am eich cyngor ar bolisi iechyd?</p>
13:35	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I wonder when the Conservatives last sought the leader of the Conservatives' advice on transport policy.</p>	<p>Tybed pryd oedd y tro diwethaf i'r Ceidwadwyr ofyn am gyngor arweinydd y Ceidwadwyr ar bolisi trafndiaeth.</p>
13:35	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Quite often, actually; only last week. I notice that you chose not to answer the question. It would be interesting to know why you would not answer that question. No doubt, he would be embarrassed to ask you for advice when you look at the record of the Labour Party here in Wales. [Interruption.] Last June, you said that the figures in Wales were going in the right direction. Why, if they are going in the right direction, are 15,000 Welsh cancer patients now seeking treatment in English hospitals, and why, if they are going in the right direction, are 14,000 patients waiting on a 14-week diagnostic test waiting list?</p>	<p>Yn aml iawn, a dweud y gwir; dim ond yr wythnos diwethaf. Sylwaf i chi ddewis peidio ag ateb y cwestiwn. Byddai'n ddiddorol cael gwybod pam na wnewch chi ateb y cwestiwn yna. Nid oes amheuaeth y byddai ganddo gywilydd gofyn i chi am gyngor os edrychwch chi ar hanes y Blaid Lafur yma yng Nghymru. [Torri ar draws.] Fis Mehefin diwethaf, dywedasoed fod y ffigurau yng Nghymru yn symud i'r cyfeiriad cywir. Pam, os ydynt yn symud i'r cyfeiriad cywir, mae 15,000 o gleifion canser yng Nghymru yn ceisio cael triniaeth mewn ysbytai yn Lloegr bellach, a pham, os ydynt yn symud i'r cyfeiriad cywir, mae 14,000 o gleifion yn dal i aros ar restr prawf diagnostig 14 wythnos?</p>

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If he has figures to show that 15,000 cancer patients are going to England for treatment, I invite him to produce them. That is the Tory line from Central Office. If he has figures to support that, we would all be interested in seeing those figures. The reality is, of course, that cancer waiting times in Wales are better than they are in England. If you want to be treated for cancer, you will be seen quicker in Wales than in England. It is about time that Jeremy Hunt ensured that the NHS in England provided the right level of treatment for cancer patients in England.

Os oes ganddo ef ffigurau i ddangos bod 15,000 o gleifion cancer yn mynd i Loegr i gael triniaeth, rwy'n ei wahodd i'w dangos. Safbwynt y Toriaid o'r Swyddfa Ganolog yw honna. Os oes ganddo ffigurau i gefnogi hynny, byddai gan bob un ohonom ni ddiddordeb mewn gweld y ffigurau hynny. Y gwir amdani, wrth gwrs, yw bod amseroedd aros yng Nghymru yn well nag y maen nhw yn Lloegr o ran cancer. Os ydych chi eisiau cael triniaeth ar gyfer cancer, cewch eich gweld yn gyflymach yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'n hen bryd i Jeremy Hunt sicrhau bod y GIG yn Lloegr yn darparu'r lefel gywir o driniaeth ar gyfer cleifion cancer yn Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:36

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I notice that you did not refer once to the 14,000 patients waiting on a diagnostic waiting list for 14 weeks or more, or to the figure that I put to you last week of 28,000 patients waiting eight weeks or more for diagnostic treatment. Is it not the case, First Minister, with a Kinnock back in the Welsh Labour fold, that probably the best line that can be thought of when you think of Kinnock senior is 'if you vote for Welsh Labour, you better not get ill here in Wales'? [Interruption.]

Rwy'n sylwi na wnaethoch chi gyfeirio unwaith at y 14,000 o gleifion yn aros ar restr aros ddiagnostig am 14 wythnos neu fwy, nac at y ffigur a roddais i chi yr wythnos diwethaf o 28,000 o gleifion yn aros wyth wythnos neu fwy am driniaeth ddiagnostig. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, gyda Kinnock yn ôl yn rhengoedd Llafur Cymru, mae'n debyg mai'r llinell orau y gellir meddwl amdani pan fyddwch chi'n meddwl am y Kinnock hyn yw 'os pleidleiswch chi dros Lafur Cymru, mae'n well i chi beidio â mynd yn sâl yma yng Nghymru'? [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I will obviously take with a big pinch of salt what is said by the Conservatives. [Interruption.] Let us talk about what they have failed to do in the last few weeks. They failed to stand up for Wales on electrification. Let us examine again what David Jones said on 16 July 2012:

Yn amlwg, byddaf yn cymryd yr hyn a ddywedir gan y Ceidwadwyr gyda phinsiad mawr o halen. [Torri ar draws.] Gadewch i ni siarad am yr hyn maen nhw wedi methu â'i wneud yn yr ychydig wythnosau diwethaf. Maen nhw wedi methu â sefyll dros Gymru ar drydaneiddio. Gadewch i ni edrych eto yr hyn a ddywedodd David Jones ar 16 Gorffennaf 2012:

'this is an extra £4.2 billion of the funding that we are announcing today—a lot of it going to the South Wales Valley Lines'

mae hwn yn £4.2 biliwn o gyllid ychwanegol yr ydym yn ei gyhoeddi heddiw—ac mae llawer ohono yn mynd i Reilffyrdd Cymoedd De Cymru

The south Wales Valley lines according to the Secretary of State.

Rheilffyrdd Cymoedd De Cymru yn ôl yr Ysgrifennydd Gwladol.

'A lot of it going to the extension of the GWR route to Swansea',

Mae llawer ohono'n mynd at ymestyn y llwybr GWR i Abertawe,

said the Secretary of State. On 16 July 2012 the leader of the opposition said:

meddai'r Ysgrifennydd Gwladol. Ar 16 Gorffennaf 2012, dywedodd arweinydd yr wrthblaid:

'This is exactly what our rail network needs. Electrification to Swansea and across the Valleys lines will provide a priceless boost to both the region and Wales as a whole.'

Dyma'n union sydd ei angen ar ein rhwydwaith rheilffyrdd. Bydd trydaneiddio i Abertawe ac ar draws rheilffyrdd y Cymoedd yn rhoi hwb hynod werthfawr i'r rhanbarth ac i Gymru yn ei chyfanrwydd.

This is the Conservatives positively regenerating Wales. Was he misled or was he misleading? [Interruption.]

Dyma'r Ceidwadwyr yn adfywio Cymru yn gadarnhaol. A gafodd ef ei gamarwain neu ai ef oedd yn gwneud y camarwain? [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. The First Minister is having to shout in order to be heard. Trefn. Mae'r Prif Weinidog yn gorfod gweiddi er mwyn cael ei glywed.
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Byron Davies said that the investment in our railways from the Conservatives in Government is one of the greatest infrastructure projects since Victorian times. Was he misled or was he misleading? On 31 October 2013, the Prime Minister said:
- Dywedodd Byron Davies bod y buddsoddiad yn ein rheilffyrdd gan y Ceidwadwyr mewn Llywodraeth yn un o'r prosiectau seilwaith mwyaf ers oes Fictoria. A gafodd ef ei gamarwain neu ai ef oedd yn gwneud y camarwain? Ar 31 Hydref, 2013, dywedodd y Prif Weinidog:
- 'Well I know we need these infrastructure investments in Wales. It's this Government which is putting money into the electrification of the railway line to Swansea and of course the Valley lines.'
- Wel, rwy'n gwybod bod angen y buddsoddiadau seilwaith hyn arnom yng Nghymru. Y Llywodraeth hon sy'n cyfrannu arian ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe a rheilffyrdd y Cymoedd, wrth gwrs.
- Was he misled or was he misleading the people of Wales? We take no lessons on transport or health from a party that fails to stand up for Wales and that has thrown the towel in when it comes to standing up for the people of Wales and modernising our railways.
- A gafodd ef ei gamarwain neu ai ef oedd yn camarwain pobl Cymru? Nid ydym yn cymryd unrhyw wersi ar drafnidiaeth nac iechyd gan blaid sy'n methu â sefyll dros Gymru ac sydd wedi rhoi'r ffidil yn y to pan ddaw i sefyll dros bobl Cymru a moderneiddio ein rheilffyrdd.
- 13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Presiding Officer, the First Minister put a challenge down. He did not answer the question, but I will quite happily respond to him. [Interruption.]
- Lywydd, mae'r Prif Weinidog wedi gosod her. Nid atebodd ef y cwestiwn, ond rwyf i'n gwbl hapus i ymateb iddo ef. [Torri ar draws.]
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Is it somebody's birthday party today or are we just particularly jolly? I do not expect the First Minister to have to shout and for me not to be able to hear him.
- Trefn. A yw hi'n barti pen-blwydd rhywun heddiw, neu a ydym ni'n arbennig o hwyliog? Nid wyf yn disgwyl i'r Prif Weinidog orfod gweiddi ac i minnau fethu â'i glywed.
- Galwaf arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.
- 13:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- First Minister, how often do you think a district general hospital in Wales should receive an unannounced visit from Healthcare Inspectorate Wales?
- Brif Weinidog, pa mor aml ydych chi'n credu y dylai ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru dderbyn ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- That is something that the Minister is looking at, to make sure that the healthcare inspection system is more robust.
- Mae hynny'n rhywbeth y mae'r Gweinidog yn ei ystyried, er mwyn sicrhau bod y system arolygu gofal iechyd yn fwy cadarn.
- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is not what I asked, First Minister. I asked you how often you think a Welsh district general hospital should receive an unannounced visit from Healthcare Inspectorate Wales.
- Nid dyna ofynnais i, Brif Weinidog. Gofynnais i chi ba mor aml ydych chi'n meddwl y dylai ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru dderbyn ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

13:40	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That is a matter for the inspectorate. There are some hospitals, as there are schools, which will need more inspections, more frequently. That is a matter for the inspectors and their professional judgment.</p>	<p>Mater i'r arolygiaeth yw hynny. Ceir rhai ysbytai, fel y ceir ysgolion, a fydd angen mwy o arolygiadau, yn amlach. Mater i'r arolygwyr a'u barn broffesiynol yw hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:40	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>I am amazed that you do not have an opinion, First Minister. Let us be clear: even if you do not have an opinion, Healthcare Inspectorate Wales does. It says that it should be visiting district general hospitals at least once a year. For our more sophisticated hospitals, such as the one here in Cardiff at the Heath, it should be visiting twice a year. In reality, it is only able to get around to district general hospitals once every three years. When will you put in place support for Healthcare Inspectorate Wales to enable it to carry out the level of inspections that it says that it wants and that it needs in order to reassure itself, us as politicians, you as First Minister, and the Welsh public, that our hospitals are as safe as we would all want them to be?</p>	<p>Rwy'n synnu nad oes gennych chi farn, Brif Weinidog. Gadewch i ni fod yn eglur: hyd yn oed os nad oes gennych chi farn, mae gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'n dweud y dylai fod yn ymweld ag ysbytai cyffredinol dosbarth o leiaf unwaith y flwyddyn. O ran ein hysbytai mwy soffistigedig, fel yr un yma yng Nghaerdydd yn y Mynydd Bychan, dylai fod yn ymweld ddwywaith y flwyddyn. Mewn gwirionedd, dim ond unwaith bob tair blynedd y mae'n gallu ymweld ag ysbytai cyffredinol dosbarth. Pryd y gwnewch chi sefydlu cefnogaeth i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i'w galluogi i gynnal y lefel o arolygiadau y mae'n dweud y mae ei eisiau a'i angen er mwyn sicrhau ei hun, ni fel gwleidyddion, chi fel Prif Weinidog, a'r cyhoedd yng Nghymru, bod ein hysbytai mor ddiogel ag y byddem i gyd eisiau iddyn nhw fod?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:40	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am surprised to hear the leader of the Welsh Liberal Democrats suggest that some of our hospitals are unsophisticated. [Interruption.] She said that there are more sophisticated ones. I take the view that all of our district general hospitals are sophisticated and should be able to offer a service that is as local as possible. I do not take the view that, somehow, sophistication runs only in some hospitals. That is an unfortunate turn of phrase. I am sure that those working as nurses and doctors in those hospitals will take note of what she said.</p> <p>As far as the inspectorate is concerned, it has said that it wishes to look to inspect hospitals more frequently. That is something that the Minister for Health and Social Services is looking at doing, to make sure that, when we are attacked by Tory Central Office and when people are frightened by those attacks on Wales, such as we saw on the weekend, people can have faith in their health service.</p>	<p>Rwy'n synnu clywed arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awgrymu bod rhai o'n hysbytai yn ansoffistigedig. [Torri ar draws.] Dywedodd bod rhai mwy soffistigedig. Rwyf i o'r farn bod pob un o'n hysbytai cyffredinol dosbarth yn soffistigedig ac y dylent allu cynnig gwasanaeth sydd mor lleol â phosibl. Nid wyf o'r farn y ceir, rywsut, soffistigeiddrwydd mewn rhai ysbytai yn unig. Mae hwnnw'n eiriad anffodus. Rwy'n siŵr y bydd y rheini sy'n gweithio fel nyrsys a meddygon yn yr ysbytai hynny yn cymryd sylw o'r hyn a ddywedodd.</p> <p>O ran yr arolygiaeth, mae wedi dweud ei bod eisiau arolygu ysbytai yn amlach. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried ei wneud, er mwyn sicrhau y gall pobl fod â ffydd yn eu gwasanaeth iechyd pan fydd Swyddfa Ganolog y Torïaid yn ymosod arnom a phan fydd pobl yn cael eu dychryn gan yr ymosodiadau hynny ar Gymru, fel y gwelsom dros y penwythnos.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Yn olaf, arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Finally, the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i></p> <p>Last week, Labour published a paper on the future of devolution. In that paper there was a commitment to keep the Barnett formula. The paper says that</p> <p>'the Barnett formula should remain as the funding mechanism for public services'.</p> <p>Was the First Minister consulted on this important policy announcement?</p>	<p>Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Llafur bapur ar ddyfodol datganoli. Roedd ymrwymiad i gadw fformiwla Barnett yn y papur hwnnw. Mae'r papur yn dweud</p> <p>dylai fformiwla Barnett barhau fel y dull ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>A ymgynghorwyd â'r Prif Weinidog ar y cyhoeddiad polisi pwysig hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:42	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>She is talking about the Scottish proposals; they are not a matter for me. The view of Welsh Labour and the view of the Welsh Government is that there needs to be Barnett reform.</p>	<p>Mae hi'n sôn am gynigion yr Alban; nid ydyn nhw'n fater i mi. Barn Llafur Cymru a barn Llywodraeth Cymru yw bod angen diwygio Barnett.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>Llywydd, the First Minister told me that he would fight for a commitment to fair funding in Labour's UK general election manifesto. He said that it is important that fair funding is looked at from the perspective of the whole of the UK. Who does he think that his party leader will side with on fair funding—him or his Scottish counterpart?</p>	<p>Llywydd, dywedodd y Prif Weinidog wrthyf y byddai'n ymladd am ymrwymiad i ariannu teg ym manifesto'r Blaid Lafur yn etholiad cyffredinol y DU. Dywedodd ei bod yn bwysig bod ariannu teg yn cael ei ystyried o safbwynt y DU gyfan. Gyda phwy y mae'n credu y bydd arweinydd ei blaid yn ochri o ran ariannu teg—ef neu ei gyfatebwr yn yr Alban?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:43	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The people of Britain—fair funding across the whole of the UK. She seems to understand what is in the UK general election manifesto before it has actually been written. I can assure her that my view is—and I have expressed this to Ed Miliband—that the Barnett formula will need to be reformed. There needs to be fair funding across the whole of the UK. That is not a view shared by the SNP, your sister party.</p>	<p>Pobl Prydain—ariannu teg ar draws y DU gyfan. Mae'n ymddangos ei bod yn deall beth sydd ym manifesto etholiad cyffredinol y DU cyn iddo gael ei ysgrifennu. Gallaf ei sicrhau hi mai fy marn i—ac rwyf wedi mynegi hyn i Ed Miliband—yw y bydd angen diwygio fformiwla Barnett. Mae angen ariannu teg ar draws y DU gyfan. Nid yw honno'n farn a rennir gan yr SNP, eich chwaer-blaid.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:43	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>The First Minister said on the floor of this Assembly:</p> <p>'I do not think that Barnett is tenable in the longer term; I think that we all understand that.'</p> <p>Clearly, the Labour leader in Scotland does not understand that. She said that the Barnett formula works for whole of the United Kingdom and is a mechanism that has served Scotland well so far. Is it not the case that the leader of the opposition in Scotland holds more sway with his party leader than the First Minister?</p>	<p>Dywedodd y Prif Weinidog ar lawr y Cynulliad hwn:</p> <p>Nid wyf yn credu bod Barnett yn gynaliadwy yn yr hirdymor; rwy'n credu ein bod i gyd yn deall hynny.</p> <p>Yn amlwg, nid yw arweinydd y Blaid Lafur yn yr Alban yn deall hynny. Dywedodd hi fod fformiwla Barnett yn gweithio ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ac yn ddull sydd wedi gwasanaethu'r Alban yn dda hyd yn hyn. Onid yw'n wir bod arweinydd yr wrthblaid yn yr Alban yn dylanwadu mwy ar arweinydd ei blaid na'r Prif Weinidog?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:44	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The leader of the opposition in Scotland is a woman; rather than 'his', her name is Johann Lamont—but there we are. The other point to remind you of is quite simply this: Scotland will have its own view and Wales will have another. I have made it absolutely clear that we believe that the Barnett formula should be reformed. I note that Plaid's sister party in Scotland, the SNP, has said that, in the event of a 'no' vote, it will fight tooth and nail to keep the Barnett formula as it is. The rhetorical question that I ask Plaid Cymru is this: will it condemn the SNP for its comments in that they will fight against the interests of Wales?</p>	<p>Menyw yw arweinydd yr wrthblaid yn yr Alban; yn hytrach na 'ei blaid', Johann Lamont yw ei henw—ond dyna ni. Y pwynt arall i'ch atgoffa chi ohono, yn eithaf syml, yw hyn: bydd gan yr Alban ei barn ei hun a bydd gan Gymru un arall. Rwyf wedi ei gwneud yn gwbl eglur ein bod yn credu y dylid diwygio fformiwla Barnett. Nodaf fod chwaer-blaid Plaid Cymru yn yr Alban, yr SNP, wedi dweud y bydd, os ceir pleidlais 'na', yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gadw fformiwla Barnett fel ag y mae. Y cwestiwn rhethregol rwy'n ei ofyn i Blaid Cymru yw hyn: a wnaiff hi gondemnio'r SNP am ei sylwadau yn nodi y bydd yn ymladd yn erbyn buddiannau Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Trown yn ôl at y cwestiynau ar y papur.</p> <p>Question 3, OAQ(4)1583(FM), has been withdrawn.</p>	<p>We turn back to the questions on the paper.</p> <p>Tynnwyd Cwestiwn 3, OAQ (4) 1583 (FM), yn ôl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:45	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>Presiding Officer, may I answer that question?</p>	<p>Lywydd, a gaf fi ateb y cwestiwn yna?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>No. I call for question 4 from Byron Davies.</p> <p>It was a rhetorical question. The First Minister made that point.</p>	<p>Na chewch. Galwaf am gwestiwn 4 gan Byron Davies.</p> <p>Cwestiwn rhethregol oedd e. Gwnaeth y Prif Weinidog y pwyt hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Rhwydwaith Bysiau Cymru		Welsh Bus Network	
13:45	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol rhwydwaith bysiau Cymru? OAQ(4)1586(FM)</i></p>	<p><i>4. Will the First Minister make a statement on future of the Welsh bus network? OAQ(4)1586(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We fully understand the importance of an effective and affordable bus service, which is why we provide significant funding to support the network throughout Wales. The bus policy advisory group will advise us on maximising value for public money and securing the best possible provision of services.</p>	<p>Rydym yn deall yn iawn pwysigrwydd gwasanaeth bus effeithiol a fforddiadwy, a dyna pam rydym ni'n darparu cyllid sylweddol i gefnogi'r rhwydwaith ledled Cymru. Bydd y grŵp cynghori ar bolisi bus yn ein cynghori ar sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian cyhoeddus a sicrhau'r ddarpariaeth orau posibl o wasanaethau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:45	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Given that the new financial year starts in four working days, can you explain why your Government has failed to inform local authorities of what support they will receive through the local transport service grant? Do you acknowledge that the uncertainty caused by not having a clear revenue stream to support bus services next year has put many under threat and has closed some routes unnecessarily? Will you apologise to the people of Wales and ensure that your Government informs local authorities today?</p>	<p>O gofio bod y flwyddyn ariannol newydd yn dechrau mewn pedwar diwrnod gwaith, a allwch chi egluro pam mae eich Llywodraeth wedi methu â hysbysu awdurdodau lleol o ba gymorth y byddant yn ei gael drwy'r grant gwasanaethau cludiant lleol? A ydych chi'n cydnabod bod yr ansicrwydd a achoswyd trwy beidio â chael ffrwd refeniw eglur i gynorthwyo gwasanaethau bysiau y flwyddyn nesaf wedi rhoi llawer dan fygythiad ac wedi cau rhai llwybrau yn ddiangen? A wnewch chi ymddiheuro i bobl Cymru a sicrhau bod eich Llywodraeth yn hysbysu awdurdodau lleol heddiw?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have been clear in terms of what we expect from bus services in Wales and on funding. Will he apologise to the people of Wales for his failure to take their side when it comes to the electrification of the railways? Will he apologise for that? Will he apologise for taking London's side, against his own constituents? We will take no lessons at all from the Tories when it comes to transport, when they have sold Wales down the river.</p>	<p>Rydym ni wedi bod yn eglur o ran yr hyn yr ydym ni'n ei ddisgwyl gan wasanaethau bysiau yng Nghymru ac o ran ariannu. A wnaiff ef ymddiheuro i bobl Cymru am ei fethiant i'w cefnogi pan ddaw i drydaneiddio'r rheilffyrdd? A wnaiff ef ymddiheuro am hynny? A wnaiff ef ymddiheuro am gymryd ochr Llundain, yn erbyn ei etholwyr ei hun? Nid ydym yn fodlon cymryd unrhyw wersi o gwbl gan y Torïaid pan ddaw i drafnidiaeth, pan maen nhw wedi bradychu Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>What assessment has the First Minister made of the effects of cuts to the concessionary fare reimbursement rates on rural services in places such as Anglesey, where, already, fares are facing an upward pressure, where there are threats to jobs as well as routes, and where already limited services are a vital and irreplaceable lifeline to many?</p>	<p>Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud o effeithiau toriadau i'r cyfraddau ad-dalu pris rhatach ar wasanaethau gwledig mewn mannau fel Ynys Môn, lle mae prisiau tocynnau eisoes yn wynebu codiadau, lle ceir bygythiadau i swyddi yn ogystal â llwybrau, a lle mae gwasanaethau sydd eisoes yn gyfyngedig yn fodd hanfodol ac anhepgor o fyw eu bywydau i lawer?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The new three-year funding package follows an independent review of local authorities' arrangements for reimbursing bus operators for offering more than 720,000 concessionary pass holders in Wales, including armed forces personnel and veterans, the ability to take advantage of that concessionary travel.

Local authorities are responsible in law for ensuring that bus operators are no better and no worse off as a result of carrying pass holders for free. It is important that local authorities take account of that when deciding which services to support.

Mae'r pecyn ariannu tair blynedd newydd yn dilyn adolygiad annibynnol o drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ad-dalu cwmnïau bysiau am gynnig y gallu i fwy na 720,000 o ddeiliaid tocynnau rhatach yng Nghymru, gan gynnwys personél a chyn-filwyr y lluoedd arfog, fanteisio ar y teithio rhatach hwnnw.

Yn ôl y gyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwmnïau bysiau ddim gwell na gwaeth eu byd o ganlyniad i gludo deiliaid tocynnau am ddim. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried hynny wrth benderfynu pa wasanaethau i'w cynorthwyo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:47

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae eich rhaglen lywodraethu'n sôn am wella a datblygu gwasanaethau ar gyfer ardaloedd gwledig. Er hynny, mae cyngor Wrexham yn y gogledd ddwyrain wedi rhoi'r gorau i bob un o'i raglenni gwledig, ac yn dweud bod hynny oherwydd cwtogi ar ran Llywodraeth Cymru. Er hynny, o ran yr adran ymchwilio, mae'n awgrymu nad oes cyhoeddiad wedi ei wneud eto gan Lywodraeth Cymru o ran unrhyw gwtogi. A ydych chi'n fodlon â chyngor o dan reolaeth eich plaid chi yn rhoi'r fath esboniad i bobl sydd ar eu colled o achos y cwtogi hwn?

Your programme for government talks about improving and developing services for rural areas. Notwithstanding that, Wrexham council in the north-east has given up on each of its rural programmes and says that that is due to cutbacks by the Welsh Government. However, in terms of the research department, it suggests that there has not been an announcement by Welsh Government in terms of any cuts. Are you happy that a council under the control of your party is giving that kind of explanation to people who are losing out because of the cutbacks?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hynny, wrth gwrs, yn fater i gyngor Wrexham. Mae'n deall, fel pawb arall, fod problemau ariannol wedi eu creu o achos polisiau eich plaid chi.

That is a matter for Wrexham council of course. It understands, as does everyone else, that financial problems have been caused because of the policies of your party.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Safonau i Denantiaid

Standards for Tenants

13:48

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi safonau i denantiaid yn y sector rhentu preifat? OAQ(4)1580(FM)

5. Will the First Minister provide an update on how the Welsh Government intends to raise standards for tenants in the private rented sector? OAQ(4)1580(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. The proposals for raising the standards in the private rented sector, as detailed in the Housing (Wales) Bill, are for a mandatory registration and licensing scheme for all landlords and agents operating in Wales. Licensing will involve a successful completion of both training and a fit-and-proper-person test.

Gwnaf. Mae'r cynigion ar gyfer codi'r safonau yn y sector rhentu preifat, fel y nodir ym Mil Tai (Cymru), ar gyfer cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiant sy'n gweithredu yng Nghymru. Bydd trwyddedu yn cynnwys cwblhau hyfforddiant a phrawf person addas a phriodol yn llwyddiannus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:48

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last week, Shelter Cymru and British Gas launched their report, 'Fit to rent?', at an event that I hosted here in the Assembly. It followed the biggest ever survey of tenants in the private rented sector and it painted an absolutely shocking picture, with almost two thirds of tenants experiencing some kind of poor housing conditions in the last year. Therefore, First Minister, I am extremely glad that you mentioned the Bill. Will you join me in welcoming Shelter's support and that of the Chartered Institute of Housing Cymru for the proposed mandatory registration and licensing scheme for private landlords and letting and management agents in Wales, to help to ensure that the increasing number of families who are living in this sector have good quality homes?

Yr wythnos diwethaf, lansiodd Shelter Cymru a Nwy Prydain eu hadroddiad, 'Fit to rent?', mewn digwyddiad a gynhaliats i yma yn y Cynulliad. Roedd yn dilyn yr arolwg mwyaf erioed o denantiaid yn y sector rhentu preifat ac yn cyflwyno darlun cwbl syfrdanol, gyda bron i ddwy ran o dair o denantiaid yn cael profiad o ryw fath o amodau tai gwael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Felly, Brif Weinidog, rwy'n hynod falch eich bod wedi sôn am y Bil. A wnech chi ymuno â mi i groesawu cefnogaeth Shelter a chefnogaeth Sefydliad Tai Siartredig Cymru i'r cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol arfaethedig ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantau gosod a rheoli tai yng Nghymru, er mwyn helpu i sicrhau bod gan y nifer gynyddol o deuluoedd sy'n byw yn y sector hwn gartrefi o ansawdd da?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I very much welcome that support. I am pleased that our proposals, as outlined in the Housing (Wales) Bill, have gathered widespread support in recent months. The intention is to include management standards within the private rented sector, and good landlords and agents have nothing to fear.

Rwy'n croesawu'r gefnogaeth honno'n fawr iawn. Rwy'n falch bod ein cynigion, fel y'u hamlinellir ym Mil Tai (Cymru), wedi derbyn cefnogaeth eang yn y misoedd diwethaf. Y bwriad yw cynnwys safonau rheoli yn y sector rhentu preifat, ac nid oes gan landlordiaid ac asiantau da ddim i'w ofni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Registration without enforcement does not does not change a thing. The research found that 90% said that their health had not been affected in the last year by landlords not getting repairs done and poor conditions. Given that your Minister for housing has confirmed that he does not have figures for the number of enforcement actions taken by local authorities under the housing health and safety rating system, and that local authorities are telling me that they assessed 6,500 units last year, but that, generally, they seek to achieve improvements with advice, support and encouragement rather than enforcement, how would this proposed legislation address the need for measured enforcement rather than a paper trail that would not necessarily deliver that?

Nid yw cofrestru heb orfodi yn newid unrhyw beth. Canfu'r gwaith ymchwil bod 90% yn dweud nad oedd eu hiechyd wedi ei effeithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd methiant landlordiaid i wneud atgyweiriadau ac amodau gwael. O gofio bod eich Gweinidog tai wedi cadarnhau nad oes ganddo ffigurau o ran faint o gamau gorfodi a gymerwyd gan awdurdodau lleol dan y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, a bod awdurdodau lleol yn dweud wrthyf eu bod wedi asesu 6,500 o unedau y llynedd, ond, yn gyffredinol, eu bod yn ceisio sicrhau gwelliannau gyda chyingor, cefnogaeth ac anogaeth yn hytrach na gorfodi, sut y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn mynd i'r afael â'r angen am orfodaeth gyson yn hytrach na llwybr papur na fyddai o reidrwydd yn cyflawni hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I believe that it does provide the ability for there to be measured enforcement. As somebody who spent much time in my previous career suing landlords for housing disrepair, I know full well what things were like in the early 1990s for so many tenants. I do not think that anyone can argue sensibly that we should not move to a system where private rented accommodation is of the right standard that we would all expect in the twenty-first century.

Rwy'n credu ei bod yn darparu'r gallu i gael gorfodaeth gyson. Fel rhywun a dreuliodd llawer o amser yn fy ngyrfa flaenorol yn erlyn landlordiaid am ddiffyg atgyweirio tai, rwy'n gwybod yn iawn sut oedd pethau i gymaint o denantiaid ddechrau'r 1990au. Nid wyf yn credu y gall unrhyw un ddadlau yn synhwyrol na ddylem symud i system lle mae llety rhent preifat o'r safon gywir y byddem i gyd yn ei disgwyl yn yr unfed ganrif ar hugain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, the Shelter report finds that conditions in the private rented sector in Wales are worse than those being experienced in England, and more than half of the tenants say that they would rather be living somewhere else. I think that is a very sad state of affairs. For them, of course, this is the tenure of no choice. Would you say that the private sector as it stands is suitable for housing vulnerable homeless families?</p>	<p>Brif Weinidog, mae adroddiad Shelter yn canfod bod amodau yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn waeth na'r rhai a welir yn Lloegr, ac mae mwy na hanner y tenantiaid yn dweud y byddai'n well ganddynt fod yn byw yn rhywle arall. Rwy'n credu bod honno'n sefyllfa drist iawn. Iddyn nhw, wrth gwrs, mae hon yn ddeiliadaeth nad oes dewis yn ei chylch. A fydddech chi'n dweud bod y sector preifat fel ag y mae yn addas i roi llety i deuluoedd digartref sy'n agored i niwed?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think that it is inconsistent. The Bill itself will provide the opportunity to ensure that the quality of private rented accommodation increases in the future and that there is better consistency to make sure that the worst catch up with the best or, indeed, that the worst no longer exist.</p>	<p>Rwy'n meddwl ei fod yn anghyson. Bydd y Bil ei hun yn rhoi cyfle i sicrhau bod ansawdd llety rhent preifat yn gwella yn y dyfodol a bod gwell cysondeb i wneud yn siŵr bod y gwaethaf yn dal i fyny gyda'r gorau, neu, yn wir, nad yw'r gwaethaf yn bodoli mwyach.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, would you agree with me that the proliferation of houses in multiple occupation does nothing to improve quality standards in the sector, and that more effective local authority licensing and enforcement would be good for tenants and the wider community?</p>	<p>Brif Weinidog, a fydddech chi'n cytuno â mi nad yw'r gormodedd o dai amlfeddiannaeth yn gwneud dim i wella safonau ansawdd yn y sector, ac y byddai trwyddedu a gorfodi mwy effeithiol gan awdurdodau lleol yn dda i denantiaid ac i'r gymuned ehangach?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. I understand that Rhondda Cynon Taf County Borough Council has recently designated a new additional licensing scheme in its area, which will start from 1 April. It will mean that all HMOs in the area will now need a licence. It is important, of course, particularly in areas—he will represent one such area, there are others in the Chamber who will represent other such areas—to ensure that there is not a proliferation of HMOs that causes a difficulty in terms of community sustainability, if I can put it that way. Of course, there is a need for HMOs to accommodate particularly students, but it is important that there is a balance struck within a community.</p>	<p>Byddwn. Rwy'n deall bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol newydd yn ei ardal yn ddiweddar, a fydd yn dechrau o 1 Ebrill. Bydd yn golygu y bydd angen trwydded ar bob HMO yn yr ardal bellach. Mae'n bwysig, wrth gwrs, yn enwedig mewn ardaloedd—bydd ef yn cynrychioli un ardal o'r fath, mae eraill yn y Siambr a fydd yn cynrychioli ardaloedd eraill o'r fath—i sicrhau nad oes gormod o HMOs sy'n achosi anhawster o ran cynaliadwyedd cymunedol, os caf ei roi felly. Wrth gwrs, mae angen i HMOs ddarparu llety myfyrwyr yn arbennig, ond mae'n bwysig y sicrhau cydbwysedd mewn cymuned.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Dewisiadau Rhieni ym myd Addysg

Parental Preference in Education

13:52	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddewisiadau rhieni wrth iddynt ddewis ysgolion yn system addysg Cymru? OAQ(4)1577(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the First Minister make a statement on parental preference when choosing schools in the Welsh education system? OAQ(4)1577(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Local authorities must enable parents to express a preference for a school when applying for a place.</p>	<p>Mae'n rhaid i awdurdodau lleol alluogi rhieni i ddewis ysgol wrth wneud cais am le.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:52 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that there is a great deal of concern in Denbighshire, in my own constituency, as a result of proposals to close some schools with a religious character at the moment, namely a secondary school in the north of the county and a local Church in Wales school just outside Ruthin. I appreciate that you will not be able to comment on the specifics of those two particular cases, but what action would you expect local authorities to have to take to ensure that there are schools with a religious character in their areas in order to meet the parental and pupil preference that is often shown for such schools?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod llawer iawn o bryder yn Sir Ddinbych, yn fy etholaeth i fy hun, o ganlyniad i gynigion i gau rhai ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ar hyn o bryd, sef ysgol uwchradd yng ngogledd y sir ac ysgol yr Eglwys yng Nghymru leol ar gyrion Rhuthun. Rwy'n sylweddoli na fyddwch yn gallu cynnig sylwadau ar fanylion y ddau achos penodol hynny, ond pa gamau fydddech chi'n disgwyl i awdurdodau lleol eu cymryd i sicrhau bod ysgolion â chymeriad crefyddol yn eu hardaloedd er mwyn bodloni'r dymuniad a welir yn aml gan rieni a disgyblion i fynychu ysgolion o'r fath?
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Member appreciates, of course, that I cannot comment on individual circumstances. Where there are existing schools, it is important that there is full consultation inevitably to make sure that changes are made only after understanding the views of the public. It is true, of course, that in many areas of Wales there are no schools of a religious character. That is to do with the history of those areas. However, as with any change in education provision, or any school closure, I would expect there to be full consultation.
- Bydd yr Aelod yn gwerthfawrogi, wrth gwrs, na allaf gynnig sylwadau ar amgylchiadau unigol. Pan geir ysgolion presennol, mae'n bwysig bod ymgynghori llawn yn anochel er mwyn gwneud yn siŵr bod newidiadau yn cael eu gwneud dim ond ar ôl deall safbwyntiau'r cyhoedd. Mae'n wir, wrth gwrs, bod llawer o ardaloedd yng Nghymru lle nad oes ysgolion o gymeriad crefyddol. Mae hynny'n ymwneud â hanes yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw newid i'r ddarpariaeth addysg, neu unrhyw achos o gau ysgol, byddwn yn disgwyl i ymgynghoriad llawn gael ei gynnal.
- 13:54 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, oherwydd natur ddaearyddol a threfedigaethol Cymru, mae'r dewis go iawn i'r rhan fwyaf o rieni yn un ynglŷn â ffydd ac iaith, wrth gwrs, sef dewis addysg Gymraeg ai peidio. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau addysg Cymru yn ymgynghori ar y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ac mae disgwyl i'r broses honno ddigwydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Ar ôl i hynny ddigwydd, a fyddwch chi fel Llywodraeth yn edrych ar yr holl gynlluniau strategol hyn yn eu crynswth ac yn cymryd barn genedlaethol i sicrhau bod dewis rhieni i gael addysg Gymraeg yn cael ei ddiwallu ym mhob rhan o Gymru?
- First Minister, due to the geographical nature of Wales, the real option for most parents is an issue of faith and language, and whether they choose Welsh-medium education or not. At the moment, the education authorities in Wales are consulting on the strategic Welsh in education plans and we are expecting that process to conclude over the next few weeks. Once that has happened, will you as a Government look at all of the strategic plans as a whole and take a national view in order to ensure that the option for parents to choose Welsh-medium education is provided in all parts of Wales?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n bwysig dros ben ynglŷn â'r cynlluniau hynny bod awdurdodau lleol wedi ystyried yn fanwl beth yw'r galw am addysg Gymraeg yn eu hardaloedd hwy. Byddem yn erfyn, wrth gwrs, iddyn nhw sicrhau eu bod wedi gwneud hynny. Byddwn ni fel Llywodraeth yn ystyried pob cynllun ac, wrth gwrs, bydd rhaid inni ystyried y sefyllfa genedlaethol hefyd. Os oes unrhyw gynllun nad yw'n iawn, bydd yn rhaid ailystyried y cynllun hwnnw. Nid oes arwydd ar hyn o bryd bod unrhyw gynllun wedi cwympo mewn i'r categori hwnnw.
- It is extremely important regarding those schemes that local authorities consider in detail the demand for Welsh-medium education in their areas. We would expect them to ensure that they have done so. We as a Government will consider each scheme and, of course, we will consider the national picture too. If there is any scheme that does not meet the requirements, we would reconsider that scheme. There is no indication at present that any scheme has fallen into that category.
- Microsglodynnu Anifeiliaid** **Animal Microchipping**
- 13:55 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ficrosglodynnu anifeiliaid?*
OQA(4)1576(FM)
- 7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to animal micro chipping?*
OQA(4)1576(FM)

- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are committed to it. Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Rydym ni wedi ymrwymo iddo.
- 13:55 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Excellent; thank you for that concise answer, First Minister. In this context, with the forthcoming legislation in mind, the Microchipping Alliance, which is made up of several bodies such as the Kennel Club, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals and Dogs Trust, is keen to support the Welsh Government in promoting the requirements of the new legislation coming forward. In that context, I understand that it has experienced some difficulty, due to diary pressure, in securing a meeting with the Minister to flesh out its proposals. Will you, First Minister, please urge your colleague the Minister for Natural Resources and Food to engage positively with this generous offer from this third sector body? Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Gwych; diolch i chi am yr ateb cryno yna, Brif Weinidog. Yn y cyd-destun hwn, gan gofio'r ddeddfwriaeth sydd ar fin cael ei chyflwyno, mae'r Microchipping Alliance, sy'n cynnwys nifer o gyrff fel y Kennel Club, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a'r Dogs Trust, yn awyddus i gefnogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gofynion y ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei chyflwyno. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n deall ei fod wedi cael rhywfaint o anhawster, oherwydd pwysau ar y dyddiadur, i gael cyfarfod gyda'r Gweinidog i ymhelaethu ar ei gynigion. A wnewch chi, Brif Weinidog, os gwelwch yn dda, annog eich cydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cynnig hael hwn gan y corff trydydd sector hwn?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister has heard that offer. In relation to the answer that I gave earlier on, there are different proposals and different regimes for microchipping different animals. You refer specifically to dogs. As he will know, from 1 March next year compulsory microchipping will be introduced, and I am sure that the Minister will want to meet with all organisations to ensure that the regulations are properly enforced and understood. Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mae'r Gweinidog wedi clywed y cynnig hwnnw. O ran yr ateb a roddais yn gynharach, ceir gwahanol gynigion a gwahanol gyfundrefnau ar gyfer microsglodynnu gwahanol anifeiliaid. Rydych chi'n cyfeirio at gŵn yn benodol. Fel y bydd yn gwybod, o 1 Mawrth y flwyddyn nesaf, bydd microsglodynnu gorfodol yn cael ei gyflwyno, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn dymuno cyfarfod â'r holl sefydliadau i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu deall a'u gorfodi'n briodol.
- 13:56 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, I concur with the question and sentiments raised by Will Powell; I do hope that the Minister will find time soon in a very crowded diary to hold meetings about this important issue. You will be aware, First Minister, that only recently, in January, it was reported that Chance, the Staffordshire bull terrier that went missing from Barry 10 years ago, had been found; he was just a day away from being put down when his microchip was scanned and he was returned to his owners. That is a canine example of how microchipping really does help people on the ground. Will you please do what you can to make sure that this issue is promoted, and that when the microchipping legislation is finalised, people do know about it and get their pets microchipped? Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Brif Weinidog, rwy'n cytuno â'r cwestiwn a'r safbwyntiau a godwyd gan Will Powell; gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn dod o hyd i amser yn fuan mewn dyddiadur gorlawn i gynnal cyfarfodydd ar y mater pwysig hwn. Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, mai dim ond yn ddiweddar, ym mis Ionawr, yr adroddwyd y daethpwyd o hyd i Chance, y daeargi tarw Swydd Stafford a aeth ar goll o'r Barri 10 mlynedd yn ôl; roedd ddiwrnod yn unig i ffwrdd o gael ei ddifa pan sganiwyd ei ficrosglodyn ac y'i dychwelyd i'w berthnigion. Mae honno'n enghraifft yn ymwneud â chŵn o sut y mae microsglodynnu wir yn helpu pobl ar lawr gwlad. A wnewch chi, os gwelwch yn dda, yn wneud yr hyn a allwch i sicrhau bod y mater hwn yn cael ei hyrwyddo, a phan fydd y ddeddfwriaeth microsglodynnu yn barod, bod pobl yn gwybod amdani ac yn microsglodynnu eu hanifeiliaid anwes?
- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member raises a good example of why microchipping is so important in terms of identifying dogs in the future. It will be important, as we understand, to make sure that people understand the changes in the regulations that will come next March, and to understand how microchipping can benefit people in terms of making it less likely that they will lose a treasured pet. Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mae'r Aelod yn codi enghraifft dda o pam mae microsglodynnu mor bwysig o ran nodi cŵn yn y dyfodol. Bydd yn bwysig, fel yr ydym ni'n deall, gwneud yn siŵr bod pobl yn deall y newidiadau i'r rheoliadau a fydd yn dod fis Mawrth nesaf, ac i ddeall sut y gall microsglodynnu fod o fudd i bobl o ran ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn colli anifail anwes annwyl.

13:57	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Brif Weinidog, hwyrach y byddai'n syniad i feicrosglodynnu'r Gweinidog er mwyn sicrhau ei fod yn cadw at ofynion ei ddyddiadur prysur, ac yn llwyddo i gyrraedd cyfarfodydd gyda phawb sydd am drafod y mater hwn gydag ef. Fel rydych yn dweud, mewn egwyddor, rwy'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonom yn cytuno bod hwn yn symudiad pwysig ac angenrheidiol. Fodd bynnag, a ydych yn poeni bod gosod mwy a mwy o ofynion ar fusnesau sydd wedi cofrestru yn mynd i arwain at sefyllfa lle y bydd rhai pobl yn ceisio osgoi cofrestru, fel eu bod yn gallu osgoi'r gofynion a fyddai arnynt?</p>	<p>First Minister, perhaps it may be an idea to microchip the Minister to ensure that he keeps to the requirements of his busy diary, and succeeds in reaching meetings to meet all those people who want to discuss this issue with him. As you say, in principle, I am sure that most of us would agree that this is an important and essential shift. However, are you worried that placing more and more demands on businesses that have registered will lead to a situation where some people will try to avoid registration and so avoid the requirements that would be on them?</p>
13:58	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Na, nid wyf yn credu bod hynny'n iawn. Pe bai hynny'n wir, ni fyddem byth yn gwneud unrhyw fath o reoliadau yn y lle hwn o achos y ffaith bod gennym ofn o ran y bobl a fyddai'n mynd tu ôl i'r gyfraith. Mae'n bwysig bod pobl yn ystyried fod unrhyw system gofrestru yn digwydd er lles pobl ac anifeiliaid, ac yn cadw at y rheoliadau hynny.</p>	<p>No, I do not think that that is accurate. If that were the truth, we would never make any regulations in this place because of the fact that we were fearful in terms of the people who would ignore the law. It is important that people see that any system of registration is put in place for the benefit of people and animals, and that they stick to those regulations.</p>
	Busnesau Bach yn Aberafan	Small Businesses in Aberavon
13:58	David Rees Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach yn Aberafan?</i> OAQ(4)1582(FM)</p>	<p><i>8. Will the First Minister make a statement on Welsh Government support for small businesses in Aberavon?</i> OAQ(4)1582(FM)</p>
13:58	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are committed to supporting and working with Welsh businesses to help them grow and create jobs. That is why, for example, we created Business Wales as a streamlined service.</p>	<p>Rydym ni wedi ymrwymo i gynorthwyo a gweithio gyda busnesau yng Nghymru i'w helpu i dyfu a chreu swyddi. Dyna pam, er enghraifft, y gwnaethom ni greu Busnes Cymru fel gwasanaeth symlach.</p>
13:59	David Rees Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, First Minister. I am sure that you will agree that small businesses are at the heart of a vibrant high street and town centre. In light of the decision last week to trial the closure of two slip roads at junction 41 of the M4, what analysis has the Welsh Government made of the potential impact of this decision on small businesses in Port Talbot? Has the Government considered whether any support will be offered to local businesses if they suffer a detrimental impact?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod busnesau bach yn ganolog i stryd fawr a chanol tref fywiog. Yn sgil y penderfyniad yr wythnos diwethaf i gau dwy ffordd ymuno ac ymadael wrth gyffordd 41 yr M4 ar sail prawf, pa ddadansoddiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o effaith bosibl y penderfyniad hwn ar fusnesau bach ym Mhort Talbot? A yw'r Llywodraeth wedi ystyried a fydd unrhyw gymorth yn cael ei gynnig i fusnesau lleol os byddant yn dioddef effaith niweidiol?</p>
13:59	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is a trial and it will last for some six months. We will monitor traffic on the motorway and local roads, and we will be using footfall data from the Aberavon shopping centre to assess the effect on town centre businesses. During the course of the trial, comments will also be invited from members of the public, and we are investigating what funding streams might be made available to support local businesses.</p>	<p>Prawf yw hwn a bydd yn para tua chwe mis. Byddwn yn monitro traffig ar y draffordd a ffordd lleol, a byddwn yn defnyddio data nifer yr ymwelwyr o ganolfan siopa Aberafan i asesu'r effaith ar fusnesau yng nghanol y dref. Yn ystod y prawf, bydd sylwadau yn cael eu gwahodd gan y cyhoedd hefyd, ac rydym yn ymchwilio i ba ffrydiau ariannu y gellid eu rhoi ar gael i gynorthwyo busnesau lleol.</p>

- 13:59 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, in 2012 the Welsh Conservatives published our proposals to revitalise high streets across Wales. Two years on, it is evident that you are still dithering. You have now delayed your campaign, which was scheduled for June 2013, until the end of 2014. Our high streets are in desperate need of support through business rate reform, measures to bring empty premises back into use, and moves to make it easier for people to shop locally. Will you commit to bringing forward action to help small businesses across Wales and Aberavon in the summer of 2014?
- Brif Weinidog, cyhoeddodd Ceidwadwyr Cymru ein cynigion i adfywio'r stryd fawr ledled Cymru yn 2012. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'n amlwg eich bod yn dal i bendroni. Rydych chi wedi gohirio eich ymgyrch erbyn hyn, a oedd wedi ei threfnu ar gyfer mis Mehefin 2013 tan ddiwedd 2014. Mae ein strydoedd mawr mewn angen dybryd o gymorth trwy ddiwygio ardrethi busnes, mesurau i ailddechrau defnyddio adeiladau gwag, a champau i'w gwneud yn haws i bobl siopa'n lleol. A wneuch chi ymrwymo i gyflwyno camau i helpu busnesau bach ledled Cymru ac Aberafan yn ystod haf 2014?
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is a curious question, because, as we see this morning, it seems that the independent small business sector, particularly in retail, is doing better in Wales than anywhere else in the UK, almost. It shows that we in Wales are outperforming many other parts of the UK and it shows that what we as a Welsh Labour Government are doing is, once again, benefiting the Welsh economy.
- Mae'n gwestiwn rhyfedd, oherwydd, fel y gwelwn y bore yma, mae'n ymddangos bod y sector busnesau bach annibynnol, yn enwedig ym maes manwerthu, yn gwneud yn well yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU, bron. Mae'n dangos ein bod ni yng Nghymru yn gwneud yn well na llawer o rannau eraill o'r DU ac mae'n dangos bod yr hyn yr ydym ni fel Llywodraeth Lafur Cymru yn ei wneud, unwaith eto, o fudd i economi Cymru.
- 14:00 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, following on from what David Rees said about the pilot that you are taking forward on the M4, can you explain to us how exactly you will be collecting comments from members of the public? My inbox has been full of comments from people really annoyed locally about what is going to happen and the potential effect on businesses in the area. We really need to understand how people can take part in any consultation, because I think they feel at the moment that they have not been fully engrossed in what the Welsh Government is doing on this.
- Brif Weinidog, yn dilyn ymlaen o'r hyn a ddywedodd David Rees am y prawf yr ydych chi'n ei gynnal ar yr M4, a allwch chi esbonio i ni sut yn union y byddwch yn casglu sylwadau gan y cyhoedd? Mae fy mewnlwch wedi bod yn llawn o sylwadau gan bobl sy'n ddig iawn yn lleol am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd a'r effaith bosibl ar fusnesau yn yr ardal. Mae gwir angen i ni ddeall sut y gall pobl gymryd rhan mewn unrhyw ymgyngoriad, gan fy mod yn meddwl eu bod yn teimlo ar hyn o bryd nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn llawn yn yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn.
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, I think that I made it clear what will happen. The Minister will give further details in terms of what the consultation process will be, or, rather, what the process for obtaining views from members of the public will be, in due course. That, of course, will inform the final decision as to what happens with this junction.
- Wel, rwy'n meddwl i mi ei gwneud yn eglur beth fydd yn digwydd. Bydd y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion o ran ffurf y broses ymgyngori, neu, yn hytrach, beth fydd y broses ar gyfer cael sylwadau gan y cyhoedd, maes o law. Bydd hynny, wrth gwrs, yn llywio'r penderfyniad terfynol o ran yr hyn fydd yn digwydd gyda'r gyffordd hon.
- 14:01 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, thank you for clarifying some of the details on the consultation with regards to that particular closure. My inbox has also been full of comments from people about this particular issue. Could you just clarify, in terms of the evaluation of this pilot, what weight will be given to the issues relating to traffic compared to the issues relating to the shopping centre? How will you balance the two in determining whether this experiment should be continued?
- Brif Weinidog, diolch i chi am egluro rhai o'r manylion am yr ymgyngoriad o ran yr achos penodol hwnnw o gau. Mae fy mewnlwch innau hefyd wedi bod yn llawn o sylwadau gan bobl ynglŷn â'r mater penodol hwn. A allech chi egluro, o ran y gwerthusiad o'r prawf hwn, pa bwys fydd yn cael ei roi i'r materion yn ymwneud â thraffig o'u cymharu â'r materion sy'n ymwneud â'r ganolfan siopa? Sut y byddwch chi'n sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau wrth benderfynu a ddylid parhau â'r arbrawf hwn?

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I think that that needs to be done when the evidence is assessed. I would not want to prejudge the situation in any way. We have the trial and we will judge the results of the trial in terms of the effect on footfall. In terms of the effect on safety and traffic on the M4, we know that that section of the M4 was built to a far lower standard than would have been the case had it been built these days. It was originally part of the A48, of course, rather than the M4, which is why there is a problem with that junction. There are other factors, such as footfall and local traffic, and we will take all matters into account before a final decision is made.

Wel, rwy'n meddwl bod angen gwneud hynny pan fydd y dystiolaeth yn cael ei hasesu. Ni fyddwn eisiau rhagfarnu'r sefyllfa mewn unrhyw ffordd. Mae'r prawf gennym a byddwn yn barnu canlyniadau'r prawf o ran yr effaith ar nifer yr ymwelwyr. O ran yr effaith ar ddiogelwch a thraffig ar yr M4, gwyddom fod y rhan honno o'r M4 wedi ei hadeiladu i safon llawer is na fyddai wedi bod yn wir pe byddai wedi ei hadeiladu y dyddiau hyn. Roedd yn rhan o'r A48 yn wreiddiol, wrth gwrs, yn hytrach na'r M4, a dyna pam mae problem gyda'r gyffordd honno. Ceir ffactorau eraill hefyd, fel nifer yr ymwelwyr a thraffig lleol, a byddwn yn cymryd yr holl faterion i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad terfynol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Maes Awyr Caerdydd

Cardiff Airport

14:02

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau y mae Maes Awyr Caerdydd yn eu darparu? OAQ(4)1571(FM)

9. Will the First Minister provide an update on the services provided by Cardiff Airport? OAQ(4)1571(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. We have seen very good growth in the airport, with a 9% increase in the period up to February 2014. We expect to see more passengers coming through the airport in the future. It vindicates the decision to make sure that we secure the future of our national airport.

Gwnaf. Rydym wedi gweld twf da iawn yn y maes awyr, gyda chynnydd o 9% yn y cyfnod hyd at fis Chwefror 2014. Rydym yn disgwyl gweld mwy o deithwyr yn dod drwy'r maes awyr yn y dyfodol. Mae'n cyfiawnhau'r penderfyniad i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau dyfodol ein maes awyr cenedlaethol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hear, hear. Thank you for that response, First Minister. I too welcome the news of a rise in the number of passengers using the airport since its purchase by the Welsh Government last year. Of course, I remember when it was successful before, when it was run by the three Welsh counties, until the Tories, under John Redwood, forced the local authorities to sell it. First Minister, do you agree with me that it is time for the Tories to apologise for getting it wrong last time on the privatisation of the airport, and for getting it wrong this time by asking for it to be privatised? What further improvements to the airport can we expect to see over the next 12 months?

Clywch, clywch. Diolch i chi am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Rwyf innau hefyd yn croesawu'r newyddion am y cynnydd yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r maes awyr ers i Lywodraeth Cymru ei brynu y llynedd. Wrth gwrs, rwy'n cofio pan yr oedd yn llwyddiannus o'r blaen, pan yr oedd yn cael ei redeg gan y tair sir yng Nghymru, tan i'r Toriaid, dan John Redwood, orfodi awdurdodau lleol i'w werthu. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi ei bod yn bryd i'r Toriaid ymddiheuro am gael pethau'n anghywir y tro diwethaf o ran preifateiddio'r maes awyr, ac am gael pethau'n anghywir y tro hwn trwy ofyn iddo gael ei breifateiddio? Pa welliannau ychwanegol y gallwn ni ddisgwyl eu gweld i'r maes awyr dros y 12 mis nesaf?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, let us see now. February passenger numbers totalled 59,936, which is a growth of 30% on this time last year. Inclusive tour passengers are up 15% and scheduled passengers are up over 35% from February last year. Ad-hoc charter-boosted passenger numbers are up by over 156% since February 2013. Yes, we have seen the airport grow. Members who are familiar with it will see the work that is being done there now to improve the security area. We will now look at what is to be done to improve the roads. That is an example of us delivering an airport for the future, in contrast to the Tories, who were happy to see it close.

Wel, gadewch i ni weld nawr. Roedd cyfanswm o 59,936 o deithwyr ym mis Chwefror, sy'n gynydd o 30% ar yr adeg hon y llynedd. Mae teithwyr ar deithiau cynhwysol wedi cynyddu 15% a theithwyr amserlen wedi cynyddu dros 35% o fis Chwefror y llynedd. Mae nifer y teithwyr ad-hoc gyda hwb siarter wedi cynyddu dros 156% ers mis Chwefror 2013. Ydym, rydym ni wedi gweld y maes awyr yn tyfu. Bydd yr Aelodau sy'n gyfarwydd ag ef yn gweld y gwaith sy'n cael ei wneud yno nawr i wella'r ardal diogelwch. Byddwn yn edrych nawr ar yr hyn y gellir ei wneud i wella'r ffyrdd. Mae hyn yn enghraifft ohonom ni yn darparu maes awyr ar gyfer y dyfodol, yn wahanol i'r Torïaid, a oedd yn hapus i'w weld yn cau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly, we welcome the success for Cardiff Airport. We wanted to get back to the same state of 2.5 million passengers, but under private ownership. I would welcome suggestions from the First Minister about how he is going to publicise those remaining routes at Rhoose to make sure that all the people in south Wales use it and do not just go to Bristol.

Yn sicr, rydym yn croesawu llwyddiant Maes Awyr Caerdydd. Roeddem ni eisiau cael yn ôl i'r un sefyllfa o 2.5 miliwn o deithwyr, ond dan berchnogaeth breifat. Byddwn yn croesawu awgrymiadau gan y Prif Weinidog o ran sut y mae'n mynd i hysbysebu'r llwybrau hynny sy'n weddill yn y Rhôs i wneud yn siŵr bod pawb yn ne Cymru yn ei ddefnyddio yn hytrach na mynd i Fryste.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it was under private ownership that passenger levels declined to under 1 million, I have to remind the Member, when it changed ownership to its previous owners. I remember the Tories in this Chamber saying that it should be left to rot and that there should be no chance of buying it. I remember Byron Davies saying that there was a £20 million funding gap somewhere and debt. It did not exist; it was scaremongering, of course, once again. I am grateful for what the Member has said in terms of welcoming the increase in passenger traffic. It is a shame that the Tories cannot bring themselves to realise that it is because of the action taken by the Welsh Government that we have secured the future of the airport rather than seeing it decline and close, which is what they would have done if they had been in charge.

Wel, dan berchnogaeth breifat y gostyngodd lefelau teithwyr i lai nag 1 filiwn. Mae'n rhaid i mi atgoffa'r Aelod, pan newidiodd y berchnogaeth i'r perchnogion blaenoro, rwy'n cofio'r Torïaid yn y Siambr hon yn dweud y dylai gael ei adael i bydru ac na ddylai fod unrhyw siawns o'i brynu. Rwy'n cofio Byron Davies yn dweud bod bwlch cyllid o £20 miliwn yn rhywle yn ogystal â dyled. Nid oedd hyn yn bodoli; codi bwganod oedd hyn, wrth gwrs, unwaith eto. Rwy'n ddiolchgar am yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud o ran croesawu'r cynnydd i draffig teithwyr. Mae'n drueni na all y Torïaid argyhoeddi eu hunain i sylweddoli mai oherwydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yr ydym ni wedi sicrhau dyfodol y maes awyr yn hytrach na'i weld yn dirywio ac yn cau, sef yr hyn y bydden nhw wedi ei wneud pe bydden nhw wedi bod wrth y llyw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel defnyddiwr cyson o'r maes awyr, rwyf yn falch iawn o'r newyddion calonogol, er byddwn yn dweud bod ffordd bell iawn i fynd. Nid oedd un awyren yno neithiwr ar wahân i'r un roeddwn i yn ei glanio ynddi. Fodd bynnag, mae gennyf gwestiwn ynglŷn â staff. Rwy'n deall bod nifer o staff y maes awyr ar gytundebau 'zero hours'. A fedr wch gadarnhau hynny i mi, ac, os yw hynny'n wir, a fyddwch yn symud i newid hynny yn wyneb eich gwrthwynebiad chi i gytundebau o'r fath?

As a regular user of the airport, I am very pleased with the encouraging news, although I would say that there is a very long way to go. There were no planes there last night apart from the one I arrived on. However, I have a question about the staff. I understand that a number of the staff in the airport are on zero-hours contracts. Can you confirm that, and, if that is true, will you move to change that given your opposition to such contracts?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Gwnaf ystyried hynny. Wrth gwrs, bwrdd sydd yn rhedeg y maes awyr ei hun, nid y Llywodraeth yn uniongyrchol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw'r sefyllfa hanesyddol, ond gwnaf ystyried hynny ac ysgrifennu at yr Aelod.

I will consider that issue. Of course, the airport is run by a board and not the Government directly. It is not clear at present what the historic position is, but I will consider that and write to the Member.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have to say, Presiding Officer, that I do not normally comment on asides made by Members. However, when I hear Byron Davies saying that buying the airport has meant that people are dying of cancer, I think that that is a disgraceful comment and I think he should withdraw it.

Mae'n rhaid i mi ddweud, Lywydd, nad wyf yn gwneud sylwadau ar fân-sylwadau a wneir gan Aelodau. Fodd bynnag, pan rwyf yn clywed Byron Davies yn dweud bod prynu'r maes awyr wedi golygu bod pobl yn marw o ganser, rwy'n meddwl bod hwnnw'n sylw gwarthus ac rwy'n meddwl y dylai ei dynnu yn ôl.

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I did not hear that, but I would concur.

Ni chlywais i hynny, ond byddwn yn cytuno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the most important ways an airport makes money is through things like the retail, catering and parking services provided at the airport. Can you confirm that, in addition to the very welcome increase in passengers, there has been an increase in profits for the support services at the airport? Can you tell us when you expect the airport to break even again, given the vast and increasing losses the airport had been making until quite recently?

Brif Weinidog, un o'r ffyrdd mwyaf pwysig y mae maes awyr yn gwneud arian yw trwy bethau fel y gwasanaethau manwerthu, arlwyio a pharcio a ddarperir yn y maes awyr. A allwch chi gadarnhau, yn ogystal â'r cynnydd calonogol iawn i nifer y teithwyr, y bu cynnydd i elw'r gwasanaethau ategol yn y maes awyr? A allwch chi ddweud wrthym pryd yr ydych chi'n disgwyl i'r maes awyr fantoli'r gyllideb eto, o ystyried y colledion enfawr a chynnyddol yr oedd y maes awyr wedi bod yn eu dioddef tan yn weddol ddiweddar?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I will answer the question, but I regret the fact that Byron Davies has not been man enough to withdraw such a ridiculous statement. That is a matter for him and for him to explain to the public of Wales. Let me deal with the question that the Member has asked. The airport is now moving towards profitability. We are expecting to see more passengers over the course of the next year, and the figures are very, very good. The important point, of course, is to make sure that the footfall increases to improve the profitability of the retail offer there. It is encouraging to see that a shop has moved in over the course of the past few months. I would expect, as passenger footfall increases—as it has—that the airport will move to profitability, because we cannot revenue-subsidise it, that much is true, and, secondly, of course, to see more shops being profitable.

Rwyf yn fodlon ateb y cwestiwn, ond rwy'n gresynu at y ffaith nad yw Byron Davies wedi bod yn ddigon o ddyn i dynnu datganiad mor wirion yn ôl. Mater iddo ef yw hynny ac mae'n fater iddo ei esbonio i'r cyhoedd yng Nghymru. Gadewch i mi ymdrin â'r cwestiwn a ofynnwyd gan yr Aelod. Mae'r maes awyr yn symud tuag at broffidoldeb erbyn hyn. Rydym yn disgwyl gweld mwy o deithwyr yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae'r ffigurau yn dda iawn, iawn. Y pwynt pwysig, wrth gwrs, yw sicrhau bod nifer yr ymwelwyr yn cynyddu i wella proffidoldeb y cynnig manwerthu a geir yno. Mae'n galonogol gweld bod siop wedi symud i mewn yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Byddwn yn disgwyl, wrth i nifer y teithwyr gynyddu—fel y mae wedi ei wneud—y bydd y maes awyr yn symud i broffidoldeb, oherwydd ni allwn roi cymhorthdal refeniw iddo, mae cymaint â hynny'n wir, ac, yn ail, wrth gwrs, byddwn yn disgwyl gweld mwy o siopau'n gwneud elw yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llygredd Sŵn

Noise Pollution

14:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa ystyriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i lygredd swn yn y Bil Cynllunio arfaethedig? OAQ(4)1572(FM)

10. What consideration will the Welsh Government be giving to noise pollution in the forthcoming Planning Bill? OAQ(4)1572(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can say to the Member that technical advice note 11 already provides a comprehensive framework for addressing noise as part of the planning process.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod nodyn cyngor technegol 11 eisoes yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â sŵn yn rhan o'r broses gynllunio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that, First Minister. Of course, noise from public construction and improvement work can have a major impact on the wellbeing of those living nearby, in terms of not just volume but duration, as you know from your own constituency. When contractors run behind schedule, they will seek permission from the local authority to work outside business hours in order to avoid paying a penalty for failing to finish the work on time, thereby exacerbating the effect on residents. As there are virtually no successful prosecutions for noise nuisance under existing laws, how do you think your Government can give an effective voice to residents and business owners who complain bitterly that they have no effective redress in the circumstances I described under the existing guidelines?
- Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Wrth gwrs, gall sŵn o waith adeiladu a gwella cyhoeddus gael effaith fawr ar les y rhai sy'n byw gerllaw, nid yn unig o ran uchder, ond hyd yr amser, fel y gwyddoch o'ch etholaeth eich hun. Pan na fydd contractwyr yn bodlonni eu hamserlenni, byddant yn gofyn am ganiatâd gan yr awdurdod lleol i weithio y tu allan i oriau busnes er mwyn osgoi talu cosb am fetthu â gorffen y gwaith ar amser, gan waethygu'r effaith ar drigolion. Gan na fu braidd ddim erlyniadau llwyddiannus oherwydd diflastod sŵn dan ddeddfau presennol, sut yr ydych chi'n meddwl y gall eich Llywodraeth roi llais effeithiol i drigolion a pherchnogion busnesau sy'n achwyn yn chwervw nad oes ganddynt gamau gwneud iawn effeithiol dan yr amgylchiadau a ddisgrifiais dan y canllawiau presennol?
- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- There is redress under existing law, but I share the Member's concern that the existing law may not be as effective as it might be. I have had experiences—as I am sure she will have had—of constituents who have complained about noise and monitoring is then done, but, often, it seems that that monitoring is done once the emitters of the noise have been warned. That is a situation I am sure we have all come across. Consideration may well have to be given, not via the planning Bill but via other means, to making sure that, where noise nuisance is measured, it is done in an unannounced way. I think that that is where we might need to look in future.
- Mae camau gwneud iawn ar gael dan y ddeddf bresennol, ond rwy'n rhannu pryder yr Aelod efallai nad yw'r ddeddf bresennol mor effeithiol ag y gallai fod. Rwyf wedi cael profiadau—fel rwy'n siŵr y bydd hithau wedi eu cael—o etholwyr sydd wedi achwyn am sŵn ac yna bod gwaith monitro'n cael ei wneud, ond, yn aml, mae'n ymddangos bod y gwaith monitro hwnnw'n cael ei wneud ar ôl i'r rhai sy'n gwneud y sŵn gael eu rhybuddio. Mae honno'n sefyllfa yr wyf yn siŵr ein bod i gyd wedi ei gweld. Efallai'n wir y bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth, nid drwy'r Bil cynllunio, ond trwy ddulliau eraill, i sicrhau, lle caiff niwsans sŵn ei fesur, ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd ddirybudd. Rwy'n credu mai dyna lle y dylai fod angen i ni edrych arno yn y dyfodol.
- 14:09 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy uchelgais ynglŷn â'r Bil cynllunio hwn, sef y bydd yn wirioneddol yn gyfle i ryddhau busnesau a thrigolion Cymru o ormes cynllunio gorhaearnnaidd a byr dymor sydd wedi effeithio gymaint arnom dros y blynyddoedd? Felly, a yw'r Prif Weinidog yn sicr y bydd y Bil yn ymddangos ym mis Gorffennaf, fel sydd wedi'i addo, ac y bydd y Biliau amgylcheddol sylweddol hyn yn cael digon o gyfle i'w trafod yn llawn gan bobl Cymru, fel ein bod, wrth ddeddfu o'r newydd yn y meysydd hyn, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol?
- Does the First Minister share my ambition for this planning Bill, namely that it will truly provide an opportunity to release businesses and the people of Wales from the overly stern and short-termist plans that have affected us over the years? Is the First Minister certain that the Bill will appear in July, as has been pledged, and that there will be enough opportunity for the people of Wales to discuss these significant environmental Bills so that, as we legislate anew in these areas, we can make a real difference?
- 14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hynny'n bwysig dros ben, wrth gwrs, er mwyn sicrhau bod unrhyw Ffiliau yn effeithiol yn y dyfodol. Rwy'n hyderus y bydd digon o drafod yn y lle hwn ac, wrth gwrs, gyda'r cyhoedd yn ehangach.
- That is exceptionally important, of course, in order to ensure that any Bills are effective in the future. I am confident that there will be sufficient discussion in this place and, of course, with the public at large.
- Safonau Iaith Gymraeg** **Welsh Language Standards**
- 14:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynglŷn â'r safonau iaith Gymraeg arfaethedig?*
OAQ(4)1584(FM)
- 11. What discussions has the First Minister had regarding the proposed Welsh language standards?*
OAQ(4)1584(FM)

- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Cafodd y safonau drafft eu cyhoeddi ar 6 Ionawr. Eglurais ar y pryd yn fy natganiad ysgrifenedig fy mod wedi cytuno â Chomisiynydd y Gymraeg na fyddaf yn gwneud unrhyw sylwadau am y safonau yn ystod yr ymchwiliad safonau, a bydd yr ymchwiliad yn dod i ben ar 18 Ebrill.
The draft standards were published on 6 January. I explained at the time in my written statement that I had agreed with the Welsh Language Commissioner that I would refrain from making any comments regarding the standards during the investigation period, and the investigation closes on 18 April.
- 14:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Rwy'n sylwi, wrth graffu ar yr ymgynghoriad hwn, bod gwefan y Llywodraeth yn cyfeirio at wefan y comisiynydd a bod gwefan y comisiynydd yn cyfeirio yn ôl at wefan y Llywodraeth. Felly, a fedrwyd chi gadarnhau, o ran y broses, eich bod yn hapus bod y cyhoedd yn cael dweud ei ddweud yn y broses hon? A ydych chi'n cytuno â Phlaid Cymru na ddylai safonau newydd, beth bynnag ydynt, ganiatáu i ni syrthio o dan y lefel sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd o dan y cynlluniau iaith presennol?
I note, in scrutinising this consultation, that the Government website refers to the commissioner's site and the commissioner's site refers back to the Government's website. So, can you confirm, in terms of the process, that you are content that the public can have its say in this process? Do you then agree with Plaid Cymru that the new standards, whatever they may be, should not allow us to fall below the standards currently provided for under the current language schemes?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Nid wyf mo'yn gwneud unrhyw sylwadau ar hyn o bryd ar y safonau eu hunain, ac mae'n rhaid imi gadw at hynny, beth bynnag yw'r farn sydd gennyf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hoffwn ddweud yn gyhoeddus ei fod yn bwysig dros ben bod pobl yn rhoi barn ar hwn, ac mae'r comisiynydd, fel rhywun sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, yn ystyried hwn ar hyn o bryd.
I do not wish to make any comment on the standards themselves at present, and I have to keep to that, whatever my view is at present. However, I would like to say publicly that it is very important that the public gives its views on this, and the commissioner, as someone independent of Government, is considering this at present.
- 14:11 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, mae'n hynod o bwysig bod safonau'r iaith Gymraeg yn briodol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn hyrwyddo'r iaith gymaint ag sy'n bosibl. Byddwch chi'n ymwybodol ein bod ni, ar yr ochr hon o'r Siambr, wedi cynnig creu nod siarter i fusnesau yng Nghymru i gydnabod gwasanaethau cyfrwng Gymraeg o safon uchel, yn enwedig yn y gweithle. Pa ystyriaeth a ydych chi wedi ei rhoi i hyn?
First Minister, it is exceptionally important that these language standards are appropriate. It is also important that we promote the language as much as possible. You will be aware that we, on this side of the Chamber, have proposed creating a charter mark for Welsh business to recognise high-quality language services, particularly in the workplace. What consideration have you given to this?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rydym yn ystyried y gweithle ar hyn o bryd, achos rydym yn deall yr her sydd ynglŷn â defnyddio'r iaith y tu fas i'r ysgol i'r rheiny nad oes ganddynt unrhyw brofiad o'r iaith y tu fas i'r ysgol. Wrth gwrs, fel rwyf wedi dweud sawl gwaith mewn datganiadau yn y Siambr hon, rydym yn ystyried ffyrdd i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hybu yn y gweithle.
We are considering the workplace at present, because we understand the challenge that exists in relation to using the language outside of school for those who have no experience of the Welsh language outwith the school. Of course, as I have said previously in statements in the Chamber, we are considering ways to ensure that the Welsh language is promoted in the workplace.

Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ddweud fy mod wedi cael fy nhrwblu'n fawr iawn dros y dyddiau diwethaf gan rai o'r erthyglau sydd wedi'u hysgrifennu ym mhapurau Llundain sydd yn rhoi rhyw fath o farn taw'r iaith Gymraeg yw problem Cymru, a bod problemau yng Nghymru o achos y ffaith bod gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg. Rwy'n gobeithio bydd yr Aelod yn cytuno â'm marn i fod hynny'n rhywbeth sy'n hollol anghywir. Nid yw'r ffaith bod gennym yr iaith Gymraeg yn ein dal ni yn ôl. Nid 1847 yw'r flwyddyn; mae'r iaith Gymraeg yn rhywbeth y gallwn i gyd ei ddathlu a hefyd ei gefnogi.
However, I have to say that I have been very much troubled over recent days by some of the articles that have been written in London newspapers that give the impression that the Welsh language is the problem in Wales, and that there are problems in Wales because there is excessive emphasis on the Welsh language. I hope that the Member will join me in my view that that is completely wrong. The fact that we have the Welsh language does not hold us back. The year is not 1847; the Welsh language is something that we can all celebrate and support.

Gofal Iechyd Parhaus y GIG

NHS Continuing Healthcare

- 14:12 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG? OAQ(4)1581(FM)
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. Our policy was set out in the 2010 framework for the implementation of continuing NHS healthcare in Wales. That framework has been revised. The revised framework has been subject to a public consultation exercise and it will be published in June.
- 14:13 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for your answer, First Minister. Two constituents of mine recently came to see me about the future of their direct payment provision now that one of them is in receipt of a package of continuing healthcare. The First Minister will be aware of the nuances of this issue, which has, in effect, disempowered them, because they have lost the locus of control over the services and service providers that tailored to their personal circumstances. I did say to them that I would raise this question on their behalf with you. However, given that the NHS in England has introduced a personal health budget for patients that may include direct payments for some types of healthcare, are there any plans for the Welsh Government to pilot something similar in Wales?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
No, this is not something that we are considering at this moment in time, but I would remind the Member that, in Wales, there is a maximum charge for social care—£50 a week—and in England, there is not, which is why some people are paying up to £300 a week there.
- 14:14 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Brif Weinidog, mae gan rai unigolion, a rhai yn fy etholaeth i rwy'n gallu meddwl amdanynt, ddiddordeb mewn cael taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus, yn ogystal â gofal cymdeithasol. Felly, mae'n fy siomi i'ch clywed chi'n dweud y prynhawn yma nad oes gennych ddiddordeb mewn edrych ar hyn fel polisi i'r dyfodol. Byddwn i'n gobeithio y gwnewch chi ailystyried a rhoi'r hawl i rai byrddau iechyd, mewn amgylchiadau arbennig iawn, i fedru darparu cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus yn ogystal â gofal cymdeithasol.
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
A gaf i ddweud wrth yr Aelod bydd y fframwaith a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin yn egluro'r sefyllfa ynglŷn â'r defnydd o daliadau uniongyrchol? Rwy'n gobeithio, o achos hynny, bydd y sefyllfa'n fwy clir i'ch etholwyr chi.
12. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on NHS Continuing Healthcare? OAQ(4)1581(FM)
- Gwnaf. Nodwyd ein polisi yn fframwaith 2010 ar gyfer gweithredu gofal iechyd parhaus y GIG yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwnnw wedi ei ddiwygio. Mae'r fframwaith diwygiedig wedi bod yn destun ymarfer ymgynghori cyhoeddus a bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.
- Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Yn ddiweddar, daeth dau o'm hetholwyr i fy ngweld am ddyfodol eu darpariaeth taliad uniongyrchol gan fod un ohonynt yn derbyn pecyn gofal iechyd parhaus erbyn hyn. Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol o effeithiau'r mater hwn, sydd wedi, eu dadrymuso mewn gwirionedd, gan eu bod wedi colli'r hawl o reolaeth dros y gwasanaethau a darparwyd gwasanaethau a oedd yn teilwra i'w hamgylchiadau personol. Dywedais wrthynt y byddwn yn codi'r cwestiwn hwn ar eu rhan gyda chi. Fodd bynnag, o gofio bod y GIG yn Lloegr wedi cyflwyno cyllideb iechyd personol ar gyfer cleifion a allai gynnwys taliadau uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o ofal iechyd, a oes unrhyw gynlluniau i Lywodraeth Cymru arbrofi â rhywbeth tebyg yng Nghymru?
- Nac oes, nid yw hyn yn rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried ar hyn o bryd, ond byddwn yn atgoffa'r Aelod bod uchafswm tâl ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru—£50 yr wythnos—ac yn Lloegr, nid oes uchafswm, a dyna pam mae rhai pobl yn talu hyd at £300 yr wythnos yno.
- First Minister, some individuals, and some in my constituency that I can think of, are interested in having direct payments for continuing healthcare, as well as social care. So, I am disappointed to hear you say this afternoon that you have no interest in looking at this as a policy area for the future. I would hope that you would reconsider and give some health boards, in very specific circumstances, the ability to provide funding for continuing healthcare, as well as social care.
- May I say to the Member that the framework that will be published in June will explain the situation regarding the use of direct payments? I hope that, as a result, the situation will be clearer for your constituents.

- 14:15 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Hopefully, what you publish in June will be a decision support tool, similar to what they have had in England for a number of years, to ensure that there is consistency of approach across Wales. Will your tool also ensure that cognitive impairment as a result of dementia will be adequately reflected and, therefore, people who suffer from forms of dementia will qualify for continuing healthcare in a way that they have not in the past, but, had they lived in England, they would have qualified?
- Rwy'n gobeithio mai'r hyn y byddwch yn ei gyhoeddi ym mis Mehefin fydd offeryn cynorthwyo penderfyniadau yn debyg i'r hyn y bu ganddynt yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd, er mwyn sicrhau y ceir ymagwedd gyson ledled Cymru. A fydd eich offeryn hefyd yn sicrhau bod nam gwybyddol o ganlyniad i ddementia yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol ac, felly, y bydd pobl sy'n dioddef o fathau o ddementia yn gymwys i dderbyn gofal iechyd parhaus mewn ffordd nad ydynt wedi bod yn y gorffennol, ond, pe byddent yn byw yn Lloegr, y byddent wedi bod yn gymwys i'w dderbyn?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Of course, we can compare all afternoon. My point would be that, in England, people have to pay an enormous amount of money for their care in a way that they do not in Wales. Dementia, nevertheless, is a serious issue; we know that it will be a growing issue in the future. The Member is correct. I do not want to prejudge what the framework will say in June, I simply ask Members to consider the framework when it is published and then Members will have questions, I have no doubt, at that time.
- Wrth gwrs, gallwn gymharu drwy'r prynhawn. Fy mhwynt i fyddai, yn Lloegr, mae'n rhaid i bobl dalu swm enfawr o arian am eu gofal mewn ffordd nad oes rhaid iddynt yng Nghymru. Mae dementia, serch hynny, yn fater difrifol; rydym yn gwybod y bydd yn broblem gynyddol yn y dyfodol. Mae'r Aelod yn iawn. Nid wyf eisiau rhagfarnu'r hyn fydd y fframwaith yn ei ddweud ym mis Mehefin, y cwbl rwy'n ei wneud yw gofyn i'r Aelodau ystyried y fframwaith pan gaiff ei gyhoeddi, ac yna bydd gan yr Aelodau gwestiynau, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, ar yr adeg honno.
- Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU** **UK Government's 2014 Budget Statement**
- 14:16 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 13. Beth yw goblygiadau Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)1579(FM)*
- 13. What are the implications of the UK Government's 2014 Budget Statement for Wales? OAQ(4)1579(FM)*
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Further cuts to the Welsh budget.
- Toriadau pellach i gyllideb Cymru.
- 14:16 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a short but sweet answer. Thank you very much indeed. Among other things, the Chancellor announced housing policies that will deliver more than 200,000 new homes. Of what, if any, additional resources is the First Minister aware will come to Wales, either directly or as financial transaction funding, and will that be committed to housing in Wales?
- Dyna ateb cryno ond melys. Diolch yn fawr iawn yn wir. Ymhlith pethau eraill, cyhoeddodd y Canghellor bolisiau tai a fydd yn darparu mwy na 200,000 o gartrefi newydd. Pa adnoddau ychwanegol, os oes rhai o gwbl, y mae'r Prif Weinidog yn ymwybodol y byddant yn dod i Gymru, naill ai'n uniongyrchol neu fel cyllid trafodion ariannol, ac a fydd y rheini'n cael eu hymrwymo i dai yng Nghymru?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The total consequential, we believe, will be around £36 million. A decision will need to be taken in terms of how that money is spent, but that has to be balanced, of course, against the 7.5% cut in revenue funding that we will have received over a three-year period. So, the £36 million is welcome, but, nevertheless, it goes nowhere near compensating for the loss of funding that the people of Wales have received.
- Rydym yn credu mai tua £36 miliwn yw cyfanswm y swm canlyniadol. Bydd angen gwneud penderfyniad o ran sut y caiff yr arian hwnnw ei wario, ond mae'n rhaid cydbwysu hynny, wrth gwrs, yn erbyn y toriad o 7.5% i gyllid refeniw y byddwn wedi ei dderbyn dros gyfnod o dair blynedd. Felly, croesewir y £36 miliwn, ond, serch hynny, nid yw'n agos at fod yn ddigon i wneud iawn am yr arian y mae pobl Cymru wedi ei gollu.

Seilwaith Twristiaeth

Tourism Infrastructure

14:16	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p><i>14. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r seilwaith twristiaeth yn ne Cymru? OAQ(4)1573(FM)</i></p>	<p><i>14. Will the First Minister outline the Welsh Government's plans for developing tourism infrastructure in south Wales? OAQ(4)1573(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, one such example of how we look to encourage and support tourism is through the tourism investment support scheme.</p>	<p>Gwnaf, un enghraifft o'r fath o ran sut yr ydym ni'n ceisio annog a chefnogi twristiaeth yw drwy'r cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, First Minister. As you will know, the application for the proposed tidal lagoons sited in Swansea bay has been accepted by the Planning Inspectorate, so it looks as if it will be built. Once built, this significant piece of infrastructure will be an enormous tourism draw and will contribute to our low-carbon energy production as well. First Minister, will you consider including it as part of our tourism strategy as well as part of our low-carbon energy strategy for the future?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae'r cais am y morlynnoedd llanw arfaethedig i'w lleoli ym mae Abertawe wedi ei dderbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio, felly mae'n edrych fel y byddant yn cael eu hadeiladu. Ar ôl eu hadeiladu, bydd y seilwaith sylweddol hwn yn atyniad mawr i dwristiaid a bydd yn cyfrannu at ein cynhyrchiant ynni carbon isel hefyd. Brif Weinidog, a wnewch chi ystyried ei gynnwys yn rhan o'n strategaeth dwristiaeth yn ogystal ag yn rhan o'n strategaeth ynni carbon isel yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is an interesting suggestion that the Member makes. We will have to wait to see when and if it is built and then decide how it might be used for tourism and to benefit the local economy.</p>	<p>Mae'n awgrym diddorol y mae'r Aelod yn ei wneud. Bydd yn rhaid i ni aros i weld pryd ac os y cânt eu hadeiladu ac yna penderfynu sut y gellid eu defnyddio ar gyfer twristiaeth ac i fod o fudd i'r economi leol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Yr Undeb Ewropeaidd		The European Union	
14:17	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p><i>15. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Islwyn yn elwa ar aelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1574(FM)</i></p>	<p><i>15. Will the First Minister make a statement on how Islwyn benefits from continued membership of the European Union? OAQ(4)1574(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The EU benefits Wales and Islwyn in many ways through structural funds and the common agricultural policy programme. For example, EU projects in Caerphilly, which, as a county, includes the Member's constituency, has assisted almost 42,000 individuals and, last year, over 2,500 people were employed in the local authority area by 35 companies from across the EU.</p>	<p>Mae'r UE o fudd i Gymru ac Islwyn mewn sawl ffordd trwy gronfeydd strwythurol a'r rhaglen polisi amaethyddol cyffredin. Er enghraifft, mae prosiectau'r UE yng Nghaerffili, sydd, fel sir, yn cynnwys etholaeth yr Aelod, wedi cynorthwyo bron i 42,000 o unigolion ac, y llynedd, cyflogwyd dros 2,500 o bobl yn ardal yr awdurdod lleol gan 35 o gwmnïau o bob rhan o'r UE.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:18	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. First Minister, you can see the benefits of European regeneration across Islwyn. Do you agree that those who want to use these forthcoming elections to call for us to leave are putting not just this but thousands of jobs at risk?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, gallwch weld manteision adfywio Ewropeaidd ar draws Islwyn. A ydych chi'n cytuno bod y rhai sydd eisiau defnyddio'r etholiadau hyn sydd ar fin cael eu cynnal i alw arnom i adael, yn rhoi nid yn unig hyn, ond miloedd o swyddi yn y fantol hefyd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes. Leaving the EU would jeopardise some 150,000 jobs. It would end farming in Wales, bluntly, because, without the subsidies that farming receives, most farms are non-viable. It would also cut us off from one of our most important markets. Why change what we know works? Why change a system that has provided so many thousands of jobs to Wales and why cut ourselves off to become a little island or an island and a bit? I think that that is the wrong approach for Wales, the wrong approach for Britain and the wrong approach for Europe.
- Ydw. Byddai gadael yr UE yn rhoi tua 150,000 o swyddi mewn perygl. Byddai'n ddiwedd ar ffermio yng Nghymru, yn blwmp ac yn blaen, oherwydd, heb y cymorthdaliadau y mae byd ffermio yn eu derbyn, nid yw'r rhan fwyaf o ffermydd yn hyfyw. Byddai hefyd yn ein gwahanu oddi wrth un o'n marchnadoedd pwysicaf. Pam newid yr hyn yr ydym ni'n gwybod ei fod yn gweithio? Pam newid system sydd wedi rhoi cymaint o filoedd o swyddi i Gymru a pham torri ein hunain i fwrdd i fod yn ynys fach neu'n ynys ac ychydig yn ychwanegol? Rwy'n credu bod hyn yn cynrychioli'r ymagwedd anghywir i Gymru, yr ymagwedd anghywir i Brydain a'r ymagwedd anghywir i Ewrop.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch, Brif Weinidog. Thank you, First Minister.
- 14:19 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Business Statement and Announcement
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I call on the Minister, Lesley Griffiths. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.
- Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business
 Thank you, Presiding Officer. I have one change to report to this week's business. No questions have been tabled for oral answer by the Assembly Commission. Timings for tomorrow have, therefore, been adjusted accordingly. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.
- Diolch i chi, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau i'w hateb ar lafar gan Gomisiwn y Cynulliad. Addaswyd yr amseroedd ar gyfer yfory yn unol â hynny felly. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 14:19 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Leader of the house, is it possible to have two statements? First, I reiterate my request last week for a statement from the Government on rail electrification. The First Minister decided not to answer many of the questions this afternoon in First Minister's questions. Why is it not the case then that the Government will bring forward a statement, laying its case out here so that it can be questioned on that statement? I offered that last week, the Government turned that down. Will you today agree to bring forward an oral statement so that Members can question the Ministers here, in the Chamber?
- Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad? Yn gyntaf, hoffwn ailadrodd fy nghais yr wythnos diwethaf am ddatganiad gan y Llywodraeth ar drydaneiddio rheilffyrdd. Penderfynodd y Prif Weinidog beidio ag ateb llawer o'r cwestiynau y prynhawn yma yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Pam felly nad yw'r Llywodraeth yn cyflwyno datganiad, yn cyflwyno ei achos yma fel y gellir ei holi am y datganiad hwnnw? Cynigiais hynny yr wythnos diwethaf, ond gwrthodwyd hynny gan y Llywodraeth. A wnewch chi gytuno heddiw i gyflwyno datganiad llafar fel y gall yr Aelodau holi'r Gweinidogion yma, yn y Siambr?
- Secondly, is it possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services in respect of the survey that the Welsh Government is undertaking into staff, associated specialists and speciality doctors in Wales over bullying? There was an article in a British Medical Association journal highlighting the very unfortunate trend and culture that doctors have identified. I understand that the Welsh Government is undertaking a survey of the responses. Is it possible, therefore, for the Minister to respond when he has all of the information to hand so that we can see what the evidence of that culture is within the Welsh NHS? Is it possible for that survey to be extended into general practice? At the moment, as I understand it, it has only been looked at in the acute sector.
- Yn ail, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr arolwg y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal o aelodau staff, arbenigwyr cysylltiedig a meddygon arbenigol yng Nghymru o ran bwlio? Roedd erthygl yng nghyfnodolyn Cymdeithas Feddygol Prydain yn tynnu sylw at y duedd a'r diwylliant anffodus iawn y mae meddygon wedi eu nodi. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg o'r ymatebion. A yw'n bosibl, felly, i'r Gweinidog ymateb pan fydd yr holl wybodaeth ganddo yn ei law fel y gallwn weld beth yw'r dystiolaeth o'r diwylliant hwnnw o fewn y GIG yng Nghymru? A yw'n bosibl i'r arolwg hwnnw gael ei ymestyn i feddygon teulu? Ar hyn o bryd, o'r hyn yr wyf yn ei ddeall, ystyriwyd hyn yn y sector aciwt yn unig.

- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for those two requests. In relation to rail electrification, you will have heard the First Minister answer questions last week, and again today. No deal was made. I think that the First Minister has been very clear about the position. You will have heard what the Prime Minister said, and you will have heard what the First Minister is saying.
- In relation to the survey that you referred to, I am sure that once the Minister for Health and Social Services has the opportunity to have a look at the responses and undertake an analysis, he will report if he feels that that is the most appropriate way forward.
- Diolch i chi am y ddau gais. O ran trydaneiddio rheilffyrdd, byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau yr wythnos diwethaf, ac unwaith eto heddiw. Ni wnaed unrhyw gytundeb. Rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi bod yn eglur iawn am y sefyllfa. Byddwch wedi clywed yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU, a byddwch wedi clywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog yma yn ei ddweud.
- O ran yr arolwg y cyfeiriasoch ato, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd, os bydd yn teimlo, ar ôl iddo gael cyfle i edrych ar yr ymatebion a chynnal dadansoddiad, mai dyna'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.
- 14:21 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Could the Minister for business arrange a debate on high-level science in Wales, particularly highlighting the pivotal role played by Cardiff University, along with Harvard and Stanford and other US universities, in confirming the cosmic inflation theory about the origin of the universe—what happened in one trillionth of a second after the big bang. Does she not agree that this puts Wales even more on the scientific map, and that this is a huge success for Wales?
- A allai'r Gweinidog busnes drefnu dadl ar wyddoniaeth lefel uchel yng Nghymru, gan amlygu'n benodol y swyddogaeth ganolog a gyflawnir gan Brifysgol Caerdydd, ynghyd â Harvard a Stanford a phrifysgolion eraill yn yr Unol Daleithiau, o ran cadarnhau'r theori chwyddiant cosmig am darddiad y bydysawd—yr hyn a ddigwyddodd un triliynfed o eiliad ar ôl y glec fawr. Onid yw hi'n cytuno bod hyn yn rhoi Cymru fwy fyth ar y map gwyddonol, a bod hyn yn llwyddiant mawr i Gymru?
- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Yes. It certainly is. The Minister for Economy, Science and Transport will be updating the Assembly, in due course, on the science strategy.
- Ydw. Mae'n hynny'n sicr. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn diweddarau'r Cynulliad, maes o law, ar y strategaeth wyddoniaeth.
- 14:21 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- On electrification in south Wales and the Valleys, again, in addition to the request for a statement, could I ask the Government to come forward with an indication of when we can expect the current dispute between the Welsh and UK Governments to be resolved? I think that, earlier, we heard the First Minister again relying largely on what had been said in the press about the UK Government's promises or not to fund electrification. I am more interested in what was going to seal the deal. We already know, from past experience, that promises from the Conservative-Liberal Democrat UK Government tend to come with strings attached. In that context, I would have thought that the Welsh Government would have wanted to see what had been done and what had been written in black and white.
- O ran trydaneiddio yn ne Cymru a'r Cymoedd, unwaith eto, yn ychwanegol at y cais am ddatganiad, a gaf i ofyn i'r Llywodraeth nodi pryd y gallwn ddisgwyl gweld yr anghydfod presennol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael ei ddatrys? Yn gynharach, rwy'n credu i ni glywed eto y Prif Weinidog yn dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn a ddywedwyd yn y wasg am addewidion Llywodraeth y DU i ariannu neu beidio ag ariannu trydaneiddio. Mae gen i fwy o ddiddordeb yn yr hyn a oedd yn mynd i selio'r fargen. Rydym ni eisoes yn gwybod, o brofiad yn y gorffennol, bod addewidion gan Lywodraeth Geidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol y DU yn tueddu i ddod gydag amodau. Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn wedi meddwl y byddai Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i weld yr hyn a oedd wedi ei wneud a'r hyn a oedd wedi ei ysgrifennu mewn du a gwyn.
- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I do not agree with your comments around the media. I think that the First Minister has been very clear that there has never been an agreement. I am sure that officials are having ongoing discussions. [Interruption.]
- Nid wyf yn cytuno â'ch sylwadau o ran y cyfryngau. Rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi bod yn eglur iawn na fu cytundeb erioed. Rwy'n siŵr bod swyddogion yn cael trafodaethau parhaus. [Torri ar draws.]
- 14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I am sure that that was a very interesting answer, but I could not hear it, Minister. There was rather a lot of noise in the Chamber. I call on Eluned Parrott.
- Rwy'n siŵr bod hwnna'n ateb diddorol iawn, ond nid oeddwn yn gallu ei glywed, Weinidog. Roedd cryn dipyn o sŵn yn y Siambr. Galwaf ar Eluned Parrott.

14:23

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I read about an interesting new programme that was apparently launched by the Minister for tackling poverty yesterday—the Lift scheme, which I understand is a scheme designed to help people who are long-term unemployed. I was wondering whether the Minister might like to bring a statement to the Chamber to announce it, so that we can discuss it and understand the implications of it in this place, before we see it in the press, perhaps.

Darllenais am raglen newydd ddi-ddorol a lanswyd, mae'n debyg, gan y Gweinidog trechu tlodi ddoe—y cynllun Liff, yr wyf yn deall sy'n gynllun a gynlluniwyd i helpu pobl sy'n ddi-waith am gyfnod hir. Roeddwn i'n meddwl tybed a hoffai'r Gweinidog gyflwyno datganiad i'r Siambur i gyhoeddi hyn, fel y gallwn ei drafod a deall ei oblygiadau yn y lle hwn, cyn i ni ei weld yn y wasg, efallai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was the Deputy Minister for Tackling Poverty that launched that scheme, and he is happy to issue a written statement to Members.

Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi a lansiodd y cynllun hwnnw, ac mae'n hapus i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following the great strides forward that have been made recently in terms of supporting young people in foster care, could I call for a statement on the future of support for young people in residential care, so that we can ensure that they are fully equipped to enter adulthood and that they are able to fulfil and achieve their potential?

Yn dilyn y camau mawr ymlaen a wnaed yn ddiweddar o ran cynorthwyo pobl ifanc mewn gofal maeth, a gaf i alw am ddatganiad ar ddyfodol cymorth i bobl ifanc mewn gofal preswyl, fel y gallwn sicrhau eu bod yn cael eu paratoi'n iawn i fod yn oedolion a'u bod yn gallu gwireddu a chyflawni eu potensial?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This is obviously a very important issue. You will be aware that the Social Services and Well-being (Wales) Bill has only just been passed. It has had a period of very robust and comprehensive scrutiny. So, we are committed to supporting all looked-after children and care leavers, as they make that transition to adulthood. Obviously, you will be aware that we have included in the Bill a comprehensive range of provisions to ensure that children and young people in residential accommodation, including children's homes and secure accommodation, receive the support that they need.

Mae hwn yn amlwg yn fater pwysig iawn. Byddwch yn ymwybodol mai dim ond newydd gael ei basio mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae wedi bod trwy gyfnod o graffu cadarn a chynhwysfawr iawn. Felly, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo pob plentyn sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, wrth iddynt ddechrau eu bywydau fel oedolion. Yn amlwg, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o ddarpariaethau yn y Bil i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn llety preswyl, gan gynnwys cartrefi plant a llety diogel, yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

14:24

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish to ask for two statements, please. Minister, I understand that a piece of research commissioned by the Government on the impact of onshore wind farms on Welsh tourism is to be published this week. Given that, just last week we had the release of survey evidence from the Mountaineering Council of Scotland stating that climbers and hillwalkers are turning their backs on Scotland due to the level of turbines, could you please find time to allow the Minister to issue an oral statement on this issue so that Members have the opportunity to discuss and scrutinise the findings?

Hoffwn ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda. Weinidog, rwy'n deall bod darn o ymchwil a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ar effaith ffermydd gwynt ar y tir ar dwristiaeth yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yr wythnos hon. O gofio, dim ond yr wythnos ddiwethaf, i ni weld cyhoeddiad tystiolaeth yr arolwg gan Gyngor Mynyddau yr Alban yn nodi bod dringwyr a cherddwyr yn troi eu cefnau ar yr Alban oherwydd nifer y tyrbinau, a fydddech chi cystal â dod o hyd i amser i ganiatáu i'r Gweinidog gyflwyno datganiad llafar ar y mater hwn fel bod yr Aelodau'n cael y cyfle i drafod a chraffu ar y canfyddiadau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, could you find time for the Minister for Economy, Science and Technology to issue an oral statement on the Welsh Government's marketing plan for two mid-Wales business parks? Millions of pounds of public money have been spent on the extension of Offa's Dyke business park and the park near Abermule to help benefit the economy of mid Wales, but five years on, they still lie empty. I am aware that this is an issue raised by local County Councillor Wynne Jones as well. A statement to allow Members to scrutinise the Government's activity on this issue would be very useful. I hope that the Minister looks favourably on that request.

Yn ail, a allech chi ddod o hyd i amser i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gyflwyno datganiad llafar ar gynllun marchnata Llywodraeth Cymru ar gyfer dau barc busnes yng nghanolbarth Cymru? Gwariwyd miliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus ar ymestyn parc busnes Clawdd Offa a'r parc ger Aber-miwl i helpu i fod o fudd i economi canolbarth Cymru ond, bum mlynedd yn ddiweddarach, maen nhw'n dal i fod yn wag. Rwy'n ymwybodol bod hwn yn fater a godwyd gan y Cynghorydd Sir lleol Wynne Jones hefyd. Byddai datganiad i alluogi'r Aelodau i graffu ar weithgarwch y Llywodraeth ar y mater hwn yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych yn ffafriol ar y cais hwnnw.

14:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Once the Minister for Natural Resources and Food has had the opportunity to have a look at this research, I am sure that he will update Assembly Members. In relation to your question regarding the business parks in mid Wales, my understanding is that they are construction-ready, with all the necessary infrastructure in place. The work was completed way before the banking crisis and recession, from which the commercial property market has yet to fully recover. Individual plots continue to be marketed with on-site signage, and through the Wales property database.

Unwaith y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi cael cyfle i edrych ar y gwaith ymchwil hwn, rwy'n siŵr y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad. O ran eich cwestiwn am y parciau busnes yng nghanolbarth Cymru, fy nealltwriaeth i yw eu bod yn barod i'w hadeiladu, a bod yr holl seilwaith angenrheidiol yn ei le. Cwblhawyd y gwaith ymhell cyn yr argyfwng bancio a'r dirwasgiad, ac nid yw'r farchnad eiddo masnachol wedi adfer yn llawn yn sgil hynny hyd yn hyn. Mae lleiniau unigol yn parhau i gael eu marchnata gydag arwyddion ar y safle, a thrwy gronfa ddata eiddo Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could I ask for an update on the progress of repair projects on Wales's rail network following the winter storm and flood damage? I received multiple messages of concern from constituents who are facing severe disruption with the continued closure of Pont Briwet. Now that Gwynedd Council has scrapped plans to install a temporary bridge, and given that the severe disruption that is causing on the A496 is expected to continue until December, people are understandably frustrated, and would like to have some clarity.

Weinidog, a gaf fi ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau atgyweirio ar rwydwaith rheilffyrdd Cymru yn dilyn difrod stormydd a llifogydd y gaeaf? Derbynias negeseuon niferus o bryder gan etholwyr sy'n wynebu tarfu difrifol gan fod Pont Briwet yn dal i fod ar gau. Nawr bod Cyngor Gwynedd wedi dileu cynlluniau i godi pont dros dro, ac o ystyried y disgwylir i'r tarfu difrifol y mae hyn yn ei achosi ar yr A496 barhau tan fis Rhagfyr, mae pobl yn teimlo'n rhwystredig, a hynny'n ddealladwy, a byddent yn hoffi cael rhywfaint o eglurder.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Could I also ask you whether you will acknowledge the hard work that Network Rail staff have put in in their efforts so far to secure the reopening of the lines to date, and particularly the early opening that was announced today of the Barmouth to Harlech rail network?

A gaf i ofyn i chi hefyd a wneuch chi gydnabod y gwaith caled y mae aelodau staff Network Rail wedi ei wneud yn eu hymdrechion hyd yma i ailagor y rheilffyrdd hyd yn hyn, ac yn enwedig agoriad cynnar y rhwydwaith rheilffyrdd rhwng Abermo a Harlech a gyhoeddwyd heddiw?

14:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am certainly very happy to put on record our thanks to Network Rail staff for their hard work in this area. The Minister for Economy, Science and Transport will write to the Member directly to give you that clarification.

Rwy'n sicr yn hapus iawn i gofnodi ein diolch i aelodau staff Network Rail am eu gwaith caled yn yr ardal hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ysgrifennu at yr Aelod yn uniongyrchol i roi'r eglurhad hwnnw i chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Datganiad: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg—Ymateb i Adroddiadau ar y Mentrau Iaith a Chymunedau Cymraeg

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Fel y nodais yn y datganiad ar 12 Tachwedd y llynedd, cyn cyflwyno'r datganiad polisi ar y Gymraeg, ein bwriad oedd ystyried argymhellion yr holl adolygiadau a oedd wedi'u comisiynu dros y 18 mis diwethaf er mwyn i'r dystiolaeth honno lywio'r ffordd ymlaen. Mae'r dda adroddiad o dan sylw heddiw yn adolygiadau pwysig sy'n cynnig dystiolaeth allweddol i ni wrth lunio'n gweledigaeth. Byddaf yn cyflwyno datganiad polisi nes ymlaen yn y gwanwyn a fydd yn dod â'r holl ddarganfyddiadau ynghyd ac yn gosod heriau i ni fel Llywodraeth, i'r llu bartneriaid ac i unigolion. Bydd y datganiad hefyd yn gosod sail gweithredu clir dros y tair blynedd nesa. O ystyried y cyd-destun hwn, trof at yr adroddiad cyntaf o dan sylw heddiw.

Statement: Policy Statement on the Welsh Language—Response to Reports on Mentrau Iaith and Welsh Speaking Communities

As I noted in the statement made 12 November 2013, prior to presenting a policy statement on the Welsh language, our intention was to consider the recommendation of all the reviews commissioned over the previous 18 months so that the evidence could steer our way forward. The two reports in question today are important reviews that provide us with key evidence as we structure our vision. I will be presenting a policy statement later on in the spring that will bring together all of the findings, setting out the challenges for us as a Government, our numerous partners and individuals. The statement will also provide a foundation for clear implementation over the next three years. Considering this context, I will turn to the first report to be discussed today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ym mis Mawrth y llynedd comisiynwyd Prifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o waith y mentrau iaith, y cynlluniau gweithredu iaith a chynllun hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar 30 Ionawr eleni. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r tîm ymchwil am ei waith a'i hargymhellion. Diolchwn hefyd am gydweithrediad pawb a gyfrannodd wybodaeth a thystiolaeth i'r mentrau iaith ac i Mentrau Iaith Cymru am eu parodrwydd i drafod goblygiadau'r adolygiad gyda'r Llywodraeth dros yr wythnosau diwethaf. Cytunwn gyda chasgliadau'r adolygiad, ac rydym yn awyddus i fwrw ati i weithredu ar y mwyafrif helaeth o'r argymhellion cyn gynted â phosibl.

Wrth inni fwrw ati i weithredu argymhellion yr adolygiad ac addasu'r modd yr ydym yn ariannu'r mentrau i'r dyfodol, gwelwn fod cyfle dros y blynyddoedd nesaf i fentrau iaith glystyru oddi mewn i ddalgyloedd ehangach na ffiniau'r 22 awdurdod lleol presennol, lle bo hynny'n ddymunol yn lleol ac yn ymarferol bosibl. Credwn y byddai symud tuag at glystyru'r mentrau yn cynnig cyfle i godi statws a dylanwad yr arweinyddion sy'n bodoli ymhlith y mentrau, tra ar yr un pryd yn cadw a chryfhau'r elfen leol sy'n hollbwysig i fodloaeth y mentrau.

Yn y cyfamsfer, fodd bynnag, ein blaenoriaeth yw rhoi arweiniad er mwyn cefnogi'r holl fentrau i barhau i ddatblygu ac i gysoni safon gwasanaeth pob menter ar draws Cymru. Mae nifer o argymhellion yr adolygiad yn cynnig camau ymarferol er mwyn gwneud hynny drwy ein system o ariannu'r mentrau. Yn gryno, felly, cytunwn â'r angen, yn gyntaf, am gylch ehangach o ariannu, a hynny ar sail canlyniadau ieithyddol; yn ail, i wella'r modd y cynllunnir gweithgareddau ar gyfer hybu'r Gymraeg; yn drydydd, i roi eglurder ynghylch union rôl a dyletswyddau cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg; ac, yn olaf, ei bod yn fwy priodol i'r mentrau iaith ymgymryd â'r model o gynlluniau gweithredu iaith, yn hytrach na'u bod yn bodoli fel haen ar wahân.

Ar lefel genedlaethol, cytunwn â'r adolygiad fod lle i gryfhau Mentrau Iaith Cymru o safbwynt cynnig hyfforddiant a swyddogaethau datblygu proffesiynol o fewn y maes cynllunio ieithyddol. Bydd angen ystyried cwestiynau manwl ynghylch union rôl a chyfrifoldebau Mentrau Iaith Cymru, ac i bwy y dylai fod yn atebol. Mae'r mentrau iaith, Lywydd, yn arf pwysig i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu ei strategaeth iaith Gymraeg 'Iaith fyw: iaith byw', a sicrhau dyfodol disglair i'r Gymraeg trwy weld nifer a chanran uwch yn siarad a dysgu Cymraeg, i gynnig cefnogaeth a chyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r iaith, ac i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg—yn y cartref, yn y gwaith, yn y gymuned ac yn gymdeithasol.

In March of last year, Cardiff University was commissioned by the Welsh Government to carry out an independent review of the work of the mentrau iaith, the language action plans and Aman Tawe language promotion scheme. The review's report was published on 30 January this year. The Welsh Government welcomes the report and I would like to thank the research team for its work and their recommendations. I would also like to thank all of those who provided information and evidence, and to the mentrau iaith and Mentrau Iaith Cymru for their readiness to discuss the implications of the review with the Government over the last few weeks. We agree with the review's conclusions, and we are eager to proceed with implementing the majority of the recommendations as soon as possible.

As we set about implementing the report's recommendations and adapting the way that we fund the mentrau into the future, we see that there is an opportunity over coming years for the mentrau iaith to be clustered within wider catchments than the boundaries of the current 22 local authorities, where that is desirable locally, and practicable. We believe that moving towards clusters of mentrau will provide an opportunity to raise the status and influence of the leaders that exist among the mentrau, while at the same time retaining and strengthening the local element that is vital to the existence of the mentrau.

In the meantime, however, our priority is to provide leadership to support all of the mentrau to continue to develop and achieve consistency in the standard of service provided by all mentrau across Wales. A number of the review's recommendations offer practical steps to achieve this through our funding system for the mentrau. In summary, therefore, we agree with the need, first, for a longer funding cycle based on linguistic outcomes; secondly, to improve the planning of activities to promote the Welsh language; thirdly, to provide clarity with regard to the role and responsibilities of organisations funded by the Welsh Government to promote the Welsh language; and, finally, that it is more practical for the mentrau iaith to undertake the model of language action plans rather than them existing on their own.

At a national level, we agree with the review that there is scope to strengthen Mentrau Iaith Cymru in terms of offering training and professional development functions in the field of language planning. There will be a need to consider detailed questions in relation to the exact role and responsibilities of Mentrau Iaith Cymru and to whom it should be accountable. The mentrau iaith, Presiding Officer, are an important tool to assist the Welsh Government to achieve its Welsh language strategy 'A living language: a language for living' and ensure a bright future for the Welsh language by seeing a higher number and percentage of people speaking and learning Welsh, to offer support and diverse opportunities to use the language, and to promote more use of the Welsh language—at home, at work, in the community and socially.

Trof, felly, at yr adroddiad ar gymunedau Cymraeg. Yn 2012, yng nghyfarfod cyntaf cyngor partneriaeth y Gymraeg, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen cymunedau Cymraeg, dan gadeiryddiaeth Dr Rhodri Llwyd Morgan. Cyhoeddwyd adroddiad a chynllun gwaith arfaethedig y grŵp ar 4 Rhagfyr 2013. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, sy'n gwneud nifer o argymhellion pwysig. Mae negeseuon pwysig drwy'r adroddiad, ond yr un peth sy'n treiddio drwy'r holl argymhellion yw pwysigrwydd cynllunio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru, a phwysigrwydd ystyried yr iaith wrth gynllunio ar gyfer addysg, gwasanaethau, ac ati.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw yn benodol at bwysigrwydd addysg. Er mai mater, wrth gwrs, i'r awdurdodau lleol yw darparu lleoedd ysgol a pholisi iaith, mae'n ofynnol bellach i bob awdurdod addysg lunio a chyflwyno cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg, a chefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer defnydd iaith anffurfiol. Mae cynllunio systemaidd fel hyn yn dod â chaffael a defnydd iaith yn nes, er mwyn argyhoeddi plant a phobl ifanc bod y Gymraeg yn bodoli y tu hwnt i ffiniau'r ysgol.

Fel y trafodwyd ar lawr y Senedd yn ddiweddar, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cydnabod bod y dystiolaeth yn dangos bod cyswllt rhwng datblygiad economaidd a'r iaith, a bod creu swyddi da yn yr ardaloedd hyn yn ystyriaeth bwysig fel rhan o bolisi ehangach i gynnal yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi pwysigrwydd defnydd yr iaith yn economi prif drefi prifysgol y gorllewin, sef Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Byddwn yn edrych ar hyn yng nghyd-destun adroddiad y grŵp iaith-economi, a byddwn yn gwneud sylw pellach yn hwyrach yn y gwanwyn.

Fel yr ydych yn ymwybodol, Lywydd, roedd sir Gâr wedi sefydlu gweithgor trawsbleidiol er mwyn cynnig argymhellion ar sut i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y sir, trwy weithio â phartneriaid sy'n darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Rwyf yn ddiolchgar i'r gweithgor am gyhoeddi ei ymateb. Byddaf i, a phawb arall, yn edrych ar sut y bydd sir Gâr yn gweithredu'r argymhellion hyn. Efallai fod gwersi i'w dysgu o'r broses hon ar draws awdurdodau lleol. Calonogol hefyd oedd clywed bod S4C wedi penderfynu adleoli i'r gorllewin. Gobeithiaf y bydd hwn yn gyfraniad tuag at adfywiad ieithyddol yn yr ardal. Mae'n rhaid i mi ddweud i mi geisio eu perswadio i fynd i Ddyffryn Aman, ond heb lwyddiant.

I gloi, felly, mae adroddiad y mentrau yn ein hargyhoeddi bod angen parhau i gefnogi'r mentrau, a bydd rhaglen waith yn cael ei llunio i wella ac atgyfnerthu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd nesaf. Nid oes un ateb, ac mae'r adroddiadau yn amlygu'r heriau gwahanol yn yr amryw gymunedau ar draws Cymru. Un nod sydd, sef gosod y Gymraeg ar sail gadarnach i'r dyfodol. Rhaid i ni i gyd, wrth gwrs, ymrwymo i'r dasg hon.

I will now turn to the report on Welsh-speaking communities. During the first meeting of the Welsh language partnership council in 2012, a task and finish group was established to look at Welsh communities, chaired by Dr Rhodri Llwyd Morgan. The group's report and proposed action plan was published on 4 December 2013. I welcome the report, which makes many important recommendations. There are important messages throughout the report, though one thing that permeates throughout the recommendations is the importance of planning across the Welsh Government's portfolios, and the importance of considering the language while planning education, services et cetera.

The report draws particular attention to the importance of education. Although providing school places and language planning is now a matter for local authorities, each education authority is required to produce a Welsh in education strategic plan and to support schools to plan for informal use of the language. This type of systematic planning brings language acquisition and use a step closer, to convince children and young people that Welsh exists outside the school gates.

As recently discussed in the Senedd Chamber, this report also acknowledges that evidence shows that there is a link between language and economic development, and that creating employment opportunities is an important consideration as part of a wider policy to support Welsh as a community language. The report also notes the importance of the use of the language as part of university town economies in the west, including Bangor, Aberystwyth and Carmarthen. We will look at this in the context of the report from the language-economy group, and we will comment further on this later in the spring.

As you are aware, Presiding Officer, Carmarthenshire has established a cross-party working group in order to put forward recommendations on how to strengthen the position of the Welsh language in the county by working with partners providing Welsh-language and bilingual services. I am grateful to the working group for publishing its response. I, along with many others, will be examining how Carmarthenshire implements these recommendations. There may be lessons to learn from this process across local authorities. It was also encouraging to hear that S4C has decided to relocate to the south-west, and we hope that this will contribute to language revitalisation in the area. I have to say that I tried to persuade them to relocate to Amman Valley, but without success.

In closing, therefore, the mentrau report reinforces the fact that we need to continue to support the mentrau, and a work programme will be developed to improve and reinforce this service over the next three years. There is not one answer, and the reports highlight the various challenges for communities across Wales. There is one goal, which is to provide a more secure foundation for the Welsh language for the future. We must all, of course, commit to this task.

Diolch am y datganiad, Brif Weinidog. Hoffwn ddechrau gyda'ch sylw wrth gloi, sef nad oes un ateb i'r heriau i gymunedau o ran dyfodol cadarn i'r iaith Gymraeg. Gobeithiaf, felly, fod yr adroddiadau yr ydych wedi sôn amdanynt yn mynd i helpu ac y byddant yn gwneud cyfraniad diddorol i'r problemau hyn.

Mentrau do, and should have, a very important part to play in securing that future, but my own experience from visiting mentrau across Wales in the last few years has left me wondering about their own clarity about their role in fulfilling those aims and what exactly was expected of them. So, I am very pleased to see in the reports referred to in your statement a firm view that there has been a confusion about language planning. I will come back to that in a minute, because I note your comments on the recommendations and the lessons to learn.

My first question is about funding and whether you have yet come to a view on the various suggestions made at recommendation 9 of the Cardiff University report. Whichever model you may choose, how do you plan to identify the Welsh Government budget lines, which would be looked at to support a more consistent and long-term core funding for mentrau, and will it be easier to follow than it currently is in the present budget? I am also struck that both your statement and the reports refer to the need for an increased focus on the economic benefits of the Welsh language. Are you able to give us any indication of how the recommendations of these reports and the Minister for enterprise's task and finish group's report are being received by Welsh businesses at the moment? How much do they know about them?

Finally, going back to the matter of planning, this is the first time that local authorities have had to produce statutory plans on Welsh in education, so there is an element of 'we'll have to wait and see' with those as to their role in promoting the use of the Welsh language inside and outside school, although any centralised framework planning is likely to fail if the education system gets this wrong again. So, can you tell me how you see schools and colleges fitting into the more collaborative model suggested in both the report and your statement? Do you foresee Flying Start, for example, being part of those partnerships, and who do you think is likely to be the lead partner in those clusters or collaborations? Would that be local government or members of civil society? On that same issue, how do you think a national, or even regional framework strategy, with its welcome objectives of clarity of roles and clarity of expected outcomes, would not distract from the very necessary and highly localised delivery of action to promote the use of Welsh both as a community language and a language of business?

Thank you for the statement, First Minister. I would like to start with your closing remarks that there is not a single response to all the challenges facing communities in terms of placing the Welsh language on a more secure foundation? I hope, therefore, that the reports that you have mentioned will make an interesting and helpful contribution in addressing these problems.

Mae gan fentrau ran bwysig iawn i'w chwarae o ran sicrhau'r dyfodol hwnnw, a dyna fel y dylai fod, ond mae fy mhrofiad i o ymweld â mentrau ledled Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi peri i mi feddwl tybed pa mor glir oeddent hwy eu hunain am eu swyddogaeth wrth gyflawni'r amcanion hynny a'r hyn yr oedd disgwyl iddynt ei wneud yn union. Felly, rwyf yn falch iawn o weld bod yr adroddiadau y cyfeirir atynt yn eich datganiad yn mynegi barn bendant fod dryswch wedi bod ynghylch cynllunio ieithyddol. Dof yn ôl at hynny mewn munud, oherwydd nodaf eich sylwadau am yr argymhellion a'r gwersi i'w dysgu.

Mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud â chyllid ac a ydych wedi ffurfio barn eto am y gwahanol awgrymiadau a wnaethpwyd yn argymhelliad 9 adroddiad Prifysgol Caerdydd. Pa bynnag fodel a ddewiswch, sut ydych chi'n bwriadu nodi llinellau cyllideb Llywodraeth Cymru, y byddai disgwyl iddynt ategu cyllid craidd hirdymor mwy cyson ar gyfer y mentrau, ac a fydd yn haws eu dilyn nag ar hyn o bryd yn y gyllideb bresennol? Fe'm trawyd hefyd gan y ffaith bod eich datganiad a'r adroddiadau'n cyfeirio at yr angen am fwy o bwyslais ar fuddion economaidd y Gymraeg. A allwch chi roi syniad inni o sut groeso y mae argymhellion yr adroddiadau hyn ac adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog menter yn ei gael gan fusnesau Cymru ar hyn o bryd? Faint y maent yn ei wybod amdanynt?

Yn olaf, a thro'i'n ôl at gynllunio, dyma'r tro cyntaf i awdurdodau lleol orfod llunio cynlluniau statudol ar y Gymraeg mewn addysg, felly mae elfen o 'bydd yn rhaid inni aros i weld' gyda'r rheini o ran eu swyddogaeth o safbwynt hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan, er bod unrhyw waith cynllunio fframwaith canolog yn debygol o fethu os caiff y system addysg hyn yn anghywir eto. Felly, a allwch ddweud wrthyf sut y gwelwch ysgolion a cholegau'n cydblethu â'r model mwy cydweithredol a awgrymir yn yr adroddiad ac yn eich datganiad? A ydych yn rhagweld y bydd Dechrau'n Deg, er enghraifft, yn rhan o'r partneriaethau hynny, a phwy yn eich barn chi sy'n debygol o fod yn bartner arweiniol yn y clystyrau neu'r cydweithrediadau hynny? Ai llywodraeth leol ynteu aelodau o'r gymdeithas sifil? Ar yr un mater, sut ydych chi'n meddwl y gallai strategaeth fframwaith genedlaethol, neu hyd yn oed ranbarthol, a'i hamcanion calonogol o roi eglurder o ran swyddogaethau ac eglurder o ran canlyniadau disgwylidig, beidio â thynnu sylw oddi wrth weithredu lleol iawn sydd ei angen yn ddirfawr, i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac fel iaith busnes?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Roedd sawl pwynt diddorol yn y fan honno. O ran y lles economaidd, byddwn i'n dweud ei bod yn amlwg i fusnesau y bydd mwy o bobl, lle gall busnesau gynnis rhyw fath o wasanaeth dwyieithog, yn defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae lot fawr o fusnesau wedi gweld hyn fel rhywbeth sy'n berthnasol iddyn nhw. Rwyf wedi sôn yn barod am siop garpedi Viv Date ar sgwâr Pontardawe, sy'n ymfalchio yn y ffaith bod ganddi staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n wir, yn fy marn i, am sawl busnes yng Nghymru.

O ran ambell beth arall y mae'r Aelod wedi ei godi, bydd y rhain yn rhan o'r datganiad nesaf, er mwyn sicrhau ein bod ni wedi ystyried yn fanwl pa fath o wersi y gallwn ni eu dysgu o adroddiad y grŵp iaith-economi, ac, wrth gwrs, o ystyried cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg pob awdurdod lleol i sicrhau eu bod nhw wedi ystyried yr iaith Gymraeg yn fanwl fel rhan o'u cynlluniau strategol.

Mae'n bwysig dros ben inni sicrhau, o ran mentrau iaith, fod cydbwysedd. Yn gyntaf, rhaid sicrhau bod digon o gysylltiad gyda'r ardal leol, lle mae pobl yn meddwl bod unrhyw fenter iaith yn rhan o'u cymuned, ac yn ail, rhaid sicrhau bod mentrau iaith yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn drawsffiniol. Rydym yn gwybod nad yw'r iaith Gymraeg yn rhywbeth sy'n cael ei gadw y tu fewn i ffiniau un awdurdod lleol. Rydym yn gwybod bod gan rai awdurdodau lleol amrywiaeth fawr o ran iaith mewn cymunedau. Er enghraifft, yng Nghastell Nedd Port Talbot, mae cymunedau â nifer fach iawn o bobl yn siarad Cymraeg, a chymunedau eraill lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg. Felly, mae'n bwysig dros ben i sicrhau bod mentrau iaith nid yn unig yn gweithio gyda'i gilydd yn drawsffiniol, ond yn gallu gweithredu yn effeithiol oddi mewn i'w ffiniau eu hunain. Wrth gwrs, yr hyn y mae'n rhaid i ni ei ystyried yn awr yw beth yw'r cydbwysedd er mwyn sicrhau bod digon o gysylltiad lleol, ac, wrth gwrs, i sicrhau bod cyfleoedd i fentrau iaith weithio yn rhanbarthol er lles yr iaith.

There were a number of interesting points there. As regards the economic benefit, I would say that it is obvious to businesses that, where they can offer some kind of bilingual service, more people would use their services. Many businesses have seen this as something that is relevant to them. We have already mentioned Viv Date Carpets on the square in Pontardawe. The shop takes pride in the fact that it has Welsh-speaking staff. That is true, in my view, of a number of other businesses.

As regards some of the other points the Member raised, these will be covered by the next statement, in order to ensure that we have considered in detail the kinds of lessons we can learn from the report of the language-economy group, and that we consider the strategic education plans of each LEA in order to ensure that they have considered the Welsh language in detail as part of their strategic plans.

It is extremely important, when we talk about the mentrau iaith, that there is balance, in order to ensure that, first, there are sufficient links with the local communities, so that people consider that any menter iaith is part of their community, and so that mentrau iaith can work together in a cross-boundary fashion. We know that the Welsh language is not something that is retained within the boundary of one local authority. We know of some local authorities where there is great diversity of language communities. In Neath Port Talbot, for example, there are communities where very few people speak Welsh, while, in other communities, the majority of people are Welsh speaking. So, it is extremely important that mentrau iaith work not only across the boundaries, but effectively within their own boundary. Of course, what we need to consider now is how we strike the balance in order to ensure that there are sufficient local links and sufficient opportunity for mentrau iaith to work regionally for the benefit of the language.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n gefnogol iawn o'r mentrau iaith yn Abertawe. Nid yw plant ysgol blwyddyn 9, 10 ac 11 yn siarad Cymraeg yn gymdeithasol, ac mae hynny'n broblem. Mae mentrau iaith Abertawe wedi helpu i ddatrys y broblem drwy gynnis adnoddau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnaf y cwestiwn yn Saesneg.

How many clusters do you expect to be set up?

Thank you, Presiding Officer. I am very supportive of the mentrau iaith in Swansea. Year 9, 10 and 11 schoolchildren do not have an opportunity to speak Welsh socially, and that is a problem. The Swansea mentrau iaith have helped to address that problem by making Welsh-language resources available to young people. I will now ask a question in English.

Faint o glystyrau ydych chi'n disgwyl fydd yn cael eu sefydlu?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch i Mike Hedges am ei gyfraniad yn y Gymraeg; rwy'n ei longyfarch ar hynny. Mae'n anodd ateb y cwestiwn ar hyn o bryd, ynglŷn â nifer y 'clusters'—faint fydd yn cael eu clystyru, i ddefnyddio'r gair yn Gymraeg—yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ei ystyried yn fanwl wrth weithio gyda'r mentrau iaith. Mae'r Aelod wedi sôn am un o'r problemau sydd gennym, sef bod mwy a mwy o blant yn gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn yr un ffordd. Bydd hi'n her i sicrhau eu bod yn defnyddio'r iaith, yn enwedig ar ôl 11 oed, gan fod cwmp yn y nifer sy'n defnyddio'r iaith ar ôl hynny.

Dyna pam mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig, ac yn enwedig—ond nid yn unig—yr adroddiad ar gymunedau Cymraeg. Os na fydd pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg, bydd y Gymraeg yn cael ei cholli o fewn cenhedlaeth mewn unrhyw gymuned. Nid wyf yn dweud bod atebion rhwydd i hyn. Gwyddom am gymunedau yng Nghymru lle mae'r ysgolion i gyd yn rhai Cymraeg—mewn cymunedau hanesyddol Gymraeg—ond lle mae'r plant yn troi at y Saesneg am ryw reswm. Rwyf wedi gweld hynny fy hunan.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, cyn y datganiad nesaf, rwyf am eich sicrhau y byddwn yn ystyried ym mha ffyrdd y gallwn sicrhau bod mwy a mwy o bobl nid yn unig yn siarad Cymraeg, ond yn meddu ar yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

I thank Mike Hedges for his contribution in Welsh; I congratulate him on that. It is difficult to answer the question at present as regards the number of clusters—or how many will be clustered—in the future. That is something that we will need to consider in detail as we work with the mentrau iaith. The Member highlighted one of the problems that we face, which is that more and more children are able to speak Welsh but do not use the Welsh in the same way. The challenge will be to ensure that they use the language, particularly after the age of 11, when we see some kind of decline in the number using the language after that age.

This is why these reports are so important, and particularly so—but not exclusively—the report on Welsh communities. If young people do not use the Welsh language, the language will be lost within a generation in any community. I am not saying that there is an easy answer to this problem. We know of communities in Wales where all the schools are Welsh-medium schools—and these are historically Welsh-speaking communities—but where the children turn to the English language for some reason. I have seen this at first hand.

During the next few weeks, before the next statement is issued, I want to assure you that we will be considering how we can ensure that more and more people not only speak Welsh, but have the confidence to use the language.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i Mike Hedges am ei bwynt pwysig. Brif Weinidog, rhaid i mi ddweud fy mod yn hynod siomedig gyda'ch datganiad heddiw. Am ddatganiad gan y Prif Weinidog, sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg, mae'n ddatganiad annigonol a thila iawn. Dyma ddau adroddiad sydd wedi'u hen gyhoeddi. Roeddwn wedi disgwyl cyhoeddiadau am weithredu gan y Llywodraeth heddiw, ac roedd y cyrff yn disgwyl hynny. Mae gennyf wers ddaearyddol a gwyddonol i chi, Brif Weinidog: mae yn wanwyn, ac nid ydym yn aros am y gwanwyn—mae'r gwanwyn wedi cyrraedd.

Yn eich datganiad diwethaf am y Gymraeg yn y Siambr, dywedoch y dylem i gyd wneud pum peth dros y Gymraeg. Cawsoch gyfle heddiw i wneud sawl peth dros y Gymraeg: sefydlu corff cenedlaethol i gefnogi'r mentrau iaith; rhagor o gynlluniau datblygu ardal; newid y cylch cyllido o dair i bum mlynedd; cyhoeddi rhaglen hyfforddi i'r mentrau iaith, sef rhaglen ddatblygu ddaearyddol sy'n gysylltiedig â'r economi, heb ddibynnu ar S4C—sy'n ddim byd i wneud gyda chi—ond, yn hytrach, ar waith llywodraeth yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth, Bangor/Menai, ac ati; a, buddsoddi yng ngwaith y mentrau—maen nhw wedi awgrymu swm hyd at £4.8 miliwn.

I thank Mike Hedges for his important point. First Minister, I have to say that I am extremely disappointed by your statement today. As a statement from the First Minister, who is responsible for the Welsh language, it is an inadequate and very weak statement. You refer to two reports that have long since been published. We expected the Government to today announce the actions that it intends to take, as did other organisations involved. I have a geographical and scientific lesson for you, First Minister: it is spring, and we are not waiting for spring—the spring is here.

In your last statement on the Welsh language to the Chamber, you said that we should all do five things for the language. You had an opportunity today to do a number of things for the Welsh language: to establish a national body to support the mentrau iaith; more area development plans; to change the funding regime from a three-year to a five-year round; to announce a training programme for the mentrau iaith, as a geographical programme that is linked to the economy, and without being dependent on S4C—which has nothing to do with you—but rather on activity by government in Carmarthen, Aberystwyth and Bangor/Menai, and so on; and to invest in the work of the mentrau—they have suggested a figure in the region of £4.8 million.

Roedd y rhain i gyd yn argymhellion yn y ddaud adroddiad yr ydych wedi sôn amdanynt, ond nid ydych wedi dweud heddiw a ydych yn bwriadu mynd â'r un o'r rhain ymlaen ai peidio. Nid wyf yn cytuno gyda phob un o'r argymhellion, ac roeddwn yn barod i ofyn cwestiynau ynglŷn â rhai ohonynt, ond, gan nad ydych wedi gwneud penderfyniad, nid oes pwynt. Nid ydych wedi gwneud un peth dros y Gymraeg, heb sôn am y pum peth i chi addo'u gwneud.

Yn hytrach na hynny, cawsom bum datganiad llugoer ac annelwig yn eich datganiad heddiw: 'bydd angen ystyried', 'byddwn yn edrych ar hyn', 'byddwn yn gwneud sylw pellach', 'efallai bod gwersi i'w dysgu' a 'bydd rhaglen waith yn cael ei llunio'. Mae'n hen bryd i'r rhaglen honno fod yn ei lle ac yn cael ei gweithredu gan y Llywodraeth. Nid oes gennyf gwestiynau achos nid oedd datganiad.

These were all recommendations in the reports that you have mentioned, but you have not told us today whether you intend to take any of them forward. I do not agree with every one of the recommendation, and I was prepared to question some, but, because you have not made any decisions, there is no point in me asking those questions. You have not done anything for the Welsh language, never mind the five things that you pledged to do.

Rather than that, you gave us five lukewarm and cloudy statements: 'we will need to consider', 'we will look at this', 'we will make further comment', 'perhaps there are lessons to be learned' and 'an action plan will be drawn up'. That action plan from the Government is long overdue, as is its implementation. I have no questions as there was no statement.

14:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Y broblem oedd ei bod hi'n anodd, o achos adroddiad y grŵp iaith-economi, roi'r datganiad yr oeddwn am ei roi heddiw, achos bod angen ystyried cynnwys yr adroddiad hwnnw. Mae gan yr Aelod bwynt, ac rwy'n deall hynny, ynghylch dod yma a rhoi datganiad sy'n anelu at ddatganiad arall. Ond, roedd yn bwysig dod i'r Cynulliad i roi adroddiad ar beth sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Er, mae'n deg dweud bod dim byd newydd i'w ddatgan ar hyn o bryd. Ond, nid datganiad terfynol yw hwn. Roedd yn rhaid ystyried, fel y dywedais, pob adroddiad a phob peth er mwyn dod i gasgliadau yn ystod y gwanwyn—mae'n rhaid i mi ddweud hynny—a chyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Rwy'n derbyn beth ddywedodd yr Aelod. A gaf i ddweud wrtho y gwneir datganiad terfynol ynglŷn â hyn yn ystod y tymor hwn, unwaith inni edrych ar bopeth? Roeddwn i am sicrhau bod datganiad yn dod gerbron y Cynulliad heddiw, yn lle bod datganiad yn cael ei dynnu oddi ar yr agenda.

The problem was that it was difficult, because of the report of the language-economy group and the need to consider its contents, to give the statement that we had wished to give today. The Member has a point, which I understand, about coming here and making a statement that points to another statement. However, it was important to come to the Assembly to report on current activity. Nevertheless, it is fair to say that there is nothing new to inform you of at present. However, this is not a final statement. We had to consider, as I have said, every report and all aspects in order to come to conclusions during the spring—I have to make that point—and before the end of this Assembly term. I accept what the Member said. May I tell him that there will be a final statement on this issue during this term, once we have looked at everything? I wanted to ensure that a statement came before the Assembly today, rather than having to withdraw any statement from the agenda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:45

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae'ch datganiad yn gorffen drwy ddweud bod angen inni roi'r iaith Gymraeg ar sail gadarnach a hefyd bod rhaid inni gyd ymrwymo i'r dasg hon. Rwy'n meddwl ei bod yn amser inni ddechrau gweithredu yn hytrach na thrafod.

Mae pethau'n digwydd ar lawr gwlad, lle mae sefyllfa'r Gymraeg yn gwanhau. Rwyf am esbonio beth yn union yw'r sefyllfa. Rwy'n meddwl bod eich datganiad yn dweud bod symud o ran cynllun ariannu newydd o 2015 ymlaen. Mae angen inni gael trafodaeth ynglŷn â'r sail hanesyddol ar gyfer ariannu mentrau. Mae'r patrwm yng Nghymru benbaladr yn amrywiol. Er enghraifft, yn y gogledd-ddwyrain, prin iawn oedd yr arian a oedd ar gael i rai mentrau iaith gan mai nhw oedd y mentrau olaf i gael eu sefydlu. Eto, yn yr un ardal, ni roddir ceiniog gan rai cnyngorau ar gyfer gwaith y mentrau.

First Minister, your statement ends by saying that we need to put the Welsh language on more secure foundations and also that we must all commit to this task. I think that it is time for us to start taking action rather than discussing these issues.

There are things happening on the ground, where the situation of the Welsh language is growing weaker. I want to explain exactly what the situation is. I think that your statement says that there has been a shift on a new financial strategy from 2015 onwards. We need to have a discussion on the historical basis on which the mentrau iaith have been funded. The pattern across Wales is very different. For example, in north-east Wales, there was very little funding available to some of the mentrau iaith because they were the last ones to be established. Again, in the same area, not a penny is provided by certain councils for the work of the mentrau iaith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf hefyd am ddweud wrthoch chi bod penderfyniadau lleol a wneir ar hyn o bryd o fewn llywodraeth leol yn gwanhau sefyllfa'r Gymraeg. Er enghraifft, mae Wrecsam wedi tynnu'n ôl yr arian ar gyfer gweithiwr ieuencid trwy gyfrwng yn Gymraeg. Sut mae hynny'n cyd-fynd â pholisïau'r Llywodraeth, a chithau'n dweud eich bod yn awyddus i roi cyfleoedd i blant siarad Cymraeg y tu allan i ysgolion?

Roeddwn yn siomedig o ddarganfod ddoe bod dau blentyn sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at saith oed ac sy'n symud saith milltir o fewn yr un sir mewn sefyllfa lle nad oes lle iddynt o fewn ysgol Gymraeg yn y rhan honno o'r sir. Mae'r plant yn trosglwyddo i'r gyfundrefn Saesneg.

A ydych am ystyried rhannu o ran y ffigur presennol a roddir i'r mentrau iaith? Hefyd, a fydd unrhyw fath o ail-rannu yn ystyried yr arian a roddir yn uniongyrchol gan lywodraeth leol? O ran y cymunedau Cymraeg, mae perygl inni dreulio'r ddwy flynedd nesaf yn trafod a thrafod cynlluniau addysg Gymraeg, ond lle mae'r cynlluniau hynny yn annigonol o ran darpariaeth, a fyddwch chi fel Llywodraeth yn cymryd camau dros y misoedd nesaf i anfon y cynlluniau hynny'n ôl neu i fynnu bod cynllun yn cael ei roi gerbron yr awdurdod a fydd yn adlewyrchu eich gobethion?

Hefyd, o ran yr argymhelliad y dylai bod mwy o gyrff yn gweithio'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen i Lywodraeth Cymru roi cryn arweiniad yn y maes hwn. Rydych yn dweud wrthym bod uned Gymraeg y Llywodraeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, ond a fyddwch yn barod, yn ystod y drafodaeth yn y gwanwyn, i ddweud y bydd hynny'n newid o fewn cyfnod o amser? Mae pryder bod y consensws yn dechrau torri'n ddarnau. Mae'n rhaid inni edrych ar batrwm sir Gaerfyrddin, lle cynhelir trafodaethau trawsbleidiol ar beth i'w wneud. A wnech chi ystyried nid yn unig effaith datblygu economaidd yn y gorllewin, ond hefyd y plant, neu'r rhieni, yn y Cymoedd ac yn y gogledd-ddwyrain sydd yn dewis addysg Gymraeg? Nid oes cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl hynny o fewn maes gwaith.

I also want to tell you that decisions taken at a local level at present within local government are having a detrimental effect on the situation of the Welsh language. For example, Wrexham has withdrawn funding for a Welsh-medium youth worker. How does that equate to the Government's policy, where you state that you are eager to give children opportunities to use the Welsh language outside schools?

I was disappointed to find out yesterday that two children who have received their education through the medium of Welsh up to the age of seven and who are now moving seven miles within the same county are in a situation where there is no place for them in a Welsh-medium school in that part of the county. The children are transferring to the English system.

Are you going to consider a different allocation for the money currently given to the mentrau iaith? Also, will any reallocation consider the money given directly by local government? In terms of Welsh-speaking communities, we risk spending the next two years discussing time and again the Welsh in education plans, but where those plans are inadequate in terms of provision, will you as a Government take steps over the next few months to send those plans back or to insist that a plan is put to the authority that will reflect your hopes?

Also, in terms of the recommendation that more organisations should work internally through the medium of Welsh, the Welsh Government needs to take a lead in this. You are telling us that the Government's Welsh language unit works through the medium of English, but will you be willing, during the discussion in the spring, to say that that will change over a period of time? There is concern that the consensus is starting to come apart. We need to look at the pattern in Carmarthenshire, where cross-party discussions have been taking place on what to do. Will you consider not only the impact of economic development in west Wales, but also the children, or parents, in the Valleys and in north-east Wales who choose Welsh-medium education? There are no opportunities for them to use the language after that in the workplace.

14:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yn gyntaf, ynglŷn â llywodraeth leol, rhywbeth i fwrdeistref Wrecsam yw esbonio beth mae wedi ei wneud ynglŷn â'i staff. Mae'n bwysig dros ben bod pob awdurdod yng Nghymru yn gallu sicrhau bod gwasanaeth digonol ar gael i'r ardal leol. Un o argymhellion yr adroddiad yw sicrhau ein bod yn ystyried sut y gallwn gael mwy o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n rhywbeth sydd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

O ran awdurdodau lleol a'u cynlluniau, os oes unrhyw gynllun nad yw'n ddigonol, caiff y cynllun hwnnw ei anfon yn ôl i'r awdurdod lleol. Rwyf am sicrhau bod y cynlluniau sydd ganddynt yn gadarn ac nid yn rhywbeth sy'n rhyw fath o ymarfer papur. Mae'n bwysig eu bod yn gallu cael eu gweithredu yn eu hardaloedd.

First, with regard to local government, it is up to Wrexham to explain what it is doing with regard to its own staff. It is very important that all authorities in Wales can ensure that there is adequate provision for the local area. One of the report's recommendations is to ensure that we consider how we can get more activities available through the medium of Welsh. That is something that is under consideration at present.

In terms of local authorities and their plans, if any plan is inadequate, that plan will be sent back to the local authority. I want to ensure that the plans are robust and not something that is some kind of paper exercise. It is important that they can be implemented in their areas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

O ran uned Gymraeg y Llywodraeth, mae'n wir nad yw pawb sy'n gweithio yno yn gallu siarad Cymraeg. Nid wyf yn gwybod bod hynny'n beth gwael, ond rydym wastad wedi ceisio gweithio, lle mae hynny'n bosibl, drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dangos cefnogaeth tuag at yr iaith Gymraeg drwy gyflogi cymaint o siaradwyr Cymraeg, nid dim ond yn y gorllewin a'r gogledd; mae mwy a mwy o bobl wedi dod i Gaerdydd dros y blynyddoedd. Dylid cofio, tua 12 mlynedd yn ôl, mai dim ond tua 5% o staff y Llywodraeth yng Nghaerdydd a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi newid er gorau dros y blynyddoedd.

O ran gweithio gyda phleidiau eraill, rwy'n ddigon agored i hynny. Nid wyf yn dweud bod gennym ni, fel Llywodraeth, bob ateb, ac mae rhai pethau nad ydynt yn rhwydd y bydd angen ymateb iddynt ac ymdrin â nhw. Wedi dweud hynny, rydym yn ddigon parod i weithio gyda phleidiau eraill. Unwaith y byddwn wedi ystyried popeth a oedd yn berthnasol, bydd y datganiad nesaf yn gynhwysfawr.

In terms of the Government's Welsh language unit, it is true that not everyone who works there is bilingual. I do not know that that is a bad thing, but we have always tried to work, where possible, through the medium of Welsh. We have demonstrated support for the Welsh language by employing so many Welsh speakers, not only in west and north Wales; more and more people have come to Cardiff over the years. It should be remembered that, about 12 years ago, only about 5% of the Government's staff in Cardiff were able to speak Welsh. That is something that has changed for the better over the years.

In terms of working with other parties, I am quite open to that. I am not saying that we, as a Government, have all the answers, and there are some things that are not easy that will have to be dealt with. Having said that, we are quite willing to work with other parties. Once we have considered everything that was relevant, the next statement will be comprehensive.

14:51 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu datganiad y Prif Weinidog heddiw. Os oes unrhyw a ddylai wneud datganiad ar yr iaith Gymraeg, Prif Weinidog Cymru yw hwnnw. Rwy'n croesawu'r ffaith ein bod yn symud at sefyllfa lle mae dwyieithrwydd Cymru yn dod yn bwnc cyfan gwbl trawsbynciol o fewn Llywodraeth.

I welcome the First Minister's statement today. If there is anyone who should make a statement on the Welsh language, it is the First Minister of Wales. I welcome the fact that we are moving to a situation where bilingualism in Wales is becoming an entirely cross-cutting issue within Government.

Wedi dweud hynny, mae gennyf un cwestiwn arall. Roedd y Prif Weinidog yn aelod o Lywodraeth a wnaeth ddileu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chreu gwagle o ran hyrwyddo'r iaith, nid yn unig fel iaith statudol ond fel iaith gymunedol. Os bydd yn mynd yn ôl i sefydlu rhyw fath o gorff cenedlaethol ar gyfer y mentrau iaith—efallai y bydd hynny'n ddatrysiad tymor byr—onid y camgymeriad mawr oedd cael gwared ar gorff cyhoeddus a oedd o ddifrif yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol yng Nghymru? Rwy'n datgan diddordeb yn hynny.

That said, I have one further question. The First Minister was a member of the Government that abolished the Welsh Language Board and created a vacuum in terms of promoting the language, not only as a statutory language but also as a community language. If there is a return to the establishment of some sort of national body for the mentrau iaith—that may be a short-term solution—was it not a big mistake to abolish a public body that was serious about trying to promote the Welsh language as a community language in Wales? I declare an interest in that.

14:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid fi oedd y Prif Weinidog ar y pryd, ond roeddwn yn rhan o'r Llywodraeth, mae hynny'n iawn. Nid oes cynlluniau i fynd yn ôl i'r hen system. Nid oedd hynny'n rhywbeth roedd Plaid Cymru am ei weld, pan oedd Plaid Cymru mewn Llywodraeth. Wrth ddweud hynny, mae'n bwysig dros ben fod y comisiynydd yn creu system sydd yn rhoi ffydd a hyder i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, rwy'n cofio beth ddigwyddodd yn ystod y Llywodraeth honno a'r pethau a ddadleuwyd bryd hynny.

I was not First Minister at the time, but I was part of the Government, that is true. There are no plans to revert to the old system. That was not something that Plaid Cymru wanted to see, when Plaid Cymru was in Government. In saying that, it is very important that the commissioner creates a system that gives people faith and the confidence to use the language. However, I remember what happened during that Government and the arguments put forward at that time.

14:53 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Efallai y dylwn i ddweud hefyd fy mod i'n flin iawn am bethau sydd wedi diflannu—er enghraifft, wyth sir yng Nghymru. Roedd Morgannwg Ganol, i ateb Aled Roberts, yn agor un ysgol gyfun Gymraeg bob saith mlynedd, a dyna sydd ei eisiau. Rydym eisiau i'r siroedd mwy ddod i mewn, gan eu bod nhw'n gweithredu dros yr iaith. Rwy'n cofio'r Arglwydd Haycock yn dweud:

Perhaps I should also say that I am very sorry to see that certain things from the past have disappeared—for example, eight counties in Wales. Mid Glamorgan, to answer Aled Roberts, opened one Welsh-medium secondary school every seven years, and that is what we need. We need the larger counties to step in, because they take action in favour of the language. I remember Lord Haycock saying:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'trying to stop Welsh-medium education is like trying to stop a steam roller. You can move them an inch either side, but you will not stop it.'

Dyna sut roedd Morgannwg, ac yna Morgannwg Ganol, yn gweithio. Gobeithio yr awn ni yn ôl i'r dyddiau hynny.

Rwy'n falch o ddarllen y ddau adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddau adroddiad. Rwyf ond eisiau sôn am un peth, sef y prosiect a sefydlwyd yn 2011 yn ardal Aman Tawe—prosiect tair sir, dwy iaith, un bartneriaeth. Dyna lle cefais fy nghodi. Cefais fy addysg mewn un rhan, yn Ystalyfera, fy nghodi yng Ngwauncaegurwen, a mynd i weithio wedyn yn sir Gaerfyrddin, sy'n ardal arbennig cyn belled ag y mae'r Gymraeg yn y cwestiwn. Fodd bynnag, mae'r prosiect i'w weld yn gweithio'n dda gyda phrosesau â llwyddiannau ynghlwm wrthynt. Mae'n mynd i'r afael a phroblemau hyder ehangach na rhai ieithyddol yn unig yn yr ardal. Mae'r arolygiad yn nodi a phwysleisio'n glir fanteision y cynllun. Y frawddeg sy'n sefyll allan i mi yw:

'Yr hyn sy'n nodweddu dull gwaith y bartneriaeth hon yw cyd-drafod, cyd-greu a dal dyheadau'r gymuned.'

Prif rinwedd y model yw bod pob partner allweddol yn rhannu'r weledigaeth ac yn cydgyfrannu at agenda cynllun hybu'r Gymraeg Aman Tawe. Beth yw eich barn, Brif Weinidog, ynglŷn ag a ddylem gael rhywbeth tebyg mewn ardaloedd eraill? A oes unrhyw wersi y gallem eu cymryd o'r model hwn wrth ei ledaenu?

mae ceisio atal addysg cyfrwng Cymraeg fel ceisio atal rholer stêm. Gallwch ei symud fodfedd i'r naill ochr neu'r llall, ond ni allwch ei atal.

That is how Glamorgan, and then mid Glamorgan, worked. I hope that we go back to those days.

I am pleased to read the two reports and the Welsh Government's response to the two reports. I just want to mention one thing, namely the project established in 2011 in the Aman Tawe area—a three-county, two-language, one-partnership project. That is where I was raised. I received my education in one part, in Ystalyfera, was brought up in Gwauncaegurwen, and went to work afterwards in Carmarthenshire—a very special area as far as the language is concerned. However, the project appears to be working well with processes with successes attached to them. It addresses the problems of confidence that are broader than simply linguistic issues in the area. The review notes and emphasises clearly the benefits of the scheme. The sentence that stands out for me is:

'This partnership's working methods are characterised by collaboration, co-production and capturing community aspirations.'

The main virtue of the model is that all key partners share the vision and contribute jointly to the promotion of the Welsh-language plan for Aman Tawe. What is your view, First Minister, as to whether we should have something similar in other areas? Are there any lessons that we could learn from this model as we roll it out?

14:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwy'n credu bod gwersi i'w dysgu o sawl menter iaith yng Nghymru. Mae rhai efallai wedi bod yn fwy effeithiol nag eraill. Mae hynny yn mynd i ddigwydd mewn bywyd, wrth gwrs, ac mae'n bwysig dros ben bod pobl yn dysgu oddi wrth ei gilydd. O ran Menter Aman Tawe, mae mewn ardal lle mae brwydr er mwyn sicrhau bod yr iaith yn parhau. Rydym i gyd wedi gweld beth sydd wedi digwydd ar ben uchaf cwm Tawe dros y blynyddoedd ac yn awr yn nyffryn Aman ei hun. Felly, mae'n bwysig dros ben eu bod yn dysgu wrth ei gilydd.

Mae'n bwysig ein bod yn syweddoli hefyd bod Cyngor Sir Gâr yn cymryd hyn o ddifrif. Mae ardal Gwauncaegurwen yn ddiwylliannol yn rhan o sir Gâr, er, wrth gwrs, ei bod yn wleidyddol yn rhan o Gastell-nedd Port Talbot; mwy neu lai, mae mwy o gysylltiad rhwng Gwauncaegurwen a Garnant nac efallai Gwauncaegurwen a Phontardawe yn awr. Felly, mae'n bwysig dros ben bod unrhyw fath o gynllun sy'n dod o weithgor sir Gâr yn cael ei ystyried gan Gastell-nedd Port Talbot hefyd o ystyried y cymunedau sydd gan y cyngor yn ei ardal. Yr un heriau sydd yn sir Gâr ac sydd wedi bod yn yr ardal i'r dwyrain hefyd.

I believe that there are lessons to be learned from a number of the mentrau iaith in Wales. Some might have been more effective than others. That is going to happen in life, of course, and it is very important that people learn from each other. In terms of Menter Aman Tawe, it is in an area where there is a battle to ensure that the language survives. We have all seen what has happened at the upper end of the Swansea valley over the years and now in the Aman valley itself. Therefore, it is extremely important that they learn from each other.

It is important that we also realise that Carmarthenshire County Council is taking this seriously. The Gwauncaegurwen area is culturally part of Carmarthenshire, although, of course, it is politically part of Neath Port Talbot; really, there are now closer links between Gwauncaegurwen and Garnant, perhaps, than between Gwauncaegurwen and Pontardawe. Therefore, it is extremely important that any kind of scheme that comes from the Carmarthenshire working group is also considered by Neath Port Talbot, given the communities that it has in its area. The challenges are the same in Carmarthenshire as have been seen in the area to the east as well.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch, Brif Weinidog.

Thank you, First Minister.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014

Cynnig NDM5473 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

The Prevention of Social Housing Fraud (Detection of Fraud) (Wales) Regulations 2014

Motion NDM5473 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Prevention of Social Housing Fraud (Detection of Fraud) (Wales) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 7 January 2014.

14:56

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I move the motion, Presiding Officer.

Cynigiau y cynnig, Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers.

Nid oes gennyf siaradwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The motion was agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

Cynnig NDM5472 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2014.

The Council Tax Reduction Schemes (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2014

Motion NDM5472 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 March 2014.

14:57

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for making the time to scrutinise these regulations ahead of today's debate. The Council Tax Reduction Schemes (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2014 are the final set of regulations that need to be made to support the introduction of the regulations that will govern the operation of council tax reduction schemes in Wales from 1 April 2014, mainly the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013. The Council Tax Reduction Schemes (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2014 update references within the Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013 to reflect the making of the 2013 regulations. These are necessary amendments that will ensure that local authorities continue to have the legal authority to protect their reduction schemes from attempted fraud and to deter those who may be considering making a false claim. The miscellaneous regulations also make minor technical amendments to the 2013 regulations to address points raised by the Constitutional and Legislative Affairs Committee during its scrutiny of the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. These are minor technical amendments that do not affect entitlement to a council tax reduction and do not impact upon local authorities' operation of their council tax reduction schemes. I ask Members to approve these regulations today.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am neilltuo amser i graffu ar y rheoliadau hyn cyn y ddadl heddiw. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yw'r set olaf o reoliadau y mae angen eu gwneud i ategu cyflwyno'r rheoliadau a fydd yn rheoli gweithredu cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru o 1 Ebrill 2014, yn bennaf Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yn diweddarau cyfeiriadau o fewn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013 i adlewyrchu'r ffaith bod rheoliadau 2013 wedi eu gwneud. Mae'r rhain yn welliannau angenrheidiol a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw'r awdurdod cyfreithiol i ddiogelu eu cynlluniau gostyngiadau rhag pob ymgais i dwyllo ac i atal pobl a allai fod yn ystyried gwneud cais ffug. Mae'r rheoliadau amrywiol hefyd yn gwneud mân newidiadau technegol i reoliadau 2013 i ymdrin â'r pwyntiau a gododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod ei waith craffu ar Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014. Mân welliannau technegol yw'r rhain; nid ydynt yn effeithio ar hawl i ostyngiad i'r dreth gyngor ac nid ydynt yn effeithio ar y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Gofynnaf i'r Aelodau gymeradwyo'r rheoliadau hyn heddiw.

14:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have no other speakers.

Nid oes gennyf siaradwyr eraill.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The motion was agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, gwelliant 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones, a gwelliant 6 yn enw Aled Roberts.

Delivery of Fire and Rescue Services in Wales

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, amendments 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones, and amendment 6 in the name of Aled Roberts.

14:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on the Minister for Local Government and Government Business to move the motion—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i gyflwyno'r cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5474 Lesley Griffiths

Motion NDM5474 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

Notes the Welsh Government's work with Fire and Rescue Services in Wales to deliver safer communities for citizens.

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

In Plenary on 22 October 2013, I provided an update on fire and rescue services in Wales. I also committed to lead a full debate. Our fire and rescue services undertake a critical life-saving function, protecting us from fires, preventing fires and minimising the impact of fires and other incidents when they occur. Last October, I reported on major reductions in the number of fires and the number of injuries as a result of fires right across Wales. Fires have a devastating impact on individuals, families and communities in terms of their emotional, physical and economic effects. Reducing this impact is vital, and with significant support from the Welsh Government, fire and rescue services have achieved this.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref 2013, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Ymrwymais hefyd i arwain dadl lawn. Mae ein gwasanaethau tân ac achub yn gwneud gwaith achub bywyd hanfodol, yn ein diogelu rhag tanau, yn atal tanau ac yn lleihau effaith tanau a digwyddiadau eraill pan fyddant yn digwydd. Fis Hydref diwethaf, cyflwynais adroddiad am ostyngiadau mawr yn nifer y tanau a nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau ledled Cymru. Mae tanau'n cael effaith ddinistriol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau o ran eu heffeithiau emosiynol, corfforol ac economaidd. Mae'n hollbwysig lleihau'r effaith hon, a chydychymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwasanaethau tân ac achub wedi llwyddo i wneud hynny.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:00.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:00.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the last 10 years, we have made available around £50 million to support flagship programmes in community fire safety. Since last October, I have committed an additional £250,000, which includes £55,000 funding for target-hardening interventions for six schools, such as providing closed-circuit television and fencing to prevent crime and anti-social behaviour in schools, and £119,000 to pilot the road traffic collision intervention project, which is a collaboration between North Wales Fire and Rescue Service and North Wales Police. The pilot, mirrored on the successful Phoenix course that I saw at first-hand last July, will deliver events over 12 months at locations across north Wales for 720 young people identified as being most at risk.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi cynnig tua £50 miliwn i gefnogi rhaglenni blaenllaw diogelwch tân cymunedol. Ers mis Hydref diwethaf, rwyf wedi ymrwymo swm ychwanegol o £250,000, sy'n cynnwys £55,000 o gyllid ar gyfer ymyriadau gwella diogelwch mewn chwe ysgol, megis darparu teledu cylch cyfyng a ffensys i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ysgolion, a £119,000 i gynnal cynllun peilot y prosiect ymyriadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, sy'n brosiect ar y cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Bydd y cynllun peilot, sy'n seiliedig ar y cwrs Phoenix llwyddiannus a welais drosof fy hun fis Gorffennaf diwethaf, yn cynnal digwyddiadau dros 12 mis mewn lleoliadau ledled y gogledd i 720 o bobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg mwyaf.

Between 2004-05 and 2011-12, we have provided funding of around £0.5 million for fire and rescue service road traffic collisions preventative initiatives, and £10,000 to the three fire and rescue authorities to support work on carbon monoxide safety. They distribute safety information and carbon monoxide alarms as part of the home fire safety checks delivered by the third sector agencies to the most vulnerable and at-risk citizens across Wales. As part of Home Fire Safety Week, which commenced yesterday, the FRAs are issuing carbon monoxide information to support this activity.

Rhwng 2004-05 a 2011-12, rydym wedi darparu tua £0.5 miliwn o gyllid i fentrau ataliol y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a £10,000 i'r tri awdurdod tân ac achub i gynorthwyo â gwaith diogelwch carbon monocsid. Maent yn dosbarthu gwybodaeth am ddiogelwch a larymau carbon monocsid fel rhan o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a ddarperir gan yr asiantaethau trydydd sector i'r dinasyddion mwyaf agored i niwed sy'n wynebu'r risg mwyaf ledled Cymru. Fel rhan o Wythnos Diogelwch Tân yn y Cartref, a ddechreuodd ddoe, mae'r awdurdodau tân ac achub yn cyhoeddi gwybodaeth am garbon monocsid i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

I fully endorse the Welsh Conservatives' amendment 1. Attacks on firefighters are abhorrent, and I am pleased that the fire and rescue services are working with the police to ensure that firefighters are protected, and that people involved in such activities are appropriately dealt with. The recent reports of the attacks made on South Wales Fire and Rescue Service firefighters, and the number of arson-related grass fires in the last month, underline the continued need for community fire safety interventions. However, the reliance on the Welsh Government to fund this aspect of core business needs to be removed. We simply will not have the money to invest to the same degree in the future.

Of course, an evaluation of the effectiveness of these initiatives is crucial. In respect of the Welsh Conservatives' amendment 2, the Welsh Government is already working with fire and rescue services on an evaluation based on outcomes. This will continue during this year, and its outcome will inform future investment decisions.

Appropriate targeting is essential. Effective partnership working between fire and rescue services and others will ensure that efforts are directed to areas where they are most needed within local communities. This is best done by those involved sharing resources and joining up activities. Regional sign-off of community fire safety bids throughout Wales has already been introduced by the Welsh Government, and will be developed further via joint bids with relevant partners.

I mentioned that I visited a Phoenix project to see how it is helping to prevent arson and anti-social behaviour. This is an excellent example of collaborative working and it challenges existing attitudes by promoting independent thinking in young people, and by using fire service activities to develop personal attributes such as team working. I was very impressed with the project and the enthusiasm and discipline of the young people taking part, many of whom were on the cusp of offending.

During last Christmas recess, I visited each of the FRAs in Wales to see the extensive work undertaken in terms of prevention, collaboration with other agencies and in responding to emergencies. I visited DangerPoint, which is a third sector agency working with North Wales Fire and Rescue Service to deliver a cognitive behavioural programme aimed at low to medium-risk fire setters in the 12 to 17 age range. I was so impressed by this project that I have provided £14,000 grant funding to support its work. Over the past year, DangerPoint has attracted around 6,000 visitors from schools across north Wales.

In mid and west Wales, I was able to watch the urban search and rescue team's work at Pontardawe fire station, followed by a tour of the award-winning combined services centre at Llandrindod Wells.

Rwyf yn cefnogi gwelliant 1 Ceidwadwyr Cymru yn llwyr. Mae ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân yn ffaith, ac rwyf yn falch bod y gwasanaethau tân ac achub yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael eu diogelu, a bod pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn cael eu trin yn briodol. Mae'r adroddiadau diweddar am yr ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a nifer y tanau glaswellt yn gysylltiedig â llosgi bwriadol yn y mis diwethaf yn tanlinellu'r angen parhaus am ymyriadau diogelwch tân yn y gymuned. Fodd bynnag, mae angen cael gwared ar y ddbyniaeth ar Lywodraeth Cymru i ariannu'r agwedd hon ar fusnes craidd. Ni fydd gennym arian i fuddsoddi i'r un graddau yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mae'n hollbwysig gwerthuso effeithiolrwydd y mentrau hyn. O ran gwelliant 2 Ceidwadwyr Cymru, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda gwasanaethau tân ac achub ar werthusiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn, a bydd y canlyniad yn llywio penderfyniadau am fuddsoddi yn y dyfodol.

Mae targedu priodol yn hanfodol. Bydd gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y gwasanaethau tân ac achub ac eraill yn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cyfeirio at ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf o fewn cymunedau lleol. Y ffordd orau o wneud hyn yw i'r rhai sy'n cymryd rhan rannu adnoddau a chydblethu gweithgareddau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno cadarnhad rhanbarthol ar gyfer ceisiadau diogelwch tân cymunedol ledled Cymru, a datblygir hynny ymhellach drwy gyfrwng ceisiadau ar y cyd â phartneriaid perthnasol.

Dywedais fy mod wedi ymweld â phrosiect Phoenix i weld sut y mae'n helpu i atal tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dyma enghraifft ardderchog o gydweithio ac mae'n herio agweddau drwy hybu pobl ifanc i feddwl yn annibynnol, a thrwy ddefnyddio gweithgareddau'r gwasanaeth tân i ddatblygu nodweddion personol megis gweithio mewn tîm. Gwnaeth y prosiect, a brwdfrydedd a disgyblaeth y bobl ifanc a gymerodd ran, argraff dda iawn arnaf, roedd llawer ohonynt ar fin troseddu.

Yn ystod toriad y Nadolig diwethaf, bûm yn ymweld â phob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru i weld y gwaith helaeth a wneir o ran atal, cydweithio ag asiantaethau eraill ac ymateb i argyfyngau. Bûm yn ymweld â PentrePeryglon, asiantaeth trydydd sector sy'n cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gyflwyno rhaglen wybyddol ymddygiadol ar gyfer y rhai sy'n cynnu tanau sy'n isel i ganolig eu risg a rhwng 12 a 17 mlwydd oed. Gwnaeth y prosiect hwn argraff cystal arnaf nes i mi ddarparu £14,000 o gyllid grant i gefnogi ei waith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae PentrePeryglon wedi denu tua 6,000 o ymwelwyr o ysgolion ar draws y gogledd.

Yn y canolbarth a'r gorllewin, cefais gyfle i wyllo gwaith y tîm chwilio ac achub trefol yng ngorsaf dân Pontardawe, cyn cael taith o amgylch y ganolfan gwasanaethau cyfunol sydd wedi ennill gwobrau yn Llandrindod.

In south Wales, I had the opportunity to see how the fire and rescue service works collaboratively with South Wales Police and the Welsh Ambulance Services NHS Trust to improve services to the public while achieving efficiencies. I also met the Safer Vale Partnership team and community safety personnel who work in partnership out of Barry fire and rescue station. They undertake campaigns such as wearing a seat belt to not only enforce the law, but to educate and prevent lives being put at risk.

The winter storms in December and January saw the three fire services responding to local flooding incidents. They also provided support across the border in England, with pumping equipment and firefighters provided to support recovery in Somerset, Berkshire, Hampshire and Surrey.

In relation to Plaid Cymru's amendment 3, these examples all demonstrate the breadth of work that the fire and rescue services undertake and the adaptability and flexibility of staff. These skills and experience will be essential to enable the services to respond and adapt to the changing public service landscape, where challenging decisions will need to be made about resources.

We accept Plaid Cymru's amendment 4 and the Liberal Democrats' amendment 6. I do, of course, set the strategic direction for fire and rescue services, through the fire and rescue national framework, and I do have plans to review this framework in 2014-15.

I support amendment 5, which refers to the report on the fire and rescue services in Wales in 2013. I have told the chairs of the three fire and rescue services that I intend to take forward all the recommendations in the report, although the implementation of the public service governance and delivery report could impact on this.

It is important to recognise that public services in Wales face significant challenges following UK budget spending cuts. Funding for FRAs is provided by county councils, which will need to ensure that the money being spent is used wisely, meets the areas of greatest need for any particular community, and provides the fire and rescue services that our communities deserve. Tough decisions must be made across the public sector.

The Fire Brigades Union has suggested that cuts across the country are already slowing emergency response times, impacting on critical services and endangering lives. This is not the case in Wales. Average attendance times for the first six months of 2013-14 show a slight improvement compared with previous years. However, while fire and rescue authorities are autonomous bodies, I would encourage them to consider innovative approaches to efficiencies, to ensure that they continue to minimise the financial impact of the services they provide on the public purse, while at the same time ensuring that members of the public still receive an excellent service. I look forward to the debate and to hearing Members' views.

Yn y de, cefais gyfle i weld sut y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cydweithio â Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wella gwasanaethau i'r cyhoedd a sicrhau arbedion ar yr un pryd. Bûm yn cwrdd hefyd â'r tîm Partneriaeth Bro Ddiogelach a'r personél diogelwch cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth yng ngorsaf dân ac achub y Barri. Maent yn cynnal ymgyrchoedd megis gwisgo gwregys diogelwch nid yn unig i orfodi'r gyfraith, ond i addysgu ac i atal pobl rhag peryglu eu bywydau.

Yn ystod stormydd y gaeaf ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, ymatebodd y tri gwasanaeth tân i ddigwyddiadau llifogydd lleol. Buont hefyd yn rhoi cymorth ar draws y ffin yn Lloegr, gan ddarparu offer pwmpio a diffoddwyr tân i gynorthwyo â gwaith adfer yng Ngwlad yr Haf, Swydd Berkshire, Swydd Hampshire a Surrey.

O ran gwelliant 3 Plaid Cymru, mae'r enghreifftiau hyn i gyd yn dangos ehangder y gwaith y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn ei wneud a hyblygrwydd y staff a'u gallu i addasu. Bydd y sgiliau a'r profiad hyn yn hanfodol i alluogi'r gwasanaethau i ymateb ac i addasu i dirlun y gwasanaethau cyhoeddus wrth iddo newid, lle bydd angen gwneud penderfyniadau anodd am adnoddau.

Rydym yn derbyn gwelliant 4 Plaid Cymru a gwelliant 6 y Democratiaid Rhyddfrydol. Rwyf, wrth gwrs, yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau tân ac achub, drwy gyfrwng y fframwaith tân ac achub cenedlaethol, ac rwyf yn bwriadu adolygu'r fframwaith hwn yn 2014-15.

Rwyf yn cefnogi gwelliant 5, sy'n cyfeirio at yr adroddiad am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn 2013. Rwyf wedi dweud wrth gadeiryddion y tri gwasanaeth tân ac achub fy mod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r holl argymhellion yn yr adroddiad, er y gallai gweithredu'r adroddiad ar lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithio ar hyn.

Mae'n bwysig cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n wynebu heriau sylweddol yn sgil y toriadau gwariant yng nghyllideb y DU. Cynghorau sir sy'n darparu cyllid i Awdurdodau Tân ac Achub, a bydd angen iddynt sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth, yn bodloni'r meysydd lle mae'r angen mwyaf mewn cymunedau penodol, ac yn darparu'r gwasanaethau tân ac achub y mae ein cymunedau'n eu haeddu. Rhaid gwneud penderfyniadau anodd ar draws y sector cyhoeddus.

Mae Undeb y Brigadau Tân wedi awgrymu bod toriadau ledled y wlad eisoes yn arafu amseroedd ymateb brys, gan effeithio ar wasanaethau hanfodol a pheryglu bywydau. Mae'n hysbysu hyn yn wir yng Nghymru. Mae'r amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer chwe mis cyntaf 2013-14 yn dangos rhywfaint o welliant o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, er bod awdurdodau tân ac achub yn gyrrff ymreolaethol, byddwn yn eu hannog i ystyried dulliau blaengar o sicrhau arbedion, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i leihau effaith ariannol y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar y pwr cyhoeddus, gan sicrhau ar yr un pryd fod aelodau o'r cyhoedd yn dal i gael gwasanaeth rhagorol. Edrychaf ymlaen at y ddadl ac at glywed barn yr Aelodau.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the six amendments to the motion and I call on Mark Isherwood to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Mark Isherwood i gynnal gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

Notes with concern the rise in attacks on fire and rescue crews and the impact this has on delivering safer communities.

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cychod o ymyriadau diogelwch tân.

Calls for a robust joint evaluation of fire safety interventions by the Welsh Government, Fire and Rescue Services and the third sector.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigiau welliannau 1 a 2.

We must note the work of the four Governments in the UK with their fire and rescue services and the impact of this on the delivery of safer communities for citizens. Taking the four-year period between 2009-10 and 2012-13, deaths in England due to accidental domestic dwelling fires per head were lower than in all other UK countries, at 3.7 per million of the population. The next lowest figures were in Wales, at 4.4 per million. The figures were highest in Scotland, at 8.3 per million, with Northern Ireland at 5.1 per million. Provisional figures indicate only six deaths in Wales due to accidental domestic dwelling fires during 2012-13, down from 20 in 2010-11. North Wales Fire and Rescue Service reports that, during the last three years, total incidents and attended call-outs have dropped by 15% and total fires have dropped by 12%. South Wales Fire and Rescue Service reports reductions in attended call-outs, fire deaths and injuries during the last year, and a 40% fall in demand on its services over the last decade, due to success with fire prevention and education work. All recognise the need to provide sustainable and affordable fire and rescue services in the longer term.

Mae'n rhaid inni nodi gwaith y pedair Llywodraeth yn y DU gyda'u gwasanaethau tân ac achub ac effaith hyn ar ddarparu cymunedau mwy diogel i ddinasyddion. Yn cyfnod o bedair blynedd rhwng 2009-10 a 2012-13, roedd marwolaethau yn Lloegr o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau domestig y pen yn is nag yn holl wledydd eraill y DU, yn 3.7 fesul miliwn o'r boblogaeth. Roedd y ffigurau isaf nesaf yng Nghymru, sef 4.4 fesul miliwn. Yn yr Alban yr oedd y ffigur uchaf, sef 8.3 fesul miliwn, ac roedd yn 5.1 fesul miliwn yng Ngogledd Iwerddon. Mae ffigurau dros dro'n dangos mai dim ond chwe marwolaeth a fu yng Nghymru o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau domestig yn ystod 2012-13, i lawr o 20 yn 2010-11. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn adrodd bod cyfanswm y digwyddiadau a'r galwadau allan yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi gostwng 15% a bod cyfanswm y tanau wedi gostwng 12%. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n dweud bod y galwadau allan, marwolaethau tân ac anafiadau wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod 40% yn llai o alw am ei wasanaethau dros y degawd diwethaf, oherwydd llwyddiant gwaith atal tân ac addysg. Mae pawb yn cydnabod bod angen darparu gwasanaethau tân ac achub cynaliadwy a fforddiadwy yn y tymor hwy.

Last weekend, we heard that the recent dry spell has brought a spate of grass and mountain fires. Mid and West Wales Fire and Rescue Service stated that it had been called to more than 90 grass fires across Carmarthenshire, Swansea and Neath Port Talbot since the start of the month and that more than two thirds of these had been deliberately started. South Wales Fire and Rescue Service had been called out to more than 200 wildfires and reported that most had been the work of arsonists.

Y penwythnos diwethaf, clywsom fod y cyfnod sych diweddar wedi achosi cyfres o danau glaswellt a mynydd. Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru ei fod wedi cael ei alw i dros 90 o danau glaswellt ar draws Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ers dechrau'r mis a bod mwy na dwy ran o dair o'r rhain wedi eu cynnal'n fwrriadol. Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei alw i fwy na 200 o danau gwyllt a dywedasant fod y rhan fwyaf wedi eu cynnal'n fwrriadol.

South Wales Fire and Rescue Service has also reported a 16% rise in attacks on firefighters during the past two years, with crews having been kicked, had bricks thrown at them and been verbally abused during call-outs. As fire chiefs have said, the problem could have consequences for victims of fires. The chief fire officer, Huw Jakeway, has launched a campaign over such attacks, called We Can't Protect You While We Are Under Attack, saying:

'Attacking our fire crews has very serious consequences and it cannot and will not be part of anyone's job to face abuse, threats or attacks.'

I therefore move amendment 1, which notes with concern the rise in attacks on fire and rescue crews and the impact that this has on delivering safer communities. The fire safety charity, Firebrake Wales, states that,

'Existing evidence and research indicates particular groups of people within the community are at greater risk from fire e.g. older people, individuals with mental health issues.'

It continues:

'most fires do not just "happen"...it is these people that need to be reached.'

I attended the 2010 Firebrake Wales conference in Rhyl. Firebrake commended the role of the fire and rescue services in fire prevention and saving lives, but it also stated that thousands of incidents were not reported, that most of those at risk were so due to circumstances, conditions, behaviours and lifestyle choices that were over-represented in the statistics, that we needed to target behaviours as well as conditions and circumstances, and that the people most vulnerable are known to other organisations. It called for a robust evaluation of interventions that work between itself, the Welsh Government and fire and rescue services. However, when I asked the Minister last October whether such a robust evaluation had happened, she failed to answer my question. We do not therefore know whether policy is being developed on this basis with the expertise of Firebrake and the third sector.

Greater collaboration is needed between mental health charities and drug and alcohol charities and teams to liaise with other organisations—employment, housing, homeless hostels, local authorities and fire and rescue services—sharing responsibility via real partnership between public, private and voluntary sectors to identify and target people at risk and to make Wales a safer place.

Mid and West Wales Fire and Rescue Service states in its 2012-13 performance assessment—Ann, sorry, yes—

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd wedi nodi 16% yn fwy o ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; mae criwiau wedi cael eu cicio, mae brics wedi'u taflu atynt ac maent wedi eu sarhau ar lafar wrth eu gwaith. Fel y mae prif swyddogion tân wedi dweud, gallai'r broblem beri canlyniadau i ddioddefwyr tanau. Mae'r prif swyddog tân, Huw Jakeway, wedi lansio ymgyrch ynghylch ymosodiadau o'r fath, dan y teitl Ni Fedrwn Eich Amddiffyn Wrth i Ni Fod o Dan Ymosodiad, gan ddweud:

Mae ymosod ar ein criwiau tân yn achosi canlyniadau difrifol iawn ac ni all fod, ac ni fydd, yn rhan o swydd neb i wynebu cam-drin, bygythiadau neu ymosodiadau.

Felly cynigiau welliant 1, sy'n nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel. Mae'r elusen diogelwch tân, Atal Tân Cymru, yn nodi,

Mae tystiolaeth ac ymchwil presennol yn dangos bod grwpiau penodol o bobl yn y gymuned mewn mwy o berygl oherwydd tân e.e. pobl hŷn, unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Ac meddai:

nid yw'r rhan fwyaf o danau'n "digwydd" am ddim rheswm ... dyma'r bobl y mae angen inni eu cyrraedd.

Bûm yng nghynhadledd Atal Tân Cymru 2010 yn y Rhyl. Canmolodd Atal Tân y rhan y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn ei chwarae wrth atal tanau ac achub bywydau, ond nododd hefyd fod miloedd o ddigwyddiadau na cheir adroddiadau amdanynt, fod y rhan fwyaf o'r bobl sydd mewn perygl yn y sefyllfa honno oherwydd amgylchiadau, amodau, ymddygiad a dewisiadau ynghylch ffordd o fyw a oedd wedi'u gorgynrychioli yn yr ystadegau, fod angen inni dargedu ymddygiad yn ogystal ag amodau ac amgylchiadau, a bod sefydliadau eraill yn gwybod pwy yw'r bobl fwyaf agored i niwed. Galwodd am werthusiad cadarn o ymyriadau sy'n gweithio rhyngddo ef, Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau tân ac achub. Fodd bynnag, pan ofynnais i'r Gweinidog fis Hydref diwethaf a oedd gwerthusiad cadarn o'r fath wedi digwydd, nid oedd yn gallu ateb fy nghwestiwn. Felly, nid ydym yn gwybod a oes polisi'n cael ei ddatblygu ar y sail hon gydag arbenigedd Atal Tân a'r trydydd sector.

Mae angen mwy o gydweithio rhwng elusennau iechyd meddwl ac elusennau a thimau cyffuriau ac alcohol i gydgyssylltu â sefydliadau eraill—cyflogaeth, tai, hosteli i'r digartref, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau tân ac achub—sy'n rhannu cyfrifoldeb drwy bartneriaeth go iawn rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi a thargedu pobl sydd mewn perygl ac i wneud Cymru'n lle mwy diogel.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n datgan yn ei asesiad o berfformiad 2012-13—Ann, mae'n ddrwg gennyf, ie—

15:11

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am listening with interest to what you are saying about making Wales a safer place. Do you agree that the legislation that we have passed and the regulations that the Minister for housing has taken through, making sprinklers compulsory in all new-build homes, will actually make Wales that safer place?

Rwyf yn gwranddo â diddordeb ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud ynglŷn â gwneud Cymru'n lle mwy diogel. A ydych yn cytuno y bydd y ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i phasio a'r rheoliadau y mae'r Gweinidog tai wedi'u cyflwyno, i wneud systemau chwistrellu'n orfodol ym mhob cartref sy'n cael ei adeiladu o'r newydd, yn gwneud Cymru'n lle mwy diogel?

15:12

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am saying that we do not have the evidence base to comment on that. That is exactly what this evidence is saying. Mid and West Wales Fire and Rescue Service said in its 2012-13 performance assessment that consultation with its communities and staff confirmed that better collection and analysis and sharing of data with its partners was central to evaluating and targeting the right risk groups, which in turn improved intelligence on further areas for service improvement. Intelligence first; action second. This is the reason for amendment 2, which calls for a robust joint evaluation of fire safety interventions by the Welsh Government, fire and rescue services and the third sector.

Rwyf yn dweud nad oes gennym sylfaen dystiolaeth i wneud sylwadau am hynny. Dyna'n union y mae'r dystiolaeth hon yn ei ddweud. Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru yn ei asesiad o berfformiad 2012-13 fod ymgynghori â'i gymunedau a'i staff wedi cadarnhau bod casglu, dadansoddi a rhannu data'n well â'i bartneriaid yn ganolog i werthuso a thargedu'r grwpiau risg cywir, a bod hynny yn ei dro'n gwella gwybodaeth am feysydd pellach lle gellid gwella gwasanaethau. Gwybodaeth yn gyntaf, gweithredu'n ail. Dyna'r rheswm dros welliant 2, sy'n galw am werthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân gan Lywodraeth Cymru, y gwasanaethau tân ac achub a'r trydydd sector.

15:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call Rhodri Glyn Thomas to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 3—Elin Jones

Amendment 3—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud—a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

Recognises the essential work undertaken by fire fighters—on whom Welsh communities rely for much more than fire fighting.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

Believes there should be a national approach to fire and rescue service in which strategic operational decisions are made on the basis of service need.

Gwelliant 5—Elin Jones

Amendment 5—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to bring forward proposals to examine the structure of Fire and Rescue Services in Wales.

15:12

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau welliannau 3, 4 a 5.

I move amendments 3, 4 and 5.

Diolch yn fawr iawn, Dirprwy Lywydd. Mae'n dda gweld bod cytundeb trawsbleidiol yn datblygu ar y pwnc hwn. A gaf i ddweud y byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Paul Davies? Wedi i mi glywed esboniad Mark Isherwood, gallwn hefyd gefnogi gwelliant 2, er nad yw'r geiriad ei hun yn gwbl glir. O ddarllen y gwelliant, nid oeddwn yn siŵr iawn beth yr oedd y Ceidwadwyr yn ei gynnis gyda'r gwelliant hwnnw. Ond, mae'r esboniad yn ein galluogi ni i gefnogi'r gwelliant. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 6 yn enw Aled Roberts.

Y newyddion da yw bod y gwasanaeth tân ac achub wedi perfformio'n arbennig o dda ers datganoli yn 1999. Mae'r gwasanaeth wedi cryfhau yng Nghymru ac, fel sydd wedi cael ei ddweud gan y Gweinidog a Mark Isherwood, mae'n perfformio'n dda iawn o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Byddwn i'n dadlau bod yr ystadegau sy'n dangos bod lleihad yn nifer y dioddefwyr o ran y tân yng Nghymru yn deillio o'r gwaith ychwanegol mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud. Mae'r gwaith addysgiadol a'r gwaith ataliol yn eithriadol o bwysig yn hyn o beth. Dyna sydd wrth wraidd gwelliant 3 yn enw Elin Jones—cydnabyddiaeth o'r gwaith hollbwysig hwnnw a'r sicrhau yr ydym yn ceisio ei gael oddi wrth y Llywodraeth y bydd cydlynu yn digwydd o ran y gwaith hwnnw ar lefel genedlaethol. Mae'n eithriadol o bwysig bod gorolwg strategol yn digwydd. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi dweud ei bod hi'n cynnis yr arweiniad strategol hwn, ond yr hyn rydym wedi gweld yn ystod y flwyddyn diwethaf o ran trafodaethau ynglŷn â chyllidebau yw bod penderfyniadau yn cael eu hystyried. Yn ffodus, yn y diwedd, fe lwyddwyd i osgoi'r toriadau hynny. Fodd bynnag, roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i doriadau er mwyn ymateb i ofynion cyllidebol, yn hytrach na bod gorolwg strategol i sicrhau bod holl ystod y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y gwasanaeth tân ac achub yn cael ei ddiogelu ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y penderfyniadau hyn, fel rydym yn nodi yng ngwelliant 4, yn cael eu cymryd ar y sail honno.

Mae'n dda gweld bod adroddiad Williams yn ddiweddar eto'n nodi bod perfformiad y gwasanaeth tân ac achub yn cryfhau yng Nghymru, ond mae awgrym yn yr adroddiad hwnnw bod posibiladau i gryfhau'r gwasanaeth eto.

Yng ngwelliant 5, rydym yn galw ar y Gweinidog—. Roeddwn i'n falch iawn o glywed y Gweinidog yn dweud ei bod yn cefnogi gwelliant 5; rwy'n gobeithio ei bod yn mynd i gefnogi gwelliannau 3 a 4 hefyd. Roedd hi'n ddigon cadarnhaol yn ei sylwadau am welliannau 3 a 4, er ni ddywedodd ei bod yn mynd i'w cefnogi. Rwy'n gallu gweld yn awr ei bod hi'n mynd i gefnogi gwelliannau 3 a 4 hefyd. Fodd bynnag, mae gwelliant 5 yn bwysig o ran ein bod yn edrych ar y strwythurau. Nid wyf i, am eiliad, yn datgan yn y fan hon bod angen i ni newid y strwythurau, ond mae angen i ni edrych i weld a ellid cryfhau'r strwythurau, a thrwy wneud hynny, hefyd gwella perfformiad y gwasanaeth tân ac achub.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It is good to see cross-party consensus developing on this subject. May I say that we will be supporting amendment 1 in the name of Paul Davies? Having heard Mark Isherwood's explanation, we can also support amendment 2, although the wording itself is not crystal clear. Having read the amendment, I was not quite certain what the Conservatives were proposing. However, the explanation enables us to support that amendment. We will also support amendment 6 in the name of Aled Roberts.

The good news is that the fire and rescue service has performed exceptionally well since devolution in 1999. The service has strengthened in Wales and, as has been said by the Minister and Mark Isherwood, it is performing exceptionally well compared to what is happening in the other nations of the United Kingdom. I would argue that the statistics that show that there has been a reduction in the victims of fire in Wales fall out of the additional work that the fire and rescue service undertakes. The educational and preventative work is exceptionally important in this context. That is what underlies amendment 3 in the name of Elin Jones—recognition of that essential work and the guarantee that we are trying to secure from the Government that co-ordination will take place as regards that work on a national level. It is exceptionally important that a strategic overview is undertaken. I know that the Minister has said that she offers this strategic lead, but what we have seen over the past year in discussions about budgets is that decisions are being considered. Fortunately, in the end, those cuts were avoided. However, consideration was given to cuts in order to meet budgetary needs, rather than there being a strategic overview to ensure that the whole range of work undertaken by the fire and rescue service is safeguarded throughout Wales. It is important that these decisions, as we note in amendment 4, are taken on that basis.

It is good to see that the Williams report recently noting again that the performance of the fire and rescue service is being strengthened in Wales, but there is a suggestion in that report that there are possibilities of strengthening the service further.

In amendment 5, we call on the Minister—. I was very pleased to hear the Minister say that she supports amendment 5; I hope that she is also going to support amendments 3 and 4. She was positive enough in her comments about amendments 3 and 4, although she did not say that she was going to support them. I can see now that she is going to also support amendments 3 and 4. However, amendment 5 is important in that we should look at the structures. I am not, for a minute, saying in this place that we need to change the structures, but we need to look to see whether we can strengthen the structures and, in so doing, also improve the performance of the fire and rescue service.

Mae'n ddiddorol gwranddo ar y diffoddwyr tân, gan fod y diffoddwyr tân sydd wedi eu lleoli yn Rhydaman, er enghraifft, Weinidog, yn gofyn am gyfrifoldeb statudol i ymateb i alwadau ynghylch llifogydd. Rydych chi wedi sôn am y galwadau sydd wedi bod yn ddiweddar o ganlyniad i stormydd a llifogydd. Mae'r diffoddwyr tân hyn yn Rhydaman yn barod iawn ac yn awyddus iawn i gymryd y cyfrifoldeb ac am weld hynny'n gyfrifoldeb statudol arnynt fel bod y sgiliau sydd ganddynt i ymateb i'r sefyllfaoedd hyn yn cael eu defnyddio hyd yr eithaf.

Rwy'n meddwl ei fod yn eithriadol o bwysig ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Blaid Geidwadol am gyflwyno gwelliant 1. Y peth pwysig yw ein bod i gyd yn uno yn y lle hwn i gynnig ein cefnogaeth llwyr i weithwyr tân ac achub yng Nghymru ac i gondemnio'n llwyr hefyd unrhyw un sy'n ceisio rhwystro'r gwaith hwnnw neu'n ymosod ar y gweithwyr wrth iddynt gyflawni'u gwaith.

It is interesting to listen to the firefighters, because the firefighters that are based in Ammanford, for example, Minister, are asking for statutory responsibility to respond to calls in relation to flooding. You have mentioned the calls that there have been recently as a result of storms and flooding. These firefighters in Ammanford are very ready and eager to take the responsibility and to see that as a statutory responsibility so that the skills that they have to respond to these situations are used to their optimum.

I think that it is exceptionally important and I am very grateful to the Conservative Party for tabling amendment 1. What is important is that we in this place offer our unreserved support to the fire and rescue service workers in Wales and condemn anyone who tries to stop that work or attack the firefighters in undertaking their work.

15:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendment 6 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Calls on the Welsh Government to work closely with Fire and Rescue Authorities to ensure proper provision, particularly in rural areas.

15:18 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 6 in the name of Aled Roberts.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliant 6 yn enw Aled Roberts.

I confirm that the Welsh Liberal Democrats will also support amendments 1, 2, 3 and 5. I think that, on balance, having listened to Rhodri Glyn Thomas speak, we will also support amendment 4. There was some concern, I think, about the way that this particular amendment was drafted. It indicated that perhaps you were looking for a reorganisation of the fire service and to have a single national fire service, but I think that Rhodri Glyn Thomas made it clear that that was not the case. Therefore, I am happy to also support amendment 4 on that basis. I think that the need for a clear, strategic lead from the Welsh Government is absolutely imperative and crucial in terms of making sure that we have an effective fire and rescue service.

Rwyf yn cadarnhau y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cefnogi gwelliannau 1, 2, 3 a 5. Credaf, ar y cyfan, ar ôl gwranddo ar Rhodri Glyn Thomas yn siarad, y byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 4. Roedd peth pryder, rwyf yn meddwl, am y ffordd y cafodd y gwelliant penodol hwn ei ddrafftio. Roedd yn awgrymu efallai eich bod am weld ad-drefnu ar y gwasanaeth tân a chael un gwasanaeth tân cenedlaethol, ond rwyf yn meddwl bod Rhodri Glyn Thomas wedi ei gwneud yn glir nad dyna'r sefyllfa. Felly, rwyf yn fodlon cefnogi gwelliant 4 ar y sail honno hefyd. Rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ac yn hollbwysig cael arweiniad clir, strategol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym wasanaeth tân ac achub effeithiol.

In starting my contribution, Deputy Presiding Officer, I want to put on record, once again, my appreciation for the firefighters and their support staff and the work that they do in protecting our lives and saving lives in terms of fighting fires, rescuing people from accidents, and a whole range of other work, particularly the preventative work that they do. I think that that work is invaluable and the men and women who put their lives on the line every day in carrying out that work are, I think, never properly fully appreciated by the public or by politicians. I think that we do need to put that on record in particular.

Wrth ddechrau fy nghyfraniad, Ddirprwy Lywydd, hoffwn gofnodi, unwaith eto, fy ngwerthfawrogiad o'r diffoddwyr tân a'u staff cymorth a'r gwaith y maent yn ei wneud i ddiogelu ein bywydau ni ac i achub bywydau drwy ymladd tanau, achub pobl o ddamweiniau, ac amrywiaeth eang o waith arall, yn enwedig y gwaith ataliol y maent yn ei wneud. Credaf fod y gwaith hwnnw'n amhrisiadwy ac nad yw'r dynion a'r menywod sy'n rhoi eu bywydau yn y fantol bob dydd wrth wneud y gwaith hwnnw, yn fy marn i, byth yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn gan y cyhoedd na chan wleidyddion. Rwyf yn credu bod angen inni roi hynny ar gofnod yn benodol.

I also want to talk about the very important work that fire and rescue services do in terms of prevention. Mark Isherwood gave figures earlier on the number of domestic fires and how few there are now in Wales. The work that fire and rescue services have done, particularly in deprived areas, in identifying homes that are at particular risk and going in and putting in preventative measures, is particularly valuable. I certainly support the legislation that is being implemented on sprinklers, because I think that will also make a big difference in terms of trying to ensure that we do not get as many fires, particularly domestic fires, as we might otherwise do, although, of course, I think that it is worth noting that the biggest at-risk areas are existing dwellings, not new dwellings, and really we need to concentrate the preventive work on that particular area.

I would also add, Minister—I think that I made this comment when we had a statement back in October last year—that I would also like to see further preventive work in terms of the installation of carbon monoxide detectors in homes. I notice that the Minister for housing has just left the Chamber. I was hoping that he would make note of that. However, certainly, I think that it is important that, if we are going to put in preventive measures to save lives, putting in preventive measures to save lives from faulty appliances is also very important indeed, and I would like to see some work done by the Welsh Government in terms of social housing, in particular, to try to ensure that that particular danger is also tackled as part of that.

The amendment that the Welsh Liberal Democrats have tabled, amendment 6, refers particularly to rural areas and making sure that proper provision is made. I think that one of the valuable contributions that the fire and rescue services bring to this agenda is how closely they work with local communities, both in urban and in rural areas. The Minister referred to some of the initiatives and, in particular, to working with youngsters in deprived areas and how the services have got them involved and helped them to move away from behaviour that threatened their future. Of course, the work that fire and rescue services do with local communities is very valuable indeed, and that closeness to communities also means that those communities value their local fire station, not just because it is close enough to put out a fire, should it occur, but also because of the work that the firemen and firewomen do in that local community.

Hoffwn hefyd sôn am y gwaith pwysig iawn y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn ei wneud o ran atal. Rhoddodd Mark Isherwood ffigurau'n gynharach am nifer y tanau yn y cartref ac mor brin y maent erbyn hyn yng Nghymru. Mae'r gwaith y mae'r gwasanaethau tân ac achub wedi ei wneud, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, i ddod o hyd i gartrefi sydd mewn perygl neilltuoel ac i fynd yno i osod mesurau ataliol, yn arbennig o werthfawr. Rwyf yn sicr yn cefnogi'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei rhoi ar waith o ran systemau chwistrellu, gan fy mod yn meddwl y bydd hynny hefyd yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran ceisio sicrhau nad ydym yn gweld cynifer o danau, yn enwedig tanau yn y cartref, ag y gallem eu gweld fel arall, er fy mod, wrth gwrs, yn meddwl ei bod yn werth nodi mai tai sy'n bodoli eisoes sy'n wynebu'r risg mwyaf, nid tai newydd, ac a dweud y gwir mae angen inni ganolbwyntio'r gwaith ataliol ar y maes penodol hwnnw.

Byddwn hefyd yn ychwanegu, Weinidog—rwyf yn meddwl fy mod wedi gwneud y sylw hwn pan gawsom ddatganiad yn ôl ym mis Hydref y llynedd—yr hoffwn hefyd weld mwy o waith ataliol o ran gosod synwryddion carbon monocsid mewn cartrefi. Sylwaf fod y Gweinidog tai newydd adael y Siambr. Roeddwn yn gobeithio y byddai'n nodi hynny. Fodd bynnag, rwyf yn sicr yn meddwl ei bod yn bwysig, os ydym am roi mesurau ataliol ar waith i achub bywydau, fod rhoi mesurau ataliol ar waith i achub bywydau rhag cyfarpar diffygiol hefyd yn bwysig iawn, a hoffwn weld Llywodraeth Cymru'n gwneud rhywfaint o waith o ran tai cymdeithasol, yn enwedig, i geisio sicrhau bod y perygl penodol hwnnw hefyd yn cael sylw fel rhan o hynny.

Mae'r gwelliant y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi'i gyflwyno, gwelliant 6, yn cyfeirio'n benodol at ardaloedd gwledig a sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael. Un o gyfraniadau gwerthfawr y gwasanaethau tân ac achub i'r agenda hon, yn fy marn i, yw pa mor agos y maent yn cydweithio â chymunedau lleol, mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd gwledig. Cyfeiriodd y Gweinidog at rai o'r mentrau ac, yn benodol, at weithio gyda phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig a'r ffaith bod y gwasanaethau wedi eu hannog i gyfranogi a'u helpu i symud oddi wrth ymddygiad a oedd yn bygwth eu dyfodol. Wrth gwrs, mae'r gwaith y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn ei wneud gyda chymunedau lleol yn werthfawr iawn, ac mae'r ffaith eu bod mor agos at eu cymunedau hefyd yn golygu bod y cymunedau hynny'n gwerthfawrogi eu gorsaf dân leol, nid dim ond oherwydd ei bod yn ddigon agos i ddiffodd tân, pe bai un yn digwydd, ond hefyd oherwydd y gwaith y mae'r dynion tân a'r menywod tân yn ei wneud yn y gymuned leol honno.

I know that, in the past, there have been threats in my region to Porthcawl, which is still being proposed for merger with Pyle, and Gorseinon and Pontarddulais. I know that Kirsty Williams has worked very hard indeed to save Knighton fire station, which was under threat, and I think that she has managed to succeed in saving that fire station. Of course, particularly in rural communities, where you have a poor road system that cannot cope with the appliances and which means that they cannot get there very quickly, it is really important to have fire stations close by so that there can be a very quick response. That also applies in urban areas. On the threat to Porthcawl of merging with Pyle, I know that the people of Porthcawl feel very strongly indeed that, if the fire station moves further away from the town, there will be a danger to them, particularly in Trecco bay caravan park, should a fire break out. So, Minister, in talking about this subject, I would hope that you take on board the need, in providing that strong, strategic direction, to also concentrate on the community focus that those fire stations and the fire and rescue service provide to make sure that we can retain those local services and those local fire stations, irrespective of the pressures that those authorities are under.

Gwn fod bygythiadau wedi bod yn y gorffennol yn fy rhanbarth i i Borthcawl, sy'n dal i fod yn destun cynnig i uno â'r Pîl, a Gorseinon a Phontarddulais. Gwn fod Kirsty Williams wedi gweithio'n galed iawn i achub gorsaf dân Trefyclo, a oedd dan fygythiad, ac rwyf yn meddwl ei bod wedi llwyddo i arbed yr orsaf dân honno. Wrth gwrs, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, lle mae'r system ffyrdd yn wael ac yn methu ag ymdopi â'r peiriannau sy'n golygu na allant gyrraedd yno'n gyflym iawn, mae'n bwysig iawn fod gorsafoddd tân gerllaw fel y gellir ymateb yn gyflym iawn. Mae hynny hefyd yn wir mewn ardaloedd trefol. O ran y bygythiad y bydd Porthcawl yn uno â'r Pîl, gwn fod pobl Porthcawl yn teimlo'n gryf iawn, os bydd yr orsaf dân yn symud ymhellach o'r dref, y byddant mewn perygl, yn enwedig ym maes carafanau bae Trecco, pe bai tân yn digwydd yno. Felly, Weinidog, wrth siarad am y pwnc hwn, rwyf yn gobeithio y byddwch yn ystyried bod angen canolbwyntio hefyd, wrth ddarparu'r cyfeiriad cryf, strategol hwnnw, ar y pwyslais cymunedol y mae'r gorsafoddd tân hynny a'r gwasanaeth tân ac achub yn ei ddarparu i wneud yn siŵr y gallwn gadw'r gwasanaethau lleol hynny a'r gorsafoddd tân lleol hynny, beth bynnag fo'r pwysau ar yr awdurdodau hynny.

15:23

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased that we have this opportunity for a wide-ranging discussion around fire and rescue services today, and not just because it is something that I called for during the business statement as far back as October, or because there are currently significant changes to local fire cover proposed for my constituency. More widely than that, I do not think that we spend enough time in this Chamber debating this essential public service, despite the fact that it has been devolved for many years. Indeed, notwithstanding Ann Jones and her incredible campaigning record, considering the amount of time that we have spent talking about the NHS in Wales recently, and given that there seems to be a growing consensus in favour of devolving areas such as policing, conversations about the fire service in Wales seem to have been relatively far and few between.

It is surprising, really, when you think about some of the success stories that we have seen in Wales over the last decade: fire fatalities down 37%, injuries halved, the overall number of fires down 57% and deliberate fires reduced by two thirds, with domestic fires down by a fifth. Those are really powerful statistics, and every individual in our fire and rescue services should be justly proud of that fantastic record of reducing risk and saving lives. Indeed, as has been obvious throughout my involvement in the campaign to save the second appliance at Cwmbran fire station, people care passionately about their local fire service and the really important work that it does on our behalf. I know that many of my constituents will have been disappointed to hear news yesterday that the South Wales Fire and Rescue Authority has agreed to proceed with the proposals to axe the second engine at Cwmbran as part of its wider fire cover review, but I think that we can take some heart from the fact that a second level of local scrutiny is being put in place and a final decision deferred until September, partly in response to the huge groundswell of concern over the plans.

Rwyf yn falch bod gennym y cyfle hwn i gael trafodaeth eang am wasanaethau tân ac achub heddiw, ac nid dim ond oherwydd ei fod yn rhywbeth y galwais amdano yn ystod y datganiad busnes mor bell yn ôl â mis Hydref, nac oherwydd bod newidiadau sylweddol wedi'u cynnig i'r gwasanaeth tân lleol yn fy etholaeth i ar hyn o bryd. Yn fwy eang na hynny, nid wyf yn meddwl ein bod yn treulio digon o amser yn y Siambr hon yn dadlau am y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi'i ddatganoli ers blynnyddoedd lawer. Yn wir, ac eithrio Ann Jones a'i record ymgyrchu anhygoel, ac ystyried yr holl amser yr ydym wedi'i dreulio'n siarad am y GIG yng Nghymru yn ddiweddar, ac o gofio ei bod yn ymddangos bod consensws cynyddol o blaid datganoli meysydd megis plismona, mae'n ymddangos na fu rhyw lawer o sgrysiâu am y gwasanaeth tân yng Nghymru.

Mae'n rhyfeddol, a dweud y gwir, pan feddylwch am rai o'r llwyddiannau yr ydym wedi'u gweld yng Nghymru dros y degawd diwethaf: marwolaethau tân i lawr 37%, anafiadau wedi'u haneru, cyfanswm nifer y tanau i lawr 57% a dwy ran o dair yn llai o danau bwriadol, a thanau yn y cartref i lawr un rhan o bump. Mae'r rhain yn ystadegau pwerus iawn, a dylai pob unigolyn yn ein gwasanaethau tân ac achub fod yn haeddiannol falch o'r record wych honno o leihau risg ac achub bywydau. Yn wir, fel sydd wedi bod yn amlwg drwy gydol fy rhan yn yr ymgyrch i achub yr ail beiriant yng ngorsaf dân Cwmbrân, mae pobl yn teimlo'n gryf am eu gwasanaeth tân lleol a'r gwaith pwysig iawn y mae'n ei wneud ar ein rhan. Gwn y bydd llawer o fy etholwyr wedi eu siomi o glywed y newyddion ddoe fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r cynigion i gael gwared ar yr ail beiriant yng Nghwbrân fel rhan o'i adolygiad ehangach o'r gwasanaeth tân, ond credaf y gallwn deimlo rhywfaint o galonddid o'r ffaith y bydd ail lefel o graffu lleol yn digwydd a'r penderfyniad terfynol yn cael ei ohirio tan fis Medi, yn rhannol yn sgil ymchwydd enfawr o bryder ynghylch y cynlluniau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

While there is not the time for me today to list the numerous concerns over the Cwmbran proposals, in many ways I think that the sheer size of the public response to the consultation speaks for itself, with a petition that collected more than 3,000 signatures, 2,886 consultation questionnaires completed, and 96% of respondents opposed to the proposals. This is clearly an issue that local people feel really strongly about.

Indeed, I know that my colleague, Alun Davies, who has on many occasions expressed his own concerns around proposals for the closure of Blaenau fire station in his own constituency, shares my concerns about the impact of the fire cover review on his constituency of Blaenau Gwent.

While I think that everyone recognises the incredible spending pressures facing the public sector across the board in these times, the fact that we could be losing a much-valued local service in Cwmbran makes it all the more frustrating to think of scarce resources being needlessly wasted because of the totally thoughtless actions of those who go out of their way to start fires deliberately.

An article in the 'South Wales Argus' over the weekend put the total cost of grass fires in the Gwent area alone at £150,000 just in the period since the beginning of March this year. Given that the projected savings from removing the second appliance at Cwmbran are said to be in the region of £168,000 a year, you do not need a degree in economics to see that we could be saving jobs and sustaining an increased level of cover in our communities were it not for the actions of these mindless idiots, leaving aside the tremendous damage that they do to our countryside and our wildlife, as well as the serious risk that these fires can pose to human life and limb when they get out of control. As the head of risk reduction at the South Wales Fire and Rescue Service put it recently, quite simply, this has to stop.

Er nad oes amser heddiw i mi restru'r pryderon niferus ynghylch cynigion Cwmbrân, mewn sawl ffordd rwyf yn credu bod graddfa ymateb y cyhoedd i'r ymgynghoriad yn dweud cyfrolau; casglwyd dros 3,000 o lofnodion ar ddeiseb, llanwyd 2,886 o holiaduron ymgynghori, ac roedd 96% o'r atebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion. Mae hwn yn amlwg yn fater y mae pobl leol yn teimlo'n gryf iawn amdano.

Yn wir, gwn fod fy nghyd-Aelod, Alun Davies, sydd hefyd wedi mynegi ei bryderon ar sawl achlysur ynghylch cynigion i gau gorsaf dân Blaenau yn ei etholaeth ef, yn rhannu fy mhryderon ynghylch effaith yr adolygiad o'r gwasanaeth tân ar ei etholaeth ym Mlaenau Gwent.

Er fy mod yn credu bod pawb yn cydnabod y pwysau gwariant anhygoel sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'r ffaith y gallem fod yn colli gwasanaeth lleol a werthfawrogir yn fawr yng Nghwmbrân yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy rhwystredig meddwl am wastraffu adnoddau prin yn ddiangen oherwydd gweithredoedd hollol ddifeddwl pobl sy'n mynd allan o'u ffordd i ddechrau tanau'n fwriadol.

Roedd erthygl yn y 'South Wales Argus' dros y penwythnos yn dweud bod tanau glaswellt yn ardal Gwent yn unig wedi costio cyfanswm o £150,000, a hynny ers dechrau mis Mawrth eleni. Ac ystyried bod disgwyl arbed tua £168,000 y flwyddyn o gael gwared ar yr ail beiriant yng Nghwmbrân, nid oes angen gradd mewn economeg arnoch i weld y gallem fod yn arbed swyddi ac yn cynnig gwell gwasanaeth yn ein cymunedau oni bai am weithredoedd y ffyliaid difeddwl hyn, heb sôn am y difrod aruthrol y maent yn ei wneud i'n cefn gwlad a'n bywyd gwyllt, yn ogystal â'r risg ddifrifol y gall y tanau hyn ei pheri i fywydau ac iechyd pobl pan fyddant yn mynd allan o reolaeth. Fel y dywedodd pennaeth lleihau risg Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ddiweddar, yn syml iawn, mae'n rhaid i hyn stopio.

15:27

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for bringing forward this debate today. I know only too well the tough challenges that face services in my part of mid Wales, and that service authorities also want a full and frank debate with the Government and with the public on what sort of future they want to see for our fire and rescue services. My concerns here are the same as those I have continually raised with regard to other aspects of public service delivery in Wales, that is, about rurality and that being properly factored into the strategic planning and budgeting of our fire and rescue services.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Gwn yn iawn am yr heriau anodd sy'n wynebu gwasanaethau yn fy rhan i o'r canolbarth, a bod ar awdurdodau gwasanaeth hefyd eisiau trafodaeth lawn ac agored â'r Llywodraeth ac â'r cyhoedd am ba fath o ddyfodol yr hoffent ei weld i'n gwasanaethau tân ac achub. Mae fy mhryderon yma yr un rhai ag yr wyf wedi'u codi dro ar ôl tro o ran agweddau eraill ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, hynny yw, ynghylch natur wledig ac ystyried hynny'n briodol wrth wneud gwaith cynllunio a chyllidebu strategol ein gwasanaethau tân ac achub.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to focus my short contribution on the Mid and West Wales Fire and Rescue Service, which covers an extensive area of Wales, protecting 829,000 people in very rural areas. It is right to say that the service has been extremely successful. Looking at its performance over the past decade, there has been a 51% fall in all fires attended by the service, and, over the same period, there has also been a 73% fall in fire-related injuries, and a 74% fall in hoax calls. Similar downward trends have also been seen in fire-related deaths and deliberate fires. So, the investment in community safety and prevention has worked, and has no doubt saved hundreds of lives.

Of course, like any public service in Wales, it has not been immune to budget reductions. To be fair to the service, I believe that it is trying hard and has taken the necessary steps to reduce its costs and bridge the gap in its budgets while trying to maintain service levels. However, these measures are not sustainable in the long term, particularly the use of financial reserves. The Welsh Government must recognise that if the success is not to be undone.

I believe that the Welsh Government must re-examine, as a matter of urgency, the funding formula of service authorities, because I do not believe that it properly reflects and takes into account rurality. The convention of mid and west Wales is to make its budget mirror the average revenue support grant that its constituent local authorities receive. So, for 2014-15, this would mean a budget cut of £2.7 million, that is, 3%. The point that I continually make is that delivering public services in rural areas comes at a higher cost. Where budget cuts threaten the continuation of a service, rural areas are disproportionately affected.

I just want to make a point about a joined-up approach. The recently proposed closure of Montgomery fire station did not, I believe, make much sense because of the vital strategic importance of the station. It not only provides fire and rescue services for mid Wales and the borders, but it also houses a co-responder unit, which is a critical service for the whole northern Powys area. With residents in Powys already concerned about ambulance response times, any uncertainty about the future of this unit just increases anxiety.

The last point that I want to make—and I hope that the Minister will respond to this particular point—is about how to overcome issues related to retained recruitment and retention. I understand from conversations locally that a very difficult issue to overcome at the moment is how we make it attractive for employers to release their staff for fire calls. I expect that this is an issue particularly for large employers, and for small business owners, in having to allow staff to be released at only a few minutes' notice, if staff are on call. I would be interested to know whether the Minister is aware of this issue, and to know how employers can perhaps be incentivised to allow their employees to become retained firefighters. I would emphasise that I think that this is a growing problem, which does need addressing.

Rwyf am ganolbwyntio yn fy nghyfraniad byr ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cwmpasu ardal helaeth o Gymru, ac yn diogelu 829,000 o bobl mewn ardaloedd gwledig iawn. Mae'n deg dweud bod y gwasanaeth wedi bod yn hynod lwyddiannus. Wrth edrych ar ei berfformiad dros y degawd diwethaf, bu'r gwasanaeth mewn 51% yn llai o danau, ac, yn yr un cyfnod, bu 73% yn llai o anafiadau cysylltiedig â thân hefyd, a 74% yn llai o alwadau ffug. Mae tueddiadau tebyg tuag i lawr hefyd wedi eu gweld mewn marwolaethau cysylltiedig â thân a thanau bwriadol. Felly, mae'r buddsoddiad mewn diogelwch cymunedol a gwaith atal wedi gweithio, ac mae'n ddiaid wedi achub cannoedd o fywydau.

Wrth gwrs, fel unrhyw wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, nid yw wedi bod yn ddiogel rhag gostyngiadau i'r gyllideb. A bod yn deg â'r gwasanaeth, credaf ei fod yn ymdrechu'n galed a'i fod wedi cymryd y camau angenrheidiol i leihau ei gostau a phontio'r bwlch yn ei gyllidebau, a cheisio cynnal lefelau gwasanaeth ar yr un pryd. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir, yn enwedig o ran defnyddio arian wrth gefn. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod hynny er mwyn osgoi dadwneud y llwyddiant.

Credaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru edrych eto, ar fyrder, ar fformiwla ariannu awdurdodau gwasanaeth, oherwydd nid wyf yn credu ei bod yn adlewyrchu nac yn ystyried ardaloedd gwledig yn briodol. Confensiwn y canolbarth a'r gorllewin yw gwneud i'w cyllideb adlewyrchu'r grant cynnal refeniw cyfartalog y mae eu hawdurdodau lleol cyfansoddol yn ei dderbyn. Felly, ar gyfer 2014-15, byddai hyn yn golygu toriad yn y gyllideb o £2.7 miliwn, sef 3%. Y pwynt yr wyf yn ei wneud dro ar ôl tro yw bod darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn costio mwy. Lle mae toriadau cyllidebol yn bygwth parhad gwasanaeth, mae hynny'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd gwledig.

Hoffwn wneud pwynt am ymagwedd gydgysylltiedig. Nid oedd y cynnig diweddar i gau gorsaf dân Trefaldwyn, yn fy marn i, yn gwneud llawer o synnwyr oherwydd pwysigrwydd strategol hanfodol yr orsaf. Yn ogystal â darparu gwasanaethau tân ac achub i'r canolbarth a'r gororau, mae hefyd yn gartref i uned cyd-ymatebwyr, sy'n wasanaeth hanfodol i ardal gogledd Powys gyfan. Mae trigolion Powys eisoes yn bryderus am amseroedd ymateb ambiwlansys, ac ni wnaiff ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr uned hon ddim ond cynyddu eu pryder.

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei wneud—ac rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog ymateb i'r pwynt penodol hwn—yn ymwneud â sut i oresgyn materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw diffoddwyr tân wrth gefn. Rwyf yn deall o sgysiau lleol mai un mater sy'n anodd iawn ei oresgyn ar hyn o bryd yw sut i'w gwneud yn ddeniadol i gyflogwyr ryddhau eu staff ar gyfer galwadau tân. Mae'n siŵr bod hwn yn fater arbennig o bwysig i gyflogwyr mawr, ac i berchnogion busnesau bach, o ran gorfod caniatáu i staff gael eu rhyddhau â rhai munudau'n unig o rybudd, os ydynt ar alwad. Byddai'n dda gennyf gael gwybod a yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r mater hwn, a chael gwybod sut y gellir cymell cyflogwyr efallai i ganiatáu i'w gweithwyr fod yn ddiffoddwyr tân wrth gefn. Hoffwn bwysleisio fy mod yn meddwl bod y broblem hon ar gynnydd, a bod angen rhoi sylw iddi.

Rwyf i hefyd yn falch o gyfrannu heddiw. Hoffwn roi fy nioch i'r dynion a'r menywod yn ein gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru.

Fel elfennau allweddol o'r 'blue-light service', mae ein gwasanaethau yn chwarae rôl ddeuol, mewn sefyllfaoedd o argyfwng ac mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai o argyfwng. Nid yw ein rhyngweithiadau yn digwydd bob tro ar ddiwedd y ffôn yn yr ystafell reoli 999. Mae'r gwasanaethau wedi bod yn flaengar iawn wrth gymryd eu gwaith at galon cymunedau: 'checks' diogelwch tân yn y cartref, ymweliadau a gwybodaeth. Dyna rai o'r pethau sydd ar gael i'm hetholwyr i, ac i bobl ar draws Cymru gyfan. Esiampl wych o hyn yw digwyddiad diweddar a gynhaliws yng nghanol tref Llanelli ar baratoi ar gyfer y gaeaf. Bu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n bresennol ar y dydd yn cynnig cymorth a 'checks' blancedi electrïg yn rhad ac am ddim.

Mae cylch gwaith fforwm Station Road, sef fforwm yr wyf yn ei gadeirio, yn cynnwys cynrychiolaeth gan y gwasanaeth tân. Yn ein cyfarfod diwethaf, clywais ragor am y tasglu cymunedol sydd ganddo, a ddyluniwyd i hyrwyddo cymunedau mwy diogel. Rhan allweddol o'i waith yw ceisio lleihau'r nifer o alwadau. Mae'r strategaeth gyflawni hon yn cynnwys gweithredu 'checks' diogelwch yn y cartref, a'r gosodiadau sy'n mynd law yn llaw â hynny. Mae'r cylch gwaith yn ymestyn yn addysgol i leihau tipio anghyfreithlon a damweiniau ar y ffordd. Yn sylweddol, fel rhan o'i adnewyddu, bydd ystafell gymunedol ar gael yn rhad ac am ddim i grwpiau cymunedol. Rwy'n croesawu'r arwydd hwn o weithredu eang sydd y tu ôl i'r amcan.

Mae ein gwaith yma yng Nghymru gyda'r gwasanaethau tân ac achub yn cynnwys esiamplau gweithredol o strategaethau a mentrau diogelwch ffyrdd a chymunedol. Ers imi gael fy ethol, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweld sawl newid. Rwyf wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'r broses a'r digwyddiadau o'u cwmpas, gan gychwyn â phrotest yn Llanelli yn erbyn y toriadau arfaethedig ar y pryd gan Lywodraeth San Steffan. Cyflwynais ddeiseb gan y papur lleol i'r prif swyddog tân, ac roeddwn yn glir iawn am y gwaith da ac angenrheidiol a wneir gan y gwasanaeth—gwaith nad yw weithiau'n cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Heb ei weithredu cyflym rai blynyddoedd yn ôl, byddem wedi colli popeth wedi tân yn fy nghartref.

Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar wedi sôn am niferoedd uchel o gwynion a gweithdrefnau disgyblu yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Mae dros 100 wedi cwyno: bu 56 o weithdrefnau diogelwch a disgyblu a 49 o gwynion. Hefyd, heddiw, gweler adroddiadau bod y prif swyddog tân am orffen â swm ariannol hael o £67,000. Mae'n gorffen ddydd Llun nesaf, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn gwybod am hyn nes cael y papurau ddiwedd yr wythnos diwethaf. Mae hwn yn bwynt a gaiff ei gynnwys yn adroddiad comisiwn Williams, sef y lefel o graffu ar wasanaethau, ac atebolrwydd y prif swyddogion.

I am pleased to contribute today. I would like to express my thanks to the men and women in our fire and rescue services the length and breadth of Wales.

As key components of the blue-light service, our services play a dual role in crisis and non-crisis situations. It is not always at the end of the phone at the 999 control room that our interactions take place. The services have been very innovative in taking their work to the heart of communities: home fire safety checks, premises visits and safety literature. Those are just some of the services offered to my constituents and to people across Wales. A great example of this is a recent event that I held in Llanelli town centre on getting ready for winter. The Mid and West Wales Fire and Rescue Service was in attendance on the day giving advice and offering free electric-blanket tests.

The local remit of the Station Road forum, which I chair, includes representation from the fire service. At our latest meeting, I heard more about its community task force, designed for promoting safer communities. A crucial part of its work is to try to reduce the number of calls. This delivery strategy includes carrying out home safety checks and the installations that go hand-in-hand with that. The remit extends educationally to reduce fly-tipping instances and road traffic accidents. Crucially, as part of the refurbishment, a community room will be made available free of charge to local groups. I welcome this demonstration of wide-ranging implementation that is behind this aim.

Our work in Wales with the fire and rescue services includes working examples of road and community safety strategies and initiatives. Since my election, the Mid and West Wales Fire and Rescue Service has seen a number of changes. I have been actively involved in the process and events around these, starting with a protest in Llanelli against the proposed cutbacks at the time from the Westminster Government. I handed over a local petition by a local paper to the chief fire officer, and I was very clear about the admirable and essential work that is carried out by the service—work that is often not fully appreciated. Without its rapid action a few years ago I would have lost everything after a fire broke out in my home.

However, recent reports have demonstrated high numbers of complaints and disciplinary procedures in mid and west Wales. There have been over 100 complaints: 56 disciplinary and safety actions and 49 complaints. In addition, today we have seen reports that the chief fire officer is to step down with a generous sum of £67,000. He will conclude his work next Monday, but most members were not aware of this until they received the papers at the end of last week. This point is included in the Williams commission report, which is the level of scrutiny of services, and the accountability of chief officers.

15:34

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Keith, roeddech yn sôn yn y fan honno am y ffaith bod y prif swyddog tân ar gyfer y canolbarth a'r gorllewin yn gadael ei waith ddydd Llun nesaf. A ydych yn gweld hwn fel cyfle i sicrhau ein bod ni yn gallu arbed o leiaf un swydd, o ran y swyddogion hŷn, er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth ei hunan yn hytrach nag ar gyflogau mawr i uwch-swyddogion?

Keith, you mentioned there the fact that the chief fire officer for mid and west Wales will be quitting his job next Monday. Do you see this as an opportunity to ensure that we can save the cost of at least on post, among the senior officers, in order to ensure that that money is invested in the service itself, rather than in huge salaries for senior officers?

15:35

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n derbyn y pwynt, ond, wrth gwrs, beth yr wyf yn cwyno amdano yw bod y person yn cael bron i £70,000. Mae ef wedi gorffen unwaith ac wedi cael ei ail-benodi i'r swydd. Felly, dyna yw'r gwyn sydd gennyf i, ac nad oedd yr aelodau a oedd yn cwrdd ddoe yn gwybod dim am y peth tan ddiwedd y penwythnos diwethaf.

I accept your point, but, of course, what I am complaining about is that that individual is going to receive nearly £70,000. He has actually finished once and has been reappointed to the post. So, that is my complaint, and that the members who met yesterday knew nothing about it until the end of last weekend.

Fel rydym yn gwybod, ffurfiwyd pwyllgor materion cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n cynnwys tri gwasanaeth tân ac achub sy'n dod at ei gilydd at bwrpas gwneud arbedion a darganfod ffyrdd effeithiol o weithio. Yn ganolog i hynny, wrth gwrs, mae cydweithredu. Yn ei le yn barod y mae system o gefnogi mewn canolfan gyfathrebu ar y cyd yn y gogledd, gyda'r canolbarth a'r gorllewin hefyd yn rhannu adeilad gyda Heddlu Dyfed-Powys. Credaf fod lle i fynd â hyn ymhellach eto. Mae angen edrych yn fanwl ar y manteision a ddaw o gydweithredu pellach, megis rhannu arbenigedd a gwybodaeth yn well. Yn amlwg hefyd, mae angen edrych ymhellach ac yn agosach ar sut y gellid gweithio'n effeithiol, heb leihad mewn gwybodaeth leol a staffio.

As we are all aware, a national issues committee has been formed in Wales. It comprises the three fire and rescue services, coming together to achieve financial savings and achieving more effective ways of working. Central to this, of course, is collaboration. In place already is a system of support in a joint communications centre in north Wales, with mid and west Wales also sharing a building with Dyfed-Powys Police. I believe that there is scope to take this further. We need to look in detail at the benefits that emerge from collaboration, such as the better sharing of expertise and information. We will also obviously have to look further and closer at how we can work effectively, without any decrease in local knowledge and staffing.

15:36

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf innau eisiau talu teyrnged i'r gwasanaeth argyfwng a'r gwasanaeth tân. Mae'n gwneud gwaith arwrol ar draws y gogledd ac mae'r cydweithio rhwng y siroedd, a rhwng y siroedd a'r awdurdod tân, wedi bod yn llwyddiannus iawn.

I also want to pay tribute to the fire and rescue service. It carries out heroic acts across north Wales and the collaboration between the counties, and between the counties and the fire authority, has been very successful.

Sector arall sy'n cael ei alw allan yn gyson i helpu'r gwasanaeth tân a'r gwasanaethau argyfwng, ac i arwain weithiau, yw'r timau achub mynydd. Pan mae llifogydd yn digwydd, mae arbenigedd ac offer y timau achub yma yn hollbwysig i gefnogi'r gwasanaethau statudol. Mewn trychinebau ac achosion o bobl ar goll, unwaith eto, mae'r timau yn hollbwysig. Bu cydnabyddiaeth o'r gwaith mawr yn dilyn diflaniad y ferch fach April Jones, a bu timau achub mynydd yn gweithio, un am wythnos gyfan, yn cefnogi'r gwasanaethau statudol, ac yn cymryd pwysau oddi arny'n nhw. Wrth gwrs, pan mae pobl yn mynd ar goll neu yn brifo ar y mynyddoedd, er mai'r heddlu sy'n cydgordio'r gwaith ar ran y gwasanaethau argyfwng, y gwirfoddolwyr hyn sy'n gorfod mentro allan ym mhob tywydd.

Another sector that is called out regularly to support the fire and rescue services, and sometimes to lead, is the mountain rescue teams. When floods occur, the expertise and equipment of these rescue teams are exceptionally important in supporting the statutory services. When there are tragedies and when people are missing, once again, these teams are exceptionally important. There was great recognition of this work following the disappearance of April Jones, and mountain rescue teams worked, one for a whole week, supporting the statutory services, and taking the pressure off those services. Of course, when people go missing or are injured on the mountains, although it is the police that co-ordinates the work on behalf of the emergency services, it is the volunteers who have to venture out in all weather.

Ychydig iawn o gefnogaeth ariannol sy'n dod o du Llywodraeth Cymru i'r timau achub yma. Maent yn gorfod codi y rhan fwyaf o'r arian eu hunain. Ychydig dros £100,000 yw cyfraniad Llywodraeth Cymru—yn yr Alban, mae'r cyfraniad hwnnw yn nes at £0.5 miliwn—er mai timau achub mynydd Llanberis ac Ogwen yw'r rhai prysuraf yn y Deyrnas Unedig. Felly, y cwestiwn sydd gen i i'r Gweinidog yw hwn: a yw'r Llywodraeth yn mynd i gydnabod yn deilwng rôl hanfodol y timau achub, o gofio'u pwysigrwydd wrth gefnogi'r gwasanaethau argyfwng eraill, ac er sicrhau diogelwch y cyhoedd?

Very little financial support comes from the Welsh Government to these rescue teams. They have to raise most of their funding themselves. The Welsh Government contributes something in the order of £100,000—in Scotland, that contribution is closer to £0.5 million—although the Llanberis and Ogwen mountain rescue teams are the busiest in the United Kingdom. So, the question that I want to ask the Minister is this: is the Government going to recognise the vital role of the mountain rescue teams in a worthy manner, bearing in mind their importance in supporting the other emergency services, and in ensuring the safety of the public?

15:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I thank all Members for their contributions. Lynne Neagle made a very good point when she said that we do not have enough debates on this very important emergency service in this place. I was certainly very aware of that when I came into this portfolio. Last summer I visited all 22 local authorities, so I was very pleased to be able to do the same, although there are only three of them, over the Christmas recess.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau. Gwnaeth Lynne Neagle bwynt da iawn pan ddywedodd nad ydym yn cael digon o ddadleuon yma am y gwasanaeth brys pwysig iawn hwn. Roeddwn yn sicr yn ymwybodol iawn o hynny pan ddeuthum i mewn i'r portffolio hwn. Yr haf diwethaf, bûm yn ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol, felly roeddwn yn falch iawn o allu gwneud yr un peth, er mai dim ond tri ohonynt sydd, yn ystod toriad y Nadolig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We have had a very good debate. Rhodri Glyn Thomas is absolutely right that there is cross-party support in the Chamber for the fire and rescue authorities. I did actually say in my opening remarks that I was going to support all six amendments. I will just turn to Members' comments. Of course, Mark Isherwood is right and I absolutely support the campaign that Huw Jakeway has started, We Can't Protect You While We Are Under Attack. I think that somebody else mentioned that, in south Wales alone, there has been a 16% increase in the number of attacks in the last two years, and that is absolutely unacceptable.

Rydym wedi cael dadl dda iawn. Mae Rhodri Glyn Thomas yn gwbl gywir fod cefnogaeth drawsbleidiol yn y Siambr i'r awdurdodau tân ac achub. Dywedais yn fy sylwadau agoriadol fy mod yn bwriadu cefnogi pob un o'r chwe gwelliant. Rwyf am droi at sylwadau'r Aelodau. Wrth gwrs, mae Mark Isherwood yn iawn ac rwyf yn cefnogi'n gryf yr ymgyrch y mae Huw Jakeway wedi'i dechrau, Ni Fedrwn Eich Amddiffyn Wrth i Ni Fod o Dan Ymosodiad. Rwyf yn meddwl bod rhywun arall wedi dweud y bu 16% yn fwy o ymosodiadau yn y de'n unig yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol.

You also highlighted the excellent work that has been undertaken to reduce the number of fires. I mentioned in my opening remarks that robust evaluation will be undertaken throughout 2014 to have a look at the programmes that we support and the decisions that come out of that evaluation will then really make sure that any future investment is absolutely targeted in the right place. Mark Isherwood failed to recognise Ann Jones's groundbreaking legislation, but I very much recognise it, and we know that when it comes in it will save lives.

Soniasoch hefyd am y gwaith rhagorol sydd wedi ei wneud i leihau nifer y tanau. Dywedais yn fy sylwadau agoriadol y bydd gwaith gwerthuso cadarn yn digwydd drwy gydol 2014 i edrych ar y rhaglenni yr ydym yn eu cefnogi ac yna bydd y penderfyniadau a fydd yn deillio o'r gwerthusiad hwnnw'n gwneud yn siŵr bod unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol wedi'i dargedu yn y lle iawn. Methodd Mark Isherwood â chydabod deddfwriaeth arloesol Ann Jones, ond rwyf fi'n sicr yn ei chydabod, ac rydym yn gwybod y bydd yn achub bywydau ar ôl iddi gael ei chyflwyno.

Rhodri Glyn Thomas also referred to the whole range of work that fire and rescue authorities undertake. He mentioned flooding, and there is not a statutory responsibility, as he said, for the fire and rescue services in relation to flooding. However, I do not think that that is required, as long as there is clarity of purpose and guidance to enable firefighters to undertake this work.

Cyfeiriodd Rhodri Glyn Thomas hefyd at yr ystod gyfan o waith y mae awdurdodau tân ac achub yn ei wneud. Soniodd am lifogydd, ac nid oes cyfrifoldeb statudol, fel y dywedodd, ar y gwasanaethau tân ac achub o ran llifogydd. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod angen hynny, cyn belled â bod pwrpas eglur a chanllawiau i alluogi diffoddwyr tân i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Peter Black referred to the preventative work and the number of domestic fires—we have seen a huge drop in those. Again, he mentioned the work undertaken in our most deprived communities, and with some of our most vulnerable citizens. I was not surprised, and neither would any Member be, to learn from firefighters that, when they visit these individuals, they are often known to many of the other organisations that look after vulnerable members of the community.

Peter Black referred to the issue of carbon monoxide, and I mentioned in my opening remarks that I have just given £10,000 this week, during UK Home Safety Week, for carbon monoxide checks to be undertaken. Obviously, we have had smoke detectors—we have had that work—and I do think that the next natural things to have are carbon monoxide detectors. This is just a one-off payment for this week, but we will have to see whether we can continue that in due course.

You mentioned the value that local residents place on their local fire station. I had not been in this post long when I opened the new fire station at Llandrindod Wells. I spoke to some residents—Members who know the area will know that it is very much a residential area—and they stated their support, not just for the building, but also for the firefighters.

Lynne Neagle referred to the success stories, and the huge drop in the number of fatalities that we have seen—37%. You are absolutely right that fire and rescue service personnel should be proud of themselves, and I know that we all are proud of them, too.

There are difficult decisions to be made. It is up to fire and rescue authorities as autonomous bodies to make sure that they provide the cover for their local populations. I think that their focus on doing more preventative work and educational work must continue. I mentioned the Phoenix project in my opening remarks, and when I went to see it, the young people were so enthusiastic and so disciplined. I went on a Thursday—they are there for five days—but they said that if I had gone on a Monday, I may have seen a very different picture. The self-esteem and self-confidence that these people had, just in four days on this course, was very clear to see.

Russell George spoke about the debate that is needed. I meet with the chief fire officers and chairs of the FRAs regularly. I know that they are looking at how they can reduce their costs, and how they can make the most of scarce resources, but we need to make our services more sustainable. A review of the funding formula is one of the recommendations in the report that I referred to in my opening comments. I also mentioned that I will be taking all of the recommendations through. I think that it was looking at the complexities around funding, structures and systems.

I do not actually recognise your comments regarding retained firefighters. Mid and west Wales in particular has been very successful in both recruiting and retaining retained firefighters.

Cyfeiriodd Peter Black at y gwaith ataliol ac at nifer y tanau yn y cartref—rydym wedi gweld gostyngiad aruthrol yn y rheini. Unwaith eto, soniodd am y gwaith a wnaethpwyd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a chyda rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Nid oeddwn yn synnu, ac ni fyddai unrhyw un o'r Aelodau ychwaith, pan glywais gan ddiffoddwyr tân, pan fyddant yn ymweld â'r unigolion hyn, fod llawer o'r sefydliadau eraill sy'n gofalu am aelodau agored i niwed yn y gymuned yn gwybod amdanynt.

Cyfeiriodd Peter Black at garbon monocsid, a soniais innau yn fy sylwadau agoriadol fy mod newydd roi £10,000 yr wythnos hon, yn ystod Wythnos Diogelwch yn y Cartref y DU, i gynnal archwiliadau carbon monocsid. Yn amlwg, cawsom synwryddion mwg—rydym wedi cael y gwaith hwnnw—ac rwyf yn meddwl mai'r pethau naturiol nesaf i'w cael yw synwryddion carbon monocsid. Dim ond taliad untro yw hwn ar gyfer yr wythnos hon, ond bydd yn rhaid inni weld a allwn barhau â hynny maes o law.

Soniasoch am werth gorsafoedd tân lleol i drigolion lleol. Nid oeddwn wedi bod yn y swydd hon am yn hir pan agorais yr orsaf dân newydd yn Llandrindod. Siaredais â rhai trigolion—bydd Aelodau sy'n adnabod yr ardal yn gwybod mai ardal breswyl ydyw—a rhoddasant eu cefnogaeth, nid yn unig i'r adeilad, ond hefyd i'r diffoddwyr tân.

Cyfeiriodd Lynne Neagle at y llwyddiannau, a'r gostyngiad enfawr yn nifer y marwolaethau yr ydym wedi'u gweld—37%. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud y dylai personél y gwasanaeth tân ac achub fod yn falch ohonynt eu hunain, a gwn ein bod ninnau i gyd yn falch ohonynt.

Rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mater i awdurdodau tân ac achub fel cyrff ymreolaethol yw gwneud yn siŵr eu bod yn cynnig y gwasanaeth i'w poblogaethau lleol. Rwyf yn meddwl bod yn rhaid i'w pwyslais ar wneud mwy o waith ataliol a gwaith addysgiadol barhau. Soniais am y prosiect Phoenix yn fy sylwadau agoriadol, a phan euthum i'w weld, roedd y bobl ifanc mor frwdfrydig ac mor ddisgybledig. Euthum ar ddydd Iau—maent yno am bum niwrnod—ond dywedasant y gallwn fod wedi gweld darlun gwahanol iawn pe bawn wedi mynd ar ddydd Llun. Roedd yr hunan-barch a'r hunanhyder yr oedd y bobl hyn wedi'u meithrin, mewn dim ond pedwar diwrnod ar y cwrs hwn, yn amlwg iawn i'w gweld.

Soniodd Russell George am y drafodaeth sydd ei hangen. Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â'r prif swyddogion tân a chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub. Gwn eu bod yn edrych ar sut y gallant leihau eu costau, a sut y gallant wneud y gorau o adnoddau prin, ond mae angen inni wneud ein gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Mae adolygiad o'r fformiwla ariannu'n un o'r argymhellion yn yr adroddiad y cyfeiriais atynt yn fy sylwadau agoriadol. Dywedais hefyd y byddaf yn bwrw ymlaen â'r holl argymhellion. Rwyf yn meddwl mai mater o edrych ar y cymhlethodau o ran ariannu, strwythurau a systemau ydoedd.

Nid wyf yn cydnabod eich sylwadau am ddiffoddwyr tân wrth gefn. Mae'r canolbarth a'r gorllewin wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran recriwtio a chadw diffoddwyr tân wrth gefn.

Keith Davies referred to the work that is undertaken regarding road traffic collision. Again, I have seen some of the schemes, which are very hard-hitting and powerful, and have done a great deal, particularly with young people and new drivers, in this area.

Cyfeiriodd Keith Davies at y gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Unwaith eto, rwyf wedi gweld rhai o'r cynlluniau, sy'n rhai caled a phwerus iawn, ac sydd wedi gwneud llawer iawn, yn enwedig gyda phobl ifanc a gyrwyr newydd, yn y maes hwn.

Alun Ffred Jones referred to the mountain rescue service, and I think it was just last week in the Chamber that I mentioned that I had met it when I went to meet all of the organisations that have been involved in the flooding operations up in north Wales. I am not aware that it has asked us for any funding. You will be aware that my budget is shrinking, unfortunately, not enlarging, but, certainly, if it asks me for funding, I will certainly look at it, because I know of the great work that it does in that area.

Cyfeiriodd Alun Ffred Jones at y gwasanaeth achub mynydd, ac rwyf yn meddwl mai dim ond yr wythnos diwethaf yn y Siambr y dywedais fy mod wedi cwrdd â hwy pan euthum i gwrdd â phob un o'r sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith llifogydd i fyny yn y gogledd. Nid wyf yn ymwybodol ei fod wedi gofyn inni am gyllid. Byddwch yn ymwybodol bod fy nghyllideb yn crebachu, yn anffodus, nid yn ehangu, ond, yn sicr, os bydd yn gofyn imi am gyllid, byddaf yn sicr yn edrych ar hynny, oherwydd gwn am y gwaith gwych y mae'n ei wneud yn yr ardal honno.

In conclusion, it has been a very good debate. Everyone in the Chamber recognises the wonderful work that our fire and rescue service personnel do, and I am very grateful to Members for their contributions today.

I gloi, mae wedi bod yn ddadl dda iawn. Mae pawb yn y Siambr yn cydnabod y gwaith gwych y mae personél ein gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud, ac rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all further voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n Ymwneud â Thai

The following amendments have been selected: amendments 1 and 4 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Paul Davies and amendment 3 in the name of Elin Jones.

Tackling Housing Related Anti-Social Behaviour

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 4 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Housing and Regeneration to move the motion—Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5475 Lesley Griffiths

Motion NDM5475 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a'u lles;

1. Recognises the negative impact that housing related anti-social behaviour can have on people and on their health and well-being;

2. Yn nodi canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru 'Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review' fel sail ar gyfer gweithredu pellach; a

2. Notes the findings of the Welsh Government's research 'Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review' as a foundation for further action; and

3. Yn galw ar sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai.

3. Calls on relevant public and third sector organisations to work together more effectively to address housing related anti-social behaviour.

15:46

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig.

I am pleased to open today's debate. Anti-social behaviour affects people's wellbeing and quality of life and is unacceptable in all forms. Today's debate allows me to update you on work already undertaken and planned by Welsh Government to tackle anti-social behaviour.

Rwy'n falch o agor y ddadl heddiw. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar les ac ansawdd bywyd pobl ac mae'n annerbyniol ym mhob ffurf. Mae'r ddadl heddiw yn caniatáu i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud eisoes ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

I am committed to doing more to tackle housing-related anti-social behaviour. I want to work with housing associations to achieve a better and more consistent approach to preventing and responding to this issue. I want to take this opportunity to reaffirm what I said in our 2012 housing White Paper. The housing Bill I introduced into the Assembly in November 2013 is currently going through the scrutiny process. Among its proposals is the introduction of a mandatory registration and accreditation scheme for private landlords and letting agents. That will take into account matters relating to anti-social behaviour in the private rented sector. My renting homes Bill, which I am due to introduce into the Assembly in 2015, will also include measures to tackle anti-social behaviour and domestic abuse.

Rwyf wedi ymrwymo i wneud mwy i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai. Rwyf am weithio gyda chymdeithasau tai i sicrhau dull gwell a mwy cyson i atal ac ymateb i'r mater hwn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gadarnhau'r hyn a ddywedais yn ein Papur Gwyn yn ymwneud â thai yn 2012. Mae'r Bil Tai a gyflwynais i'r Cynulliad ym mis Tachwedd 2013 ar hyn o bryd yn mynd trwy'r broses graffu. Ymhlith pethau eraill, mae'n cynnig cyflwyno cynllun cofrestru ac achredu gorffodol ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantau gosod tai. Bydd hwnnw'n ystyried materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sector rhentu preifat. Bydd fy Mil rhentu cartrefi, yr wyf yn bwriadu ei gyflwyno i'r Cynulliad yn 2015, hefyd yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

With regard to the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014, we are party to the UK Government's commitment to introduce more measures to tackle anti-social behaviour and the wider context of the reforms to the policing and criminal justice framework. New powers will be introduced in Wales as part of the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Act 2014. The Bill became an Act on 14 March of this year. My officials have been working with the Home Office over the past two years to ensure that the proposals will work for Wales. Although policing and crime are non-devolved matters, I am keen to build collaborative responsibilities and relationships with our police and crime commissioners. I cannot stress enough how important it is for housing providers to work closely with the police and ensure that their policies and practices are clearly aligned. The findings of the recent review of anti-social behaviour policy and practice I commissioned call for more effective joint working and information sharing.

I recently visited social landlords in several areas, such as Flintshire council and Bron Afon community housing. This enabled me to talk face-to-face with victims of anti-social behaviour and witness some of the more successful programmes and projects that have been introduced by authorities to tackle anti-social actions.

I would also like to take the opportunity to highlight the linkages between anti-social behaviour, our Supporting People programme and the ending violence against women and domestic abuse Bill. The Supporting People programme helps more than 50,000 people a year to live as independently as they can. Nearly 10% of the £136 million-budget is spent on people with community safety-related needs, and over £10 million is invested in services that meet the needs of people experiencing domestic violence. I have been working with my Cabinet colleague Lesley Griffiths to ensure that our portfolios make the links between anti-social behaviour and domestic violence.

A very stark statistic is that two women in England and Wales will lose their lives because of domestic abuse every single week. We must collectively work together to ensure that we stop this.

Looking ahead, I am particularly interested to understand how social landlords deal with and can improve tackling ASB. In February, the Welsh Government sponsored a very successful conference called Safer Communities. Almost 200 practitioners working in the fields of anti-social behaviour and domestic violence attended to hear a range of excellent speakers. We have followed up on the conference to see what impact it had. One housing association member has come back to me and said, and I quote:

O ran Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014, mae gennym ran yn ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflwyno mwy o fesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyd-destun ehangach y diwygiadau i'r fframwaith plisma a chyfiawnder troseddol. Bydd pwerau newydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru fel rhan o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014. Daeth y Bil yn Ddeddf ar 14 Mawrth eleni. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i sicrhau y bydd y cynigion yn gweithio dros Gymru. Er nad yw plisma a throsedd yn faterion sydd wedi'u datganoli, rwy'n awyddus i ddatblygu cyfrifoldebau ar y cyd a pherthynas â'n comisiynwyr heddlu a throseddu. Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw hi i ddarparwyr tai weithio'n agos gyda'r heddlu a sicrhau bod eu polisiâu a'u harferion yn cyd-fynd yn glir. Mae canfyddiadau'r adolygiad a gomisiynais yn ddiweddar ar bolisi ac ymarfer ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol yn galw am gydweithio a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol.

Bûm yn ymweld â landlordiaid cymdeithasol mewn sawl ardal yn ddiweddar, megis cyngor Sir y Fflint a thair cymunedol Bron Afon. Fe wnaeth hyn fy ngalluogi i siarad wyneb yn wyneb gyda phobl sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn dyst i rai o'r rhaglenni a phrosiectau mwyaf llwyddiannus a gyflwynwyd gan awdurdodau i fynd i'r afael â gweithredoedd gwrthgymdeithasol.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol, ein rhaglen Cefnogi Pobl a'r Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu mwy na 50,000 o bobl y flwyddyn i fyw mor annibynnol ag y gallant. Mae bron i 10% o'r gyllideb o £136 miliwn yn cael ei wario ar bobl ag anghenion sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol, a thros £10 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl sy'n dioddef trais domestig. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'm cydweithiwr yn y Cabinet Lesley Griffiths i sicrhau bod ein portffolios yn gwneud y cysylltiadau rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

Ystadegyn anghyfforddus iawn yw y bydd dwy fenyw yng Nghymru a Lloegr yn colli eu bywydau oherwydd cam-drin domestig bob wythnos. Rhaid inni gydweithio i sicrhau ein bod yn atal hyn.

Wrth edrych ymlaen, mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn deall sut y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a sut y gallant wella'r dulliau o fynd i'r afael â'r mater. Ym mis Chwefror, noddodd Llywodraeth Cymru gynhadledd lwyddiannus iawn o'r enw Cymunedau Mwy Diogel. Roedd bron i 200 o ymarferwyr sy'n gweithio ym meysydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig yn bresennol i wrando ar amrywiaeth o siaradwyr rhagorol. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar y gynhadledd i weld pa effaith a gafodd. Mae un aelod o'r gymdeithas dai wedi dod yn ôl ataf a dweud, ac rwy'n dyfynnu:

'Following the conference, housing organisations are definitely more positive about understanding that they need to do more—a huge cultural shift. A number have contacted our housing association and asked to visit us to look at what we do and how we do it, in more detail.'

This was a very positive message from the organisations that attended this conference.

The results of the independent research study that I commissioned to review the anti-social behaviour policies of social landlords were launched at the conference. Headline recommendations included ensuring that social landlords' anti-social behaviour policies and procedures focus on prevention, early intervention, multi-agency and partnership working, information sharing, and adopting the twin-tracked approach using enforcement alongside the provision of support for perpetrators. This was all in the document. The steering group for this piece of work demonstrated partnership in practice, involving the police, representatives of community safety partnerships and front-line officers from housing associations and local authorities.

Therefore, a new policy framework for anti-social behaviour will be developed to ensure consistently good approaches across Wales. This will take into account the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014. I am keen to work with our Police Commissioners and their teams, and arrangements are in hand for joint working with the housing sector and the wider community safety partnership network. I would like to pay tribute to south Wales police and crime commissioner, Alun Michael, and deputy police and crime commissioner, Sophie Howe, for their work to tackle the issues around domestic violence across Wales, and in the south Wales area.

We can also build on experience. Our housing management standards have proved helpful in stimulating local action, but our research has identified that it would work better as a self-assessment web-based tool for social landlords to aid continuous improvement. Cross-agency working and better joint working are essential, as I mentioned, to improving our performance in tackling this issue. At the heart of the new approach that I would like to see adopted is a fundamental shift towards focusing on the needs of victims and on a preventative agenda. I have written to social landlords to make clear my expectations of them.

I also expect housing associations and local authorities to have policies in place to prevent and tackle anti-social behaviour, as well as policies on domestic violence for both tenants and staff. I have asked my housing regulation team to consider anti-social behaviour and domestic violence as part of the recently implemented risk-based approach to regulation. I would expect local authorities to take a similar approach. I am grateful for the help of Housing Leadership Cymru, which has set up a series of pilot workshops to help and support this activity.

Yn dilyn y gynhadledd, mae sefydliadau tai yn bendant yn fwy cadarnhaol ynghylch deall bod angen iddynt wneud mwy—newid diwylliannol enfawr. Mae nifer wedi cysylltu â'n cymdeithas dai a gofyn i ymweld â ni i edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud, yn fwy manwl.

Roedd hon yn neges gadarnhaol iawn gan y sefydliadau a ddaeth i'r gynhadledd hon.

Yn y gynhadledd, lanswyd canlyniadau'r astudiaeth ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gennyf i adolygu polisiau landlordiaid cymdeithasol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y prif argymhellion yn cynnwys sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau landlordiaid cymdeithasol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar, gweithio amlasiantaethol ac mewn partneriaeth, rhannu gwybodaeth, a mabwysiadu ymdriniaeth ddeublyg gan ddefnyddio gorfodaeth ochr yn ochr â darparu cymorth i'r rhai sy'n gyfrifol. Roedd hyn i gyd yn y ddogfen. Roedd y grŵp llywio ar gyfer y darn hwn o waith yn enghraifft ymarferol o bartneriaeth, gan ei fod yn cynnwys yr heddlu, cynrychiolwyr o bartneriaethau diogelwch cymunedol a swyddogion rheng flaen o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol.

Felly, bydd fframwaith polisi newydd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ddatblygu i sicrhau dulliau gwaith cyson dda ar draws Cymru. Bydd hwn yn ystyried Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014. Rwy'n awyddus i weithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a'u timau, ac mae trefniadau ar y gweill ar gyfer gweithio ar y cyd â'r sector tai a rhwydwaith ehangach y partneriaethau diogelwch cymunedol. Hoffwn dalu teyrnged i gomisiynydd heddlu a throseddu de Cymru, Alun Michael, a'r dirprwy gomisiynydd heddlu a throseddu, Sophie Howe, am eu gwaith i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrais domestig ledled Cymru, ac yn ardal de Cymru.

Gallwn hefyd adeiladu ar brofiad. Mae ein safonau rheoli tai wedi bod yn ddefnyddiol o ran ysgogi camau gweithredu lleol, ond mae ein gwaith ymchwil wedi nodi y byddai'n gweithio'n well fel offeryn hunanasesu ar y we ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, er mwyn cynorthwyo gwelliant parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau gwaith traws-asiantaethol a gwell gweithio ar y cyd, fel y soniais, er mwyn mynd i'r afael yn well â'r mater hwn. Wrth wraidd y dull newydd yr hoffwn iddo gael ei fabwysiadu y mae newid sylfaenol tuag at ganolbwyntio ar anghenion dioddefwyr ac ar agenda ataliol. Rwyf wedi ysgrifennu at landlordiaid cymdeithasol i nodi'n eglur beth yw fy nisgwyliaidau.

Rwyf hefyd yn disgwyl i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol fod â pholisiau ar waith i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â pholisiau ar drais domestig ar gyfer tenantiaid a staff. Rwyf wedi gofyn i fy nhim rheoleiddio tai ystyried ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig fel rhan o'r dull seiliedig ar risg o ymddrin â rheoleiddio a roddwyd ar waith yn ddiweddar. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol fabwysiadu agwedd debyg. Rwy'n ddiolchgar am gymorth Arweinyddiaeth Tai Cymru, sydd wedi sefydlu cyfres o weithdai peilot i helpu a chefnogi'r gweithgaredd hwn.

I look forward to the debate today, Presiding Officer, and I am pleased to say that we will be supporting the four tabled amendments to the motion.

Edrychaf ymlaen at y ddadl heddiw, Lywydd, ac rwy'n falch o ddweud y byddwn yn cefnogi'r pedwar gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig.

15:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the four amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn credu bod polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau.

Believes that anti-social behaviour policies and procedures are most effective when focused on early intervention, prevention, and cooperation between agencies.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Yn cydnabod y gorgyffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlisma, ac yn credu y byddai modd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

Recognises the extensive overlap between areas such as housing, anti-social behaviour, community safety and policing, and believes that housing related anti-social behaviour could be more effectively tackled if all these areas were to be devolved.

15:53

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliannau 1 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I welcome the findings of the Welsh Government's research in relation to the anti-social behaviour policy and practice review. It has been very useful in informing this debate, and it will certainly help us in considering further measures that the Minister wishes to bring forward. He indicated that he would bring these forward in the next housing Bill, once the present Bill is out of the way, of course. That is a challenge that we are all facing.

Rwy'n croesawu canfyddiadau gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r adolygiad o bolisi ac ymarfer ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran llywio'r ddadl hon, a bydd yn sicr yn ein helpu i ystyried mesurau ychwanegol y mae'r Gweinidog yn dymuno eu cyflwyno. Awgrymodd y byddai'n cyflwyno'r rhain yn y Bil tai nesaf, pan fydd y Bil presennol o'r ffordd, wrth gwrs. Mae hynny'n her sy'n ein hwynebu i gyd.

The Welsh Liberal Democrats welcome that research, which highlights the importance of promoting good practice in addressing anti-social behaviour issues in social housing. We are moving our amendments today, in the name of Aled Roberts, to reiterate the importance of proactive and preventative measures to address anti-social behaviour in housing, in line with the findings of the report.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r ymchwil hwnnw, sy'n amlygu pa mor bwysig yw hyrwyddo arfer da wrth fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai cymdeithasol. Rydym yn cynnig ein gwelliannau heddiw, yn enw Aled Roberts, i ailadrodd pwysigrwydd mesurau rhagweithiol ac ataliol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai, yn unol â chanfyddiadau'r adroddiad.

In terms of wider crime statistics, it is welcome news that recorded crime is down by more than 10% since June 2010. The crime survey for England and Wales also shows that crime has fallen to its lowest level since records began, over 30 years ago. The report highlights that figures related to incidents of anti-social behaviour recorded by the police for the period 2007-08 to 2010-11 also show a decline consistent with the recent trends in total police-recorded crime. However, we cannot be complacent. Anyone who has dealt with casework around this issue knows that, irrespective of the figures, it is still going on and that you still have to work with tenants who display anti-social behaviour attitudes. The four Welsh police forces recorded a total of 282,524 crimes or incidents of anti-social behaviour between November 2012 and October 2013, of which 40% were anti-social behaviour. Clearly, there is a lot of work still to be done to tackle that figure.

HouseMark estimates that UK social landlords spent £325 million tackling anti-social behaviour in 2011-12. That is a huge sum that could be spent elsewhere. The report highlights that there are limited comprehensive and reliable data on the incidence of anti-social behaviour in Wales. We need to address that so that we can better understand the problem, as knowing the scale of the problem would be helpful indeed.

We strongly believe that early intervention is vital in resolving matters relating to anti-social behaviour. For example, tenants who are entering the rented sector for the first time, such as young adults moving from homeless shelters or care, or those coming out of a more chaotic time in their lives, may not understand the boundaries of acceptable or unacceptable behaviour. Often, support and intervention can resolve these issues and prevent them from escalating further. This encourages behaviour change as opposed to a more punitive approach to those who have overstepped the mark unknowingly.

O ran ystadegau troseddu ehangach, mae'n newyddion da bod troseddau a gofnodwyd wedi gostwng mwy na 10% ers mis Mehefin 2010. Mae'r arolwg troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr hefyd yn dangos bod troseddu wedi gostwng i'w lefel isaf ers i gofnodion ddechrau, dros 30 mlynedd yn ôl. Mae'r adroddiad yn amlygu bod y ffigurau sy'n ymwneud â digwyddiadau a gofnodwyd gan yr heddlu o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer y cyfnod 2007-08 i 2010-11 hefyd yn gostwng mewn modd sy'n gyson â'r tueddiadau diweddar yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon. Dylai unrhyw un sydd wedi ymdrin â gwaith achos ynghylch y mater hwn wybod ei fod yn dal i ddigwydd, beth bynnag fo'r ffigurau, a'ch bod yn dal i orfod gweithio gyda thenantiaid sy'n arddangos agweddau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cofnododd pedwar heddlu Cymru gyfanswm o 282,524 o droseddau neu ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd 40% o'r rhain. Yn amlwg, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r ffigur hwnnw.

Mae HouseMark yn amcangyfrif bod landlordiaid cymdeithasol yn y DU wedi gwario £325 miliwn ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2011-12. Mae hwnnw'n swm enfawr y gellid ei wario ar bethau eraill. Mae'r adroddiad yn amlygu bod y data cynhwysfawr a dibynadwy sydd ar gael ar nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru yn gyfyngedig. Mae angen i ni fynd i'r afael â hynny fel y gallwn ddeall y broblem yn well, gan y byddai'n ddefnyddiol yn wir gwybod maint y broblem.

Rydym yn credu'n gryf bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol i ddatrys materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, efallai na fydd tenantiaid sy'n symud i'r sector rhentu am y tro cyntaf, fel oedolion ifanc yn symud o lochesau digartref neu ofal, neu bobl sy'n dod atynt eu hunain ar ôl cyfnod mwy di-drefn yn eu bywydau, yn deall ffiniau ymddygiad derbynol neu annerbynol. Yn aml, gall cefnogaeth ac ymyrraeth ddatrys y materion hyn a'u hatal rhag gwaethygu ymhellach. Mae hyn yn annog pobl sydd wedi mynd yn rhy bell yn ddiamwybod i newid eu hymddygiad yn hytrach na'u cosbi.

The report states that only 61% of landlords in the HouseMark survey listed early intervention as a key feature of an effective approach to tackling anti-social behaviour. The report was thin on the ground with regard to prevention, where there was confusion among landlords between early intervention and prevention measures. The HouseMark survey did not ask detailed questions about prevention, which is unfortunate, as stopping anti-social behaviour at its source is key. While the report does reference the 2013 study, I think that it could have explored the matter of prevention further. It is also disappointing that although landlords rated restorative justice as one of the three most effective measures available to them in working with tenants, only 14% of landlords use restorative justice methods. Some landlords said that this tool was not in their policy toolkit, while others said that they had no occasion to use it. Restorative justice is much higher on the agenda in Wales, and I would certainly like to see it being used more frequently, particularly in housing matters where anti-social behaviour is a particular problem.

The Welsh Liberal Democrats believe strongly in community co-operation in tackling the issue of anti-social behaviour in social housing, and we would like to see landlords engaged with police and community surgeries as part of that. Sometimes, police surgeries are not available in their areas and, sometimes, landlords consider that there are more effective ways of acquiring relevant information about anti-social behaviour. Some landlords believe that they have no occasion to use a community surgery, and some said that this is not a policy toolkit that is available to them. However, better engagement with the police at that early level will bring quite good results in terms of tackling anti-social behaviour.

Our second amendment relates to the overlap between devolved areas such as health and education with community and crime prevention. This is an issue that has been highlighted by the Silk commission. We believe that there should be a fairer approach based on proactive measures, and I think that giving those policy areas to the Welsh Government will enable the Welsh Government to have more tools to deal with that particular issue. Therefore, we hope that the Government, as the Minister has indicated, can support that amendment, too.

Dywedd yr adroddiad mai dim ond 61% o landlordiaid yn arolwg HouseMark oedd yn rhestru ymyrraeth gynnar fel nodwedd allweddol o ddull effeithiol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid oedd yr adroddiad yn sôn rhyw lawer am ddulliau ataliol, ac roedd dryswch ymhlith landlordiaid rhwng ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol. Nid oedd arolwg HouseMark yn gofyn cwestiynau manwl am ddulliau ataliol, ac mae hynny'n anffodus, gan fod atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei darddle yn allweddol. Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at astudiaeth 2013, rwy'n meddwl y gallai fod wedi edrych mwy ar gamau ataliol. Mae hefyd yn siomedig bod landlordiaid yn ystyried cyfiawnder adferol fel un o'r tri cham mwyaf effeithiol sydd ar gael iddynt wrth weithio gyda thenantiaid, ond mai dim ond 14% o landlordiaid sy'n defnyddio dulliau cyfiawnder adferol. Dywedodd rhai landlordiaid nad oedd y dull hwn oedd yn eu pecyn o bolisiau, a dywedodd eraill nad oeddynt wedi cael rheswm i'w ddefnyddio. Mae cyfiawnder adferol yn llawer uwch ar yr agenda yng Nghymru, a byddwn yn sicr yn hoffi ei weld yn cael ei ddefnyddio'n amlach, yn enwedig mewn materion tai lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem arbennig.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu'n gryf mewn cydweithrediad cymunedol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai cymdeithasol, a byddem yn hoffi gweld landlordiaid yn ymwneud â'r heddlu a chymorthfeydd cymunedol fel rhan o hynny. Weithiau, nid yw cymorthfeydd heddlu ar gael yn eu hardaloedd ac, weithiau, mae landlordiaid yn ystyried bod ffyrdd mwy effeithiol o gael gafael ar wybodaeth berthnasol am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae rhai landlordiaid yn credu nad oes ganddynt reswm achlysur i ddefnyddio cymorthfeydd cymunedol, a dywedodd rhai nad yw hyn yn becyn polisi sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, gellir sicrhau canlyniadau eithaf da o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ymgysylltu'n well â'r heddlu ar y lefel gynnar honno.

Mae ein hail welliant yn ymwneud â'r gorgyffwrdd rhwng meysydd datganoledig fel iechyd ac addysg, a chymuned ac atal trosedd. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei amlygu gan gomisiwn Silk. Credwn y dylid cael dull tecach, seiliedig ar fesurau rhagweithiol, ac rwy'n credu y gellir rhoi mwy o adnoddau i Lywodraeth Cymru ymdrin â'r mater penodol hwnnw trwy roi'r meysydd polisi hynny i Lywodraeth Cymru. Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth, fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, yn gallu cefnogi'r gwelliant hwnnw, hefyd.

15:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 2—Paul Davies

Ym mhwynt 2, cynnwys 'ac argymhellion allweddol' ar ôl 'canfyddiadau'.

I call on Mark Isherwood to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Amendment 2—Paul Davies

In point 2, after 'findings' insert 'and key recommendations'.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

I move amendment 2.

Cynigiau welliant 2.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Housing-related anti-social behaviour can and does have a negative impact on people, their health and their wellbeing. As the 'Wales Anti-social Behaviour: Policy and Practice Review' referred to, and as the motion states, the majority of stakeholders emphasise the importance of a twin-tracked approach to addressing anti-social behaviour, where the stick of enforcement is pursued at the same time as the carrot of support for perpetrators, to minimise the need for eviction.

This very much reflects my experience as a voluntary housing association board member, and my experience 20 years ago as a resident, when neighbours from hell were running a campaign of harassment and intimidation against other households on the road. The perpetrators were smart, as they understood police response times, legal loopholes and court proceedings, but when residents on the road stood together, the perpetrators were finally convicted of a series of public order offences.

We will be supporting amendments 1 and 3, but we will oppose amendment 4. Our only amendment, amendment 2, will have the effect of proposing that the National Assembly for Wales notes the key recommendations as well as the findings of the Welsh Government's research, entitled 'Wales Anti-social Behaviour: Policy and Practice Review', as a foundation for further action.

This review rightly includes within its conclusions the importance of working in partnership collaboration, early intervention a twin-track approach, the importance of communication with victims and perpetrators, and the difficulty in assessing the scale of anti-social behaviour and the effectiveness of anti-social behaviour interventions. As it notes:

'Effective partnership working, and in particular the sharing of information, is not helped by the fact that partners do not share common definitions of anti-social behaviour, methods of recording anti-social behaviour and methods of assessing risk in anti-social behaviour cases.'

It also notes the lack of commitment and involvement of some key partners, in particular adult and mental health services, and highlights the need for all partners including police, community safety partnerships, social housing organisations, probation, mental health organisations and local government departments to attempt to develop and adopt common approaches with particular regard to agreed definitions and risk assessment tools.

As the review says in its recommendations, social landlords should ensure that their anti-social behaviour policies and procedures are regularly reviewed and updated and focus on prevention, early intervention, multi-agency working and the twin-track approach to addressing anti-social behaviour. Again, this is enforcement alongside support for perpetrators. The Welsh Government it said

'should provide support and leadership for social landlords to achieve the recommendations',

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai gael effaith negyddol ar bobl, eu hiechyd a'u lles. Fel yr oedd yr Adolygiad Cymru o Bolisi ac Ymarfer ym maes Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cyfeirio ato, ac fel y mae'r cynnig yn ei ddatgan, mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd dull deublyg o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle y defnyddir gorfodaeth yn ogystal â chefnogaeth, er mwyn lleihau'r angen i droi pobl allan o'u cartrefi.

Mae hyn yn adlewyrchu'n fawr fy mhrofiad fel aelod o fwrdd cymdeithas tai gwirfoddol, a'm profiad 20 mlynedd yn ôl fel preswlydd, pan oedd cymdogion o uffern yn cynnal ymgyrch i fygwth ac aflonyddu ar aelwydydd eraill ar y stryd. Roedd y bobl a oedd yn gyfrifol yn gall, gan eu bod yn deall amseroedd ymateb yr heddlu, bylchau cyfreithiol ac achosion llys, ond pan safodd preswylwyr y stryd gyda'i gilydd, cafwyd y troseddwr yn euog o'r diwedd o gyfres o droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 3, ond byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4. Effaith ein hunig welliant ni, gwelliant 2, fydd cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi argymhellion allweddol yn ogystal â chanfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru, o'r enw 'Wales Anti-social Behaviour: Policy and Practice Review', fel sail ar gyfer gweithredu pellach.

Mae casgliadau'r adolygiad hwn, yn briodol, yn cynnwys pwysigrwydd gweithio ar y cyd mewn partneriaeth, ymyrraeth gynnar, dull gweithio deublyg, pwysigrwydd cyfathrebu gyda dioddefwyr a throseddwr, ac anhawster asesu graddfa ymddygiad gwrthgymdeithasol ac effeithiolrwydd ymyriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fel y mae'n nodi:

Nid yw'r ffaith nad yw partneriaid yn rhannu diffiniadau cyffredin o ymddygiad gwrthgymdeithasol, dulliau o gofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol a dulliau o asesu risg mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu helpu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, a rhannu gybodaeth yn arbennig.

Mae hefyd yn nodi diffyg ymrwymiad a chyfranogiad rhai partneriaid allweddol, yn arbennig mewn gwasanaethau oedolion ac iechyd meddwl, ac yn tynnu sylw at yr angen i bob partner gan gynnwys yr heddlu, partneriaethau diogelwch cymunedol, sefydliadau tai cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, sefydliadau iechyd meddwl ac adrannau llywodraeth leol geisio datblygu a mabwysiadu dulliau cyffredin gan roi sylw arbennig i ddiffiniadau ac offer asesu risg y cytunwyd arnynt.

Fel y dywed yr adolygiad yn ei argymhellion, dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd ac yn canolbwyntio ar waith ataliol, ymyrraeth gynnar, gwaith aml-asiantaeth a'r dull deublyg o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Unwaith eto, gorfodaeth ochr yn ochr â chefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru

ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i landlordiaid cymdeithasol i gyflawni'r argymhellion,

and the Welsh Government should

'ensure that Assembly Members can take decisions without undue delay on whether or not powers introduced by the UK Parliament to address anti-social behaviour are to be made available to Welsh social landlords'.

It also says that the Welsh Government should

'ensure that Assembly Members have the opportunity to consider whether to introduce the power for housing associations to extend starter tenancies, at the latest via inclusion in the proposed Renting Homes Bill'.

As the review reported, Welsh social landlords considered that the most effective measures to tackle anti-social behaviour were the use and extension of introductory and starter tenancies, usually for a 12-month trial period, and tenancy demotion.

As Flintshire and Wrexham Watch Association has told me, involving third sector organisations such as itself as a valued community safety partner has, and does, provide opportunities for achieving the wider engagement of local people in responding to the community safety agenda proactively in their neighbourhoods and communities, particularly in relation to housing and anti-social behaviour. Its approach is working with its community safety partnership to help in the delivery of strategic plans and the community safety agenda. This involves and actively engages ordinary citizens who live and work in local areas in helping to keep their communities safe, getting upstream of threats to their health and wellbeing and environment being fundamental. As it says, involving third sector organisations makes a contribution that is significant and different from statutory bodies. Evidence shows that, where people and communities work together using existing combined assets, there is less crime, less anti-social behaviour, less litter, less graffiti, fewer young people getting into trouble, less substance misuse, less violence and community tension, greater tolerance between age groups and more mutual respect.

I cannot conclude without commending again the north Wales police and crime commissioner's participatory budgeting grants scheme that allowed local communities to decide which projects to help cut crime and reduce anti-social behaviour will be given support.

ac y dylai Llywodraeth Cymru

sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad wneud penderfyniadau heb oedi gormodol ar ba un a fydd y pwerau a gyflwynwyd gan Senedd y DU i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gael i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ai peidio.

Mae hefyd yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru

sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael y cyfle i ystyried a ddyldid cyflwyno'r pŵer i gymdeithasau tai ymestyn tenantiaethau cychwynnol, fan bellaf trwy eu cynnwys yn y Bil Rhentu Cartrefi arfaethedig.

Fel yr adroddodd yr adolygiad, roedd landlordiaid cymdeithasol Cymru o'r farn mai'r camau mwyaf effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd defnyddio ac ymestyn tenantiaethau rhagarweiniol a chychwynnol, fel arfer am gyfnod prafw o 12 mis, ac israddio tenantiaeth.

Fel y mae Cymdeithas Gwarchod Sir y Fflint a Wrecsam wedi dweud wrthyf, rhoddwyd a rhoddir cyfleoedd i sicrhau ymrwymiad ehangach pobl leol wrth ymateb yn rhagweithiol i'r agenda diogelwch cymunedol yn eu cymdogaethau a'u cymunedau, yn enwedig mewn cysylltiad â thai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, trwy gynnwys sefydliadau'r trydydd sector, fel ef ei hun, yn bartneriaid diogelwch cymunedol gwerthfawr. Ei dull yw gweithio gyda'i phartneriaeth diogelwch cymunedol i helpu i gyflawni cynlluniau strategol a'r agenda diogelwch cymunedol. Mae hyn yn cynnwys dinasyddion cyffredin sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd lleol er mwyn helpu i gadw eu cymunedau'n ddiogel, gan weithredu'n gynnar o ran bygythiadau i'w hiechyd a'u lles a'r amgylchedd. Fel y mae'n ei ddweud, mae cyrff y trydydd sector yn gwneud cyfraniad sy'n sylweddol ac yn wahanol i gyrff statudol. Mae tystiolaeth yn dangos bod llai o droseddau, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol, llai o sbwriel, llai o graffiti, llai o bobl ifanc yn mynd i drafferth, llai o gamddefnyddio sylweddau, llai o drais a thensiwn yn y gymuned, mwy o oddefgarwch rhwng grwpiau oedran a mwy o barch at ei gilydd, lle mae pobl a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio asedau ar y cyd sydd eisoes yn bodoli.

Ni allaf orffen heb gymeradwyo eto gynllun grantiau cyllidebu cyfranogol comisiynydd heddlu a throseddau gogledd Cymru. Roedd hwn yn caniatáu i gymunedau lleol benderfynu pa brosiectau a fydd yn cael cymorth i helpu i leihau troseddau a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

16:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 3—Elin Jones

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendment 3 tabled in the name of Elin Jones.

Amendment 3— Elin Jones

Delete point 3 and replace with:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai.

Calls on the Welsh Government to ensure that relevant public and third sector organisations work together more effectively to address housing related anti-social behaviour.

16:03

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 3.

We know that housing-related anti-social behaviour can be really distressing for those who experience it. Anti-social behaviour can be upsetting, disruptive and make people feel unsafe in their own homes. I have every sympathy for those affected by it, and welcome the findings of the review. I hope that it can be used as a foundation for an effective national strategy to combat this behaviour in the future, because we know from our own constituency case loads that anti-social behaviour victims sometimes suffer beyond belief for long periods of time. One household can terrorise a whole street relentlessly. A small number of people can have many victims.

One problem identified by this review, of course, is the lack of consistency on how social landlords approach tackling anti-social behaviour. The measures in place to help those affected vary widely. The same buzz words are used by landlords, such as 'preventative' and 'victim-focused' but in practice the interpretation of these phrases can be completely different, but then even defining anti-social behaviour is a challenge. One person's perfectly reasonable behaviour is another person's nuisance, and there needs to be a certain level of tolerance. When we live in close quarters together, there are bound to be ultimately harmless things that your neighbour does that irritate; equally, I am sure, you can irritate them just as much. Some noise and disruption is inevitable—large families and young children will always generate some noise, children will want to play and some households are naturally lively.

The question is: at what point does an everyday annoyance cross over into being anti-social behaviour, and when is anti-social behaviour really criminal behaviour? Some behaviour gets classed as anti-social behaviour that is, in fact, illegal criminal behaviour. Where perpetrators are breaking the law, it is important that tenants and landlords know that they can call on the police at least to help. Criminality should not be treated the same as noise nuisance, because threats of harm and damage to property is not the same as playing loud music. Making people afraid to go out is not the same as irritating them.

Cynigiad welliant 3.

Rydym yn gwybod y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai fod yn wirioneddol dralodus i'r rhai sy'n cael profiad ohono. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol beri gofid, bod yn aflonyddgar a gwneud i bobl deimlo'n anniogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae gennyf bob cydymdeimlad â'r rhai yr effeithir arnynt, ac rwy'n croesawu canfyddiadau'r adolygiad. Rwy'n gobeithio y gellir ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer strategaeth genedlaethol effeithiol i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn yn y dyfodol oherwydd y gwyddom, o lwyth achosion ein hetholaeth ein hun, fod pobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dioddef yn anghredadwy weithiau am gyfnodau hir. Gall un aelwyd godi dychryn ar stryd gyfan yn ddi-baid. Gall nifer fach o bobl effeithio ar lawer.

Un broblem a nodwyd gan yr adolygiad hwn, wrth gwrs, yw'r diffyg cysondeb o ran sut y mae landlordiaid cymdeithasol yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r mesurau sydd ar waith i helpu'r rhai yr effeithir arnynt yn amrywio'n fawr. Mae landlordiaid yn defnyddio'r un geiriau ffasiynol, megis 'ataliol' a 'canolbwyntio ar y dioddefwr' ond yn ymarferol gall y dehongliad o'r ymadroddion hyn fod yn hollol wahanol, ond wedyn mae'n her hyd yn oed diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymddygiad sy'n berffaith resymol i un yn niwsans i rywun arall, ac mae angen rhywfaint o oddefgarwch. Pan fyddwn yn byw'n agos at ein gilydd, mae'n sicr y bydd eich cymydog yn eich cythruddo trwy wneud pethau sy'n ddiniwed mewn gwirionedd; yn yr un modd, rwy'n siŵr, gallwch chi eu cythruddo lawn cymaint. Mae rhywfaint o sŵn ac aflonyddwch yn anochel—mae teuluoedd mawr a phlant ifanc bob amser yn cynhyrchu rhywfaint o sŵn, bydd plant yn awyddus i chwarae ac mae rhai teuluoedd yn naturiol fywiog.

Y cwestiwn yw: ar ba bwynt y mae niwsans bob dydd yn croesi i fod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phryd y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gwirionedd yn ymddygiad troseddol? Mae rhai mathau o ymddygiad sy'n cael ei gyfrif yn ymddygiad gwrthgymdeithasol, mewn gwirionedd, yn ymddygiad troseddol anghyfreithlon. Pan fydd pobl yn torri'r gyfraith, mae'n bwysig bod tenantiaid a landlordiaid yn gwybod y gallant alw ar yr heddlu o leiaf i helpu. Ni ddylid trin trosedd yr un fath â niwsans sŵn, gan nad yw bygythiadau o niwed a difrod i eiddo yr un fath â chwarae cerddoriaeth yn uchel. Nid yw cythruddo pobl yr un fath â gwneud iddynt ofni mynd allan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, there is a need for a clear definition of anti-social behaviour, and if it was more clearly defined, then it would help tenants feel more comfortable in seeking help and help landlords to feel more comfortable in knowing when to take action. It would also enable landlords, tenants, the police and other relevant organisations to work together more effectively, knowing that they were talking about the same thing and approaching it in the same way. So, let us not lump irritating behaviour and criminal behaviour in the same bracket and call it anti-social behaviour.

That is why I want the Government to put itself and its responsibility at the heart of this motion. The Government needs to play an active role in directing the strategy for dealing with anti-social behaviour in housing. We cannot rely on public sector and third sector organisations to magically work together without the support of the Welsh Government. This is the basis of our amendment; we will be supporting all the other amendments. It is through co-operation at all levels that we will manage in the end to successfully tackle anti-social behaviour in housing.

16:07

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased also to contribute to the debate on anti-social behaviour in the housing sector today, and I place on record my thanks to the wide-ranging stakeholders involved in tackling this problem.

As elected Members, we are all too aware in our own areas and from our constituents of the problems that anti-social behaviour can cause and the ripple effects resulting from it. It can quickly go from causing nuisance or annoyance to creating wider problems for individuals or whole communities. Much of it is not criminal, but it can fuel a fear of crime. That is my first point to pick up on from the report. There is no one definition of anti-social behaviour that is universally used or accepted. I believe that that is demonstrative of the wider effects instances can create.

For today's purposes, we are looking at anti-social behaviour in the housing sector. Obviously, it is not solely a housing issue, but the sector has a clear and important role in preventing and responding to it, a dual function that I will pick up on later.

I have previously held up as an example in this Chamber the Station Road forum in Llanelli. It was set up after I was contacted several times by constituents and youth organisations. I believe that it is key to the forum that not only are we seeking to devise an action plan for issues facing the community, but that we are also working together to positively promote the area and champion improvements in its perception. Perception is a powerful tool.

Felly, mae angen diffiniad eglur o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phe byddai'n cael ei ddiffinio'n gliriach, yna byddai'n helpu tenantiaid i deimlo'n fwy cyfforddus wrth geisio help ac yn helpu landlordiaid i deimlo'n fwy cyfforddus wrth wybod pryd i gymryd camau. Byddai hefyd yn galluogi landlordiaid, tenantiaid, yr heddlu a sefydliadau perthnasol eraill i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, gan wybod eu bod yn siarad am yr un peth ac yn bwrw iddi yn yr un modd. Felly, gadewch inni beidio â rhoi ymddygiad syrffedus ac ymddygiad troseddol yn yr un categori a'u galw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyna pam yr wyf am i'r Llywodraeth roi ei hun a'i chyfrifoldeb wrth wraidd y cynnig hwn. Mae angen i'r Llywodraeth chwarae rhan weithredol o ran llywio'r strategaeth ar gyfer ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai. Ni allwn ddbwynnu ar y sector cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd trwy ryw hud a lledrith, heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Dyma sail ein gwelliant; byddwn yn cefnogi'r holl welliannau eraill. Drwy gydweithio ar bob lefel y byddwn yn llwyddo yn y diwedd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai.

Rwyf innau'n falch hefyd i gyfrannu at y drafodaeth ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sector tai heddiw, a hoffwn gofnodi fy niolch i'r rhanddeiliaid amrywiol a fu'n ymwneud â mynd i'r afael â'r broblem hon.

Fel Aelodau etholedig, rydym i gyd yn ymwybodol iawn yn ein hardaloedd ein hunain a gan ein hetholwyr o'r problemau y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hachosi a'r effeithiau sy'n deillio ohono. Gall ddatblygu'n gyflym o achosi niwsans neu flinder i greu problemau ehangach ar gyfer unigolion neu gymunedau cyfan. Nid yw llawer ohono'n droseddol, ond gall borthi ofn trosedd. Dyna fy mhwynt cyntaf i'w ystyried yn sgil yr adroddiad. Nid oes un diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael ei ddefnyddio neu ei dderbyn yn gyffredinol. Credaf fod hynny'n dangos yr effeithiau ehangach y gall achosion eu creu.

At ddibenion heddiw, rydym yn edrych ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sector tai. Yn amlwg, nid yw'n fater sy'n ymwneud â thai yn unig, ond mae gan y sector rôl eglur a phwysig o ran ei atal ac ymateb iddo, swyddogaeth ddeublyg y byddaf yn ei hystyried yn ddiweddarach.

Rwyf wedi defnyddio fforwm Heol yr Orsaf yn Llanelli fel enghraifft o'r blaen yn y Siambr hon. Cafodd ei sefydlu ar ôl i etholwyr a sefydliadau ieuencid gysylltu â mi sawl gwaith. Rwy'n credu ei bod yn allweddol i'r fforwm ein bod yn ceisio dyfeisio cynllun gweithredu ar gyfer materion sy'n wynebu'r gymuned, ond ein bod hefyd yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r ardal a hyrwyddo gwelliannau yn y modd mae pobl yn ei hystyried. Mae canfyddiad yn arf pwerus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Only recently, we organised a litter-picking event across the area through Keep Wales Tidy. This draws on the research report's findings on the importance of a twin-tracked approach of enforcement and support, which landlords agreed was the most useful model, and the case that was made in the report for information-sharing arrangements between organisations.

My office conducted a local residents' survey to better inform the forum's work. We received a high volume of responses, which were crucial to identifying residents' concerns and suggestions. A recurring theme was the importance of a police presence, tackling anti-social behaviour, litter and alcohol sales.

The forum's remit has been extended to cover anti-social behaviour, and it crucially involves representation from key partners. This includes police community support officers, and I note the report's finding that the contribution of the police was recognised as most effective. At our next meeting, we will be pleased to have the head of housing from Carmarthenshire County Council present, because partnership working is a key feature in the Welsh Government's research report and wider literature. Co-operation between key agencies and stakeholders brings clear benefits in information sharing and in devising a collaborated plan that utilises the best resources, skills and expertise on offer. I and local colleagues are very pleased that this forum has been recognised by the Minister as an example of good practice. Just a fortnight ago, the Minister's comments to my question echoed that it can be learned elsewhere.

The Minister has made it clear to the housing sector that it should adopt a robust approach in preventing and responding to this. I particularly welcome the measures in the housing Bill that set out what is expected of landlords and introduce mandatory registration and accreditation for private landlords and letting agents. Landlords ought to be proactive in preventing anti-social behaviour at its root. Tenants, through tenancy agreements, must set out clearly what is and is not acceptable.

Carmarthenshire County Council has very recently introduced a selective licensing scheme for the Tyisha ward in Llanelli. Its aim is for increased management of properties in the private rented sector in areas with high levels of anti-social behaviour. Tyisha has the highest number of privately rented properties in the area. It will allow greater control over private landlords, where they must meet licensing standards and where both they and tenants must comply with licensing obligations. I look forward to seeing this scheme in action and I hope that it can go some way to tackling the root causes of anti-social behaviour.

Dim ond yn ddiweddar, trefnwyd digwyddiad casglu sbwriel gennym ar draws yr ardal trwy Cadwch Gymru'n Daclus. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r adroddiad ymchwil o ran pa mor bwysig yw defnyddio gorfodaeth a chefnogaeth, sef y model mwyaf defnyddiol yn ôl landlordiaid, a'r achos a wnaed yn yr adroddiad dros drefniadau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Cynhaliodd fy swyddfa arolwg ymhlith trigolion lleol er mwyn llywio gwaith y fforwm yn well. Rydym wedi derbyn nifer fawr o ymatebion, a oedd yn hanfodol i nodi pryderon ac awgrymiadau trigolion. Thema gyson oedd pwysigrwydd presenoldeb yr heddlu, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a gwerthiant alcohol.

Mae cylch gwaith y fforwm wedi cael ei ymestyn i gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae'n hanfodol cynnwys cynrychiolwyr partneriaid allweddol. Mae hyn yn cynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, a nodaf ganfyddiad yr adroddiad fod cyfraniad yr heddlu'n cael ei gydnabod fel un hynod effeithiol. Yn ein cyfarfod nesaf, byddwn yn falch o gael pennaeth tai Cyngor Sir Caerfyrddin yn bresennol, gan fod gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd allweddol yn adroddiad ymchwil a dogfennau ehangach Llywodraeth Cymru. Daw manteision amlwg wrth i asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol gydweithio, yn sgil rhannu gwybodaeth a llunio cynllun cydweithio sy'n defnyddio'r adnoddau, y sgiliau a'r arbenigedd gorau sydd ar gael. Rwyf i a chydweithwyr lleol yn falch iawn fod y Gweinidog wedi cydnabod y fforwm hwn yn enghraifft o arfer da. Dim ond pythefnos yn ôl, roedd sylwadau'r Gweinidog i'm cwestiwn yn adleisio y gellir dysgu ganddo mewn manau eraill.

Mae'r Gweinidog wedi datgan yn glir i'r sector tai y dylai fabwysiadu agwedd gadarn wrth atal ac ymateb i hyn. Croesawaf yn enwedig y mesurau yn y Bil tai sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan landlordiaid ac sy'n cyflwyno trefniadau cofrestru ac achredu gorfodol ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantau gosod tai. Dylai landlordiaid fod yn rhagweithiol wrth atal ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth ei wraidd. Rhaid i denantiaid, trwy gytundebau tenantiaeth, nodi'n eglur yr hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflwyno cynllun trwyddedu dethol yn ddiweddar iawn ar gyfer ward Tyisha yn Llanelli. Ei nod yw rheoli mwy trylwyr ar eiddo yn y sector rhentu preifat mewn ardaloedd â lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn Nhyisha y mae'r nifer uchaf o eiddo wedi'u rhentu'n breifat yn yr ardal. Bydd yn caniatáu mwy o reolaeth dros landlordiaid preifat, gan y bydd yn rhaid iddynt fodloni safonau trwyddedu ac y bydd yn rhaid iddyn nhw a thenantiaid gydymffurfio â rhwymedigaethau trwyddedu. Edrychaf ymlaen at weld y cynllun hwn ar waith ac rwy'n gobeithio y gall fynd beth o'r ffordd i fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Another working example from the area that has been cited in the Chamber is SCAG—the safer communities action group. Run by local volunteers and set up in 2005, it works to improve community safety, home safety and personal safety in the Glanymor and Tyisha wards, which are both in Communities First areas. Among its initiatives to reduce crime is the Respect project. Posters were created for display across the community based on what residents—young and old—identified as important. A multi-partnership, inter-generational workshop was held to address perception of anti-social behaviour and to bring young and older people together. This is quite closely connected to the report's recommendations about communication with victims, perpetrators and those just perceived to fall into either category. It all takes place at a local level through groups like this and community safety partnerships.

What is clear is that, although there are issues locally, there is also great work being done. The findings of the research report reflect the importance of consistent and uniform services in Wales. I hope that, just as Llanelli can learn from best practice elsewhere, our work can be drawn on, too.

16:12

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I support the Minister in his opening comments about the imperative nature of tackling domestic violence, which is a housing issue, as well as other forms of anti-social behaviour in the home. I certainly welcome the research that has been published on this subject. Like other people who have spoken today, during the time that I have been an elected representative, some of the most difficult and intractable problems that I have had to deal with have been problems of anti-social behaviour in housing. I have had so many people, as I know you all have, who have come to my office absolutely at their wits' end because of the misery that they are experiencing in their own homes. If you cannot feel safe and comfortable in your own home, it means that your whole life is ruined. I know that most elected Members say that this is one of the biggest problems that they have to deal with.

What I have found is that, when constituents come to me right at the beginning, they are often seeking a change of behaviour from the perpetrator of the problem. If there is a lot of noise, they want the noise to go down. Usually, this takes so long to tackle that, at the end, they want that person out of the house and they want their eviction. This illustrates the importance of early intervention.

Enghraifft weithredol o'r ardal y soniwyd amdani yn y Siambr yw SCAG—grŵp gweithredu cymunedau mwy diogel. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn 2005, ac mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr lleol er mwyn gwella diogelwch cymunedol, diogelwch yn y cartref a diogelwch personol yn wardiau Glanymôr a Thyisha, sydd ill dau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae ei fentrau i leihau troseddau yn cynnwys y prosiect Respect. Cafodd posteri eu creu i'w harddangos ar draws y gymuned yn seiliedig ar yr hyn yr oedd trigolion—hen ac ifanc—yn nodi a oedd yn bwysig. Cynhaliwyd gweithdy aml-bartneriaeth, rhyng-genhedlaeth i fynd i'r afael â'r canfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i ddod â phobl ifanc a phobl hŷn at ei gilydd. Mae cyswllt eithaf agos rhwng hyn ac argymhellion yr adroddiad ynglŷn â chyfathrebu â dioddefwyr, troseddwy'r rhai y canfyddir eu bod yn y naill categori neu'r llall. Mae'r cyfan yn digwydd ar lefel leol drwy grwpiau fel hwn a phartneriaethau diogelwch cymunedol.

Yr hyn sy'n glir yw y ceir problemau'n lleol, ond bod gwaith gwych hefyd yn cael ei wneud. Mae canfyddiadau'r adroddiad ymchwil yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael gwasanaethau cyson ac unffurf yng Nghymru. Yn union fel y gall Llanelli ddyngu o arfer gorau mewn mannau eraill, rwy'n gobeithio y gellir manteisio ar ein gwaith ninnau hefyd.

Rwy'n cefnogi'r Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol ynghylch natur hanfodol mynd i'r afael â thrais domestig, sy'n fater sy'n ymwneud â thai, yn ogystal â mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cartref. Rwy'n sicr yn croesawu'r ymchwil sydd wedi ei gyhoeddi ar y pwnc hwn. Fel pobl eraill sydd wedi siarad heddiw, yn ystod yr amser yr wyf wedi bod yn gynrychiolydd etholedig, problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes tai fu rhai o'r problemau mwyaf anodd ac anhydrin yr wyf wedi gorfod delio â nhw. Rwyf wedi cael cynifer o bobl, fel yr ydych i gyd fe wn, yn dod i fy swyddfa heb unman i droi oherwydd y difflastod y maent yn ei ddioddef yn eu cartrefi eu hunain. Os nad ydych yn gallu teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eich cartref eich hun, mae'n golygu bod eich bywyd cyfan yn cael ei ddifetha. Gwn fod y rhan fwyaf o Aelodau etholedig yn dweud bod hon yn un o'r problemau mwyaf y mae'n rhaid iddynt ddelio â hi.

Rwyf wedi sylwi mai'r hyn y mae etholwyr ei eisiau'n aml, pan fyddant yn dod ataf ar y cychwyn cyntaf, yw i'r sawl sy'n achosi'r broblem newid ei ymddygiad. Os oes llawer o sŵn, maent am i'r sŵn dawelu. Fel arfer, mae'n cymryd cymaint o amser i fynd i'r afael â hynny fel eu bod, yn y diwedd, am weld y person hwnnw allan o'r tŷ ac maent am iddynt gael eu troi allan. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Given that noise is one of the biggest issues that people bring to us as a problem, the traditional response from local authorities and from housing associations is to give the tenant a diary that they have to laboriously mark in the middle of the night—whenever there is a noise. Basically, it puts the onus on the tenant, in a way that many tenants find very difficult. I have certainly had a lot of people come to see me who say that they have been asked to keep this diary and find it difficult to do. It is not proactive, I do not feel, on behalf of the local authorities or the housing associations, in ensuring that the support is there for the people who are complaining.

The other issue is tackling the problem of the perpetrators of anti-social behaviour. In my experience, many of those people have serious problems themselves. They may have mental health problems. I think that that is fairly common. They may have already experienced one move because of their behaviour and have now been moved to a situation where they are causing problems for other people, but the preparatory work may not have been done to ensure that they are supported in the tenancy. Of course, many of them will have children, which means that, if the local authority is the landlord, it will end up with the responsibility for housing that family if it ends up being evicted. So, it is really not a very simple situation. We have got to make sure that the people who complain get support for trying to resolve the problems. However, we have also got to make sure that the perpetrators understand what is acceptable behaviour at a very early stage. They may need support to be tenants. So, it is quite a complex issue.

A lot of people have said today that early intervention is essential if there is going to be a satisfactory outcome. In my experience, early intervention very, very rarely happens. The point is made in this research that very few landlords offer a service overnight, for example. That is often when there are complaints about excessive noise and rowdy behaviour. Therefore, tenants do not have anywhere to go. They have nobody to call because they do not have a 24-hour helpline. I think it would help things enormously if there was a way of contacting people. That is when the police are often contacted, and then we get to the issue that has been raised several times today about how important it is to have partnership working and that the different agencies should work together.

O gofio bod sŵn yn un o'r problemau mwyaf y mae pobl yn eu cyflwyno i ni fel problem, yr ymateb traddodiadol gan awdurdodau lleol a chan gymdeithasau tai yw rhoi dyddiadur i'r tenant gan ofyn iddo ef neu hi ysgrifennu ynddo'n llafurus yng nghanol y nos—pryd bynnag y mae sŵn. Yn y bôn, mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y tenant, mewn ffordd y mae llawer o denantiaid yn ei chael yn anodd iawn. Rwy'n sicr wedi cael llawer o bobl yn dod i fy ngweld sy'n dweud eu bod wedi cael cais i gadw'r dyddiadur hwn ac yn ei chael yn anodd gwneud hynny. Nid yw'n rhagweithiol, rwy'n teimlo, ar ran yr awdurdodau lleol neu'r cymdeithasau tai, o ran sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar gyfer y bobl sy'n cwyno.

Y mater arall yw mynd i'r afael â phroblem y bobl sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn fy mhrofiad i, mae gan lawer o'r bobl hynny broblemau difrifol eu hunain. Efallai bod ganddynt broblemau iechyd meddwl. Rwy'n meddwl bod hynny'n weddol gyffredin. Efallai eu bod eisoes wedi symud unwaith oherwydd eu hymddygiad a bellach wedi cael eu symud i sefyllfa lle maent yn achosi problemau i bobl eraill, ond efallai na fydd y gwaith paratoadol wedi ei wneud i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn y denantiaeth. Wrth gwrs, bydd plant gan lawer ohonynt, sy'n golygu mai'r awdurdod lleol, os mai'r awdurdod yw'r landlord, fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw dros ddod o hyd i lety i'r teulu os dydynt yn cael eu troi allan. Felly, nid yw'n sefyllfa syml iawn mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y bobl sy'n cwyno yn cael cefnogaeth i geisio datrys y problemau. Ar y llaw arall, mae'n rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr bod y bobl sy'n achosi'r broblem yn deall yn gynnar iawn pa fath o ymddygiad sy'n dderbyniol. Efallai y bydd angen cefnogaeth arnynt i fod yn denantiaid. Felly, mae'n fater eithaf cymhleth.

Mae llawer o bobl wedi dweud heddiw bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn cael canlyniad boddhaol. Yn fy mhrofiad i, yn anaml iawn, iawn y mae ymyrraeth gynnar yn digwydd. Mae'r pwynt yn cael ei wneud yn yr ymchwil hwn mai ychydig iawn o landlordiaid sy'n cynnig gwasanaeth dros nos, er enghraifft. Dyna'n aml pryd y ceir cwynion am sŵn gormodol ac ymddygiad stwrllyd. Felly, nid oes gan denantiaid unrhyw le i fynd. Nid oes ganddynt neb i'w ffonio am nad oes ganddynt linell gymorth 24 awr y dydd. Rwy'n meddwl y byddai'n helpu pethau'n fawr pe byddai modd cysylltu â phobl. Dyna pryd yn aml y cysylltir â'r heddlu, ac yna rydym yn dod at y mater sydd wedi ei godi sawl gwaith heddiw am ba mor bwysig yw hi i weithio mewn partneriaeth ac y dylai'r gwahanol asiantaethau weithio gyda'i gilydd.

Some of the cases I dealt with did end up with the ombudsman, and the ombudsman came forward with very strong proposals with regard to some of the social landlords and, in particular, the council, saying that they did not use the range of options open to them, and I think that that is reflected in this report as well. It is very important that social landlords are aware of all the different tools—that they exist in law. They have all been mentioned here today in the Chamber, but some of them are very rarely used. The issue of introductory tenancies has been mentioned, as has the fact that these tenancies can be terminated without the case having to be proven in court. However, this is something that local authorities and housing associations do not necessarily use.

Aeth rhai o'r achosion y bŵm yn delio â nhw at yr ombwdsmon yn y pen draw, a chyflwynodd yr ombwdsmon gynigion cryf iawn o ran rhai o'r landlordiaid cymdeithasol ac, yn arbennig, y cyngor, gan ddweud nad oeddent yn defnyddio'r ystod o opsiynau a oedd ar gael iddynt, a chredaf fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad hwn hefyd. Mae'n bwysig iawn bod landlordiaid cymdeithasol yn ymwybodol o'r holl wahanol ddulliau gweithredu—eu bod yn bodoli yn y gyfraith. Maent i gyd wedi cael eu crybwyll yma heddiw yn y Siambr, ond yn anaml iawn y defnyddir rhai ohonynt. Crybwyllwyd tenantiaethau rhagarweiniol, yn ogystal â'r ffaith y gellir terfynu'r tenantiaethau hyn heb orfod profi'r achos yn y llys. Fodd bynnag, mae hwn yn rhywbeth nad yw awdurdodau lleol a chymdeithasau tai o reidrwydd yn ei wneud.

16:18

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Many have indicated the problems around anti-social behaviour in our communities and, in particular, they have talked about what people class as anti-social behaviour. I was taken with what Jocelyn said about the fact that, sometimes, low-level criminal acts can be labelled as anti-social behaviour. During the period November 2012 to October 2013, across the four Welsh police forces, there were some 114,000 anti-social behaviour complaints. That shows how people are suffering from anti-social behaviour, be it low-level disruption such as excessive noise. It is often a vexed subject as to whether it is excessive or not.

Mae llawer wedi nodi problemau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau ac, yn arbennig, maent wedi siarad am yr hyn y mae pobl yn ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Sylwais ar yr hyn a ddywedodd Jocelyn am y ffaith y gall gweithredoedd troseddol lefel isel, weithiau, gael eu labelu'n ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ystod y cyfnod o fis Tachwedd 2012 hyd fis Hydref 2013, ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru, gwnaed rhyw 114,000 cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hynny'n dangos sut mae pobl yn dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol, boed yn aflonyddwch lefel isel megis sŵn gormodol. Mae'n aml yn bwnc dadleuol pa un a yw'n ormodol neu beidio.

Often, if we were to look at ways in which the planning issues come into force at the start of new developments—. If you are planning a new development, it is common sense, if you are planning mixed accommodation where you also have older people, that you do not put the playground alongside the older persons' complex because, obviously, when children are playing in that playground, balls will go into gardens and there will be excessive noise. We all know how that can escalate. So, I think that there is an opportunity for us to look at ways in which we can put other ideas in through other Bills to help reduce or stop anti-social behaviour.

Yn aml, pe baem yn edrych ar ffyrdd y mae'r materion cynllunio'n dod i rym ar ddechrau datblygiadau newydd—. Os ydych yn cynllunio datblygiad newydd, mae'n synnwyr cyffredin, os ydych yn cynllunio llety cymysg lle mae gennych bobl hŷn hefyd, i beidio â rhoi'r maes chwarae ochr yn ochr â'r rhan ar gyfer pobl hŷn oherwydd y bydd peli'n mynd i erddi ac y bydd gormod o sŵn, yn amlwg, pan fydd plant yn chwarae yn y maes chwarae. Rydym i gyd yn gwybod sut y gall hynny waethygu. Felly, credaf fod cyfle i ni ystyried ffyrdd y gallwn gyflwyno syniadau eraill trwy Ffiliau eraill i helpu i leihau neu atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

One of the reasons I wanted to speak briefly in this debate is that I want to praise Clwyd Alyn Housing Association. You will not hear me praising registered social landlords that often in this Chamber, particularly with regard to the work they have done in west Rhyl as I hold them responsible for some of the issues there from the 1980s. Nevertheless, now, Clwyd Alyn is working on this and it has an anti-social behaviour officer who deals with its tenants. The minute that there is any suggestion that there is some anti-social behaviour going on, they go in there and work with those families and tenants and the rest of the community to tell people what their lifestyles mean to others. That is something that we should recognise as a way in which tenants' actions can be changed.

Un o'r rhesymau pam roeddwn yn awyddus i siarad yn fyr yn y ddadl hon yw fy mod yn awyddus i ganmol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn. Ni fyddwch yn fy nghlywed yn canmol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn aml yn y Siambr hon, yn enwedig o ran y gwaith y maent wedi'i wneud yng ngorllewin y Rhyl gan fy mod yn eu hystyried yn gyfrifol am rai o'r problemau yno o'r 1980au. Serch hynny, mae Clwyd Alyn yn gweithio ar hyn nawr, ac mae gan y gymdeithas swyddog ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n delio gyda'i thenantiaid. Yr eiliad y bydd unrhyw awgrym bod rhywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd, maent yn mynd i mewn ac yn gweithio gyda'r teuluoedd a'r tenantiaid hynny a gweddill y gymuned i ddweud wrth bobl beth y mae eu ffordd o fyw yn ei olygu i bobl eraill. Mae hynny'n rhywbeth y dylem ei gydnabod fel ffordd y gellir newid gweithredoedd tenantiaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also want to say to the Minister that I appreciate the fact that you have included domestic violence and that you will put in your housing Bill that anyone who is found being a perpetrator of domestic violence will have their tenancies looked at. I think that that is very good and very brave. It is a good decision to make and one that shows that, even though you have always taken that fight, in whichever portfolio that you have held, you have now taken it through your housing Bill and you are working through your housing portfolio by using the measures that you intend to use in that Bill. I wish that well.

People deserve to feel safe in their own homes. It is important that they feel safe and that we deal with situations and problems that arise very quickly. I believe that this Government is doing quite a lot to tackle the many guises of anti-social behaviour and I believe that we are looking at ways in which we are joining up our policies to make sure that we make our communities safer.

To make one small point, just putting sprinklers into homes will not become an anti-social behaviour event. Sprinklers will not go off. If anyone thinks that by putting sprinklers in homes they will have their homes flooded, may I just disabuse them of that fact? They will only go off if you have a fire at 68 degrees centigrade. So, if people are worried about anti-social behaviour from flooding from sprinklers, please take that away from your minds and do not use it.

Rwyf hefyd yn awyddus i ddweud wrth y Gweinidog fy mod yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi cynnwys trais domestig ac y byddwch yn cynnwys yn eich Bil tai yr edrychir ar denantiaethau unrhyw un y gwelir ei fod yn cyflawni trais domestig. Rwy'n meddwl fod hynny'n beth da iawn ac yn ddewr iawn. Mae'n benderfyniad da i'w wneud ac yn un sy'n dangos eich bod yn awr wedi mynd â'r frwydr honno trwy eich Bil tai, er eich bod bob amser wedi ymwneud â'r frwydr honno, pa bynnag bortffolio yr ydych wedi'i ddal, a'ch bod yn gweithio trwy eich portffolio tai trwy ddefnyddio'r mesurau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio yn y Bil hwnnw. Rwy'n dymuno'n dda i hynny.

Mae pobl yn haeddu teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n bwysig eu bod yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn delio'n gyflym iawn â sefyllfaoedd a phroblemau sy'n codi. Rwy'n credu bod y Llywodraeth hon yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â gweddau niferus ymddygiad gwrthgymdeithasol a chredaf ein bod yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod ein polisïau'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

I wneud un pwynt bach, ni fydd systemau chwistrellu mewn cartrefi yn dod yn ddigwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ni fydd systemau chwistrellu yn gweithio ar eu pen eu hunain. Os oes unrhyw un yn credu y bydd eu cartrefi dan ddŵr os rhoddir systemau chwistrellu ynddynt, a gaf fi eu cywiro? Ni fyddant ond yn gweithio os oes gennyh dân sy'n 68 gradd canradd. Felly, os yw pobl yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd llifogydd yn sgil systemau chwistrellu, dilëwch hynny o'ch meddyliau a pheidiwch â'i ddefnyddio.

16:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:22 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, colleagues, for your contributions to today's debate. All of us will, at some time, have had some experience of dealing with anti-social behaviour. Tackling anti-social behaviour is important to people's wellbeing, their quality of life and to local communities by making them stable and pleasant places to live.

Colleagues' contributions today were very supportive and wide-ranging of their local understanding, and national significance, about how we need to take this issue forward. The remarks by Peter and others around how we look at supporting people who are not naturally aligned to taking up tenancies is a really important point. I visited a programme in Rhondda Cynon Taf where some, but not all, young people who were part of the programme were now securing their tenancies after having lost tenancy rights at a further point in time. Now, they feel much more confident in their ability to understand the boundaries in which they must conduct their activities to ensure that they have a secure tenancy.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi, gydweithwyr, am eich cyfraniadau at y ddadl heddiw. Mae pob un ohonom, ar ryw adeg, wedi cael rhywfaint o brofiad o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd lles pobl, ansawdd eu bywyd ac er mwyn cymunedau lleol drwy eu gwneud yn lleoedd sefydlog a phleserus i fyw.

Roedd cyfraniadau cydweithwyr heddiw yn gefnogol iawn ac eang yn eu dealltwriaeth leol, a'u harwyddocâd cenedlaethol, ynglŷn â sut y mae angen inni fwrw ymlaen â'r mater hwn. Mae'r sylwadau gan Peter ac eraill ynglŷn â sut rydym yn ystyried cefnogi pobl nad ydynt yn naturiol addas i ymgymryd â thenantiaethau yn bwynt pwysig iawn. Ymwelais â rhaglen yn Rhondda Cynon Taf lle'r oedd rhai, ond nid pob un, o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r rhaglen yn awr yn sicrhau eu tenantiaethau ar ôl colli hawliau tenantiaeth ar bwynt pellach mewn amser. Yn awr, maent yn teimlo'n llawer mwy hyderus yn eu gallu i ddeall y ffiniau y mae'n rhaid iddynt gynnwys eu gweithgareddau oddi mewn iddynt er mwyn sicrhau bod ganddynt denantiaeth ddiogel.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The other issue that Members raised was about the importance of collaboration and working together. What is absolutely fundamental to making the change is working and ownership of this proposal. Taking forward the framework from Welsh Government will be important from all parties going forward. Therefore, we will take very positive action in terms of the delivery proposals.

May I pick up a point mentioned by Julie Morgan and Ann Jones? Domestic violence is absolutely a housing issue and it is something that we will be making sure is high on our agenda. Often, the highest risk to anybody suffering from domestic violence is actually in the home. Therefore, we have to ensure that we use the tools in place to ensure that people feel safe.

Jocelyn raised the issue of the complexities of what anti-social behaviour is or is not and how what might be a nuisance to somebody is actually a huge anti-social issue to another. It is about how we measure that, but actually what is really important is that, wherever the partners are investigating the issue, whether they are social landlords, the police, or another body, they have to understand what the impact is on the victim, at whatever level the anti-social behaviour may be, and deal with that issue, rather than, as some Members have suggested, just ignore it until it escalates to a position where it is anti-social behaviour with intent, which is very different to what would be considered by some as just nuisance anti-social behaviour, albeit that it is all relative to the individual suffering from that.

Keith, again, raised the excellent work that is going on in Llanelli and, again, I reiterate my commitment to him and support for the membership of the group that is working in Llanelli. I think that that is something that could be rolled out across Wales, so that people can better understand community ownership of how we tackle the issues that affect people in their homes.

Ann Jones's point on the issue about planning and how we create sustainable communities is important. I think that one of the elements that we should be looking at more in terms of new development is about being secure by design, engineering out upfront where there are perceived to be problems, and understanding what communities look like, for the future, so that they are safe, using all opportunities. However, notwithstanding that, even secure-by-design areas can suffer from anti-social behaviour in some form, and that is an issue that we must be able to tackle.

I was also impressed by Ann Jones's contribution to an anti-social behaviour debate and her ability to get sprinklers into the discussion; it was, as always, very impressive. However, I do share her commitment in terms of their operation and how they activate. I also share her conclusion that sprinklers will not be a cause of anti-social behaviour when their installation comes forward in the forthcoming month.

Y mater arall a godwyd gan yr Aelodau oedd pwysigrwydd cydweithredu a chydweithio. Yr hyn sy'n gwbl hanfodol i wneud y newid yw gweithio a themlo cyfrifoldeb am y cynnig hwn. Bydd yn bwysig i bawb ddatblygu'r fframwaith gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Felly, byddwn yn cymryd camau cadarnhaol iawn o ran y cynigion ar gyfer dulliau cyflwyno.

A gaf fi godi pwynt a grybwyllwyd gan Julie Morgan ac Ann Jones? Mae trais domestig yn sicr yn fater sy'n ymwneud â thai ac mae'n rhywbeth y byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn uchel ar ein hagenda. Yn aml, mae'r risg uchaf i unrhyw un sy'n dioddef o drais domestig mewn gwirionedd yn y cartref. Felly, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel.

Cododd Jocelyn y cymhlethdodau o ran beth sydd, neu sydd ddim, yn ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ffaith y gallai rhywbeth sy'n niwsans i un person mewn gwirionedd fod yn fater gwrthgymdeithasol enfawr i rywun arall. Mae'n ymwneud â sut rydym yn mesur hynny, ond mewn gwirionedd yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw bod yn rhaid i'r partneriaid, pryd bynnag y maent yn ymchwilio i'r mater, boed yn landlordiaid cymdeithasol, yr heddlu, neu gorff arall, ddeall beth yw'r effaith ar y dioddefwr, ar ba lefel bynnag y gall yr ymddygiad gwrthgymdeithasol fod, a mynd i'r afael â'r mater hwnnw, yn hytrach na'i anwybyddu, fel y mae rhai Aelodau wedi awgrymu, hyd nes ei fod yn dwysáu'n sefyllfa lle mae'n ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda bwriad, sy'n wahanol iawn i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried gan rai fel ymddygiad gwrthgymdeithasol niwsans yn unig, er bod hynny'n gymharol i'r unigolyn sy'n dioddef o hynny.

Soniodd Keith, unwaith eto, am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn Llanelli ac, unwaith eto, rwy'n ailadrodd fy ymrwymiad iddo a'm cefnogaeth ar gyfer aelodau'r grŵp sy'n gweithio yn Llanelli. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n rhywbeth y gellid ei gyflwyno ledled Cymru, fel y gall pobl ddeall yn well sut y gall cymunedau deimlo cyfrifoldeb am sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar bobl yn eu cartrefi.

Mae pwynt Ann Jones ynglŷn â chynllunio a sut rydym yn creu cymunedau cynaliadwy yn bwysig. Rwy'n meddwl mai un o'r elfennau y dylem fod yn edrych mwy arno o ran datblygiadau newydd yw bod yn ddiogel trwy ddylunio, dod o hyd i atebion ymlaen llaw lle'r ystyrir bod problemau, a deall sut mae cymunedau'n edrych, ar gyfer y dyfodol, fel eu bod yn ddiogel, gan ddefnyddio pob cyfle. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, gall hyd yn oed ardaloedd a ddiogelwyd trwy eu dyluniad ddioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhyw ffurf, ac mae hwnnw'n fater y mae'n rhaid inni allu mynd i'r afael ag ef.

Fe wnaeth cyfraniad Ann Jones at y ddadl ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i gallu i gael systemau chwistrellu i mewn i'r drafodaeth argraff fawr arnaf hefyd; roedd hynny, fel bob amser, yn drawiadol iawn. Fodd bynnag, rwy'n rhannu ei hymrwymiad o ran eu gweithredu a sut y maent yn gweithio. Rwyf hefyd yn rhannu ei chasgliad na fydd systemau chwistrellu yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fyddant yn cael eu cyflwyno yn y mis nesaf.

Finally, may I say that tackling anti-social behaviour and domestic violence in the home is extremely important to me, this Government and many Members across parties across this Chamber? I very much welcome the comments that they have made today. It is a fundamental human right to feel safe in your own home, and I think that what we have to do is to work together to ensure that we can deliver on that proposal, making sure that housing in Wales is a safe place to be. I thank Members for their contributions today and will work with them to ensure that we have an anti-social behaviour policy in Wales that we can be very rightly proud of.

Yn olaf, a gaf fi ddweud bod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig yn y cartref yn hynod bwysig i mi, i'r Llywodraeth hon ac i lawer o Aelodau ar draws y pleidiau ar draws y Siambr hon? Croesawaf yn fawr iawn y sylwadau y maent wedi'u gwneud heddiw. Mae'n hawl ddynol sylfaenol i deimlo'n ddiogel yn eich cartref eich hun, ac rwy'n meddwl mai'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ar y cynnig hwnnw, gan sicrhau bod tai yng Nghymru yn lleoedd diogel i fod ynddynt. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw a byddwn yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod gennym bolisi ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru y gallwn, yn haeddiannol iawn, fod yn falch ohono.

- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
- The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 2.
- The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 3.
- The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 3 is agreed.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
- The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? There is objection, therefore voting on this item will be deferred until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru)

Cynnig

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru).

Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Education (Wales) Bill

Motion

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Education (Wales) Bill.

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

May I begin my opening remarks by thanking Members for contributing to the scrutiny of the Education (Wales) Bill? As everyone will know, raising standards in Welsh education is a central priority for this Government, and I am therefore pleased to set out in statute the activities to be carried out by the education workforce council and also to legislate on ensuring that school term dates may be harmonised for all schools in Wales. Since introducing the Bill on 1 July 2013, there has been much constructive and informed debate. The Children, Young People and Education Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee both made very valuable and important contributions to that debate, and I owe them a debt for the professional manner in which the scrutiny was undertaken. It has, undoubtedly, helped us to produce a better Bill. I want to place on record my gratitude to the opposition spokespeople for the constructive way in which they have engaged with both myself and with the Bill. I also want to acknowledge the advice and expertise that stakeholders brought to the process and the invaluable evidence that they provided.

This Government takes the scrutiny process very seriously. This Minister takes the scrutiny process very seriously. While we have not always seen eye to eye, we have amended the Bill where we believe that it is right and proper to do so. I welcomed the general support for the principles of this Bill, and I supported the removal of the special educational needs provision, because it was clear from the meetings that I held with representatives from right across the Chamber that these provisions would be more appropriately dealt with in a standalone Bill.

I appreciate that some Members may feel that we have not gone as far as they might like. I would like to assure Members that all amendments were given full consideration, and I am confident that we now have a Bill that will further strengthen and enhance standards, providing the platform for us to achieve a high-performing education system where practitioners work collaboratively to improve standards of teaching and the quality of learning.

The Bill also enables school term dates to be harmonised for all maintained schools in Wales to help those families who currently face difficulties with finding and financing additional childcare. I am confident that the Bill provides appropriate safeguards for all faiths within our multi-cultural society to raise any concerns that they may have about proposals for term dates.

A gaf fi ddechrau fy sylwadau agoriadol drwy ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at graffu ar y Bil Addysg (Cymru)? Fel y bydd pawb yn gwybod, mae codi safonau addysg yng Nghymru yn flaenoriaeth ganolog i'r Llywodraeth hon, ac rwy'n falch felly o nodi mewn statud y gweithgareddau i'w cyflawni gan gyngor y gweithlu addysg a hefyd i ddeddfu ar sicrhau y gellir cysoni dyddiadau tymor ysgol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. Ers cyflwyno'r Bil ar 1 Gorffennaf, 2013, bu llawer o drafod adeiladol a gwybodus. Gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyfraniadau gwerthfawr a phwysig iawn i'r drafodaeth honno, ac rwy'n ddyledus iddynt am y modd proffesiynol y cafodd y craffu ei wneud. Mae, yn ddiamau, wedi ein helpu i gynhyrchu gwell Bil. Rwyf am gofnodi fy niolch i lefarwyr y gwrthbleidiau am y modd adeiladol y maent wedi ymgysylltu gyda mi ac â'r Bil. Rwyf hefyd am gydnabod y cyngor a'r arbenigedd a roddwyd gan randdeiliaid i'r broses a'r dystiolaeth amhrisiadwy a ddarparwyd ganddynt.

Mae'r Llywodraeth hon wir yn cymryd y broses graffu o ddifrif. Mae'r Gweinidog hwn wir yn cymryd y broses graffu o ddifrif. Er nad ydym wedi gweld llygad yn llygad bob amser, rydym wedi diwygio'r Bil lle rydym yn credu ei bod yn iawn ac yn briodol i wneud hynny. Croesewais y gefnogaeth gyffredinol i egwyddorion y Bil hwn, a chefnogais cael gwared ar y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, gan ei bod yn amlwg o'r cyfarfodydd a gynhaliais gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r Siambr y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r ddarpariaethau hyn mewn Bil annibynnol.

Rwy'n sylweddoli y gallai rhai Aelodau deimlo nad ydym wedi mynd mor bell ag y byddent yn ei hoffi. Hoffwn sicrhau'r Aelodau bod yr holl newidiadau wedi cael ystyriaeth lawn, ac rwy'n hyderus bod gennym Fil erbyn hyn a fydd yn cryfhau ac yn gwella safonau ymhellach, gan ddarparu llwyfan i ni gyflawni system addysg sy'n perfformio'n dda lle mae ymarferwyr yn gweithio ar y cyd i wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu.

Mae'r Bil hefyd yn galluogi dyddiadau tymor ysgol i gael eu cysoni ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru i helpu'r teuluoedd hynny sy'n wynebu anawsterau ar hyn o bryd o ran dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu am hynny. Rwy'n hyderus bod y Bil yn darparu mesurau diogelu priodol ar gyfer pob ffydd yn ein cymdeithas amlddiwylliannol i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am gynigion ar gyfer dyddiadau'r tymor.

I would like to assure Members of my commitment to include the independent sector within the requirement to register with the education workforce council at a future date if there is clear evidence to support such a move. I put on record again my commitment to report to the Assembly on the impact of requiring the independent sector to register, and to do this within two years of the Act receiving Royal Assent. I have also committed to involving the Children, Young People and Education Committee when work begins on the registration of youth workers.

Public trust and confidence in the education workforce council will be essential if it is to fulfil its functions fully. We need a strong council that accurately reflects all registered practitioners and addresses the general public's perceived concern over teaching standards without losing the undeniable strengths of the existing General Teaching Council for Wales, thus achieving change without detriment. I therefore ask Members to support this Bill.

Hoffwn sicrhau'r Aelodau fy ymrwymiad i gynnwys y sector annibynnol o fewn y gofyniad i gofrestru gyda chyngor y gweithlu addysg yn y dyfodol os oes tystiolaeth glir i gefnogi symudiad o'r fath. Yr wyf am gofnodi unwaith eto fy ymrwymiad i adrodd i'r Cynulliad ar effaith ei gwneud yn ofynnol i'r sector annibynnol gofrestru, ac i wneud hyn o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Yr wyf hefyd wedi ymrwymo i gynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg pan fydd y gwaith yn dechrau o ran cofrestru gweithwyr ieuencid.

Bydd ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yng nghyngor y gweithlu addysg yn hanfodol os yw am gyflawni ei swyddogaethau yn llawn. Mae annom angen cyngor cryf sy'n adlewyrchu pob ymarferwr cofrestredig yn gywir ac sy'n mynd i'r afael â phryder canfyddedig y cyhoedd yn gyffredinol dros safonau dysgu heb golli cryfderau diymwad y Cyngor Addysgu Cyffredinol presennol ar gyfer Cymru, a thrwy hynny sicrhau newid heb niwed. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r Bil hwn.

16:32

Suzu Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I begin by thanking you again for agreeing to remove the part of the Bill that purported to deal with special needs. We look forward to seeing your proposals for the additional learning needs Bill that was committed to last week. The fact that you did that proves that Ministers can take on board opposition party views without losing face and on the basis that it will produce better legislation. Nevertheless, Minister, it should come as no surprise to you that you do not have the wholehearted support of the Welsh Conservative group for this Bill as it now stands. At Stages 2 and 3 we gave you the opportunity, supported by the other opposition parties, to listen to our concerns about the quality of the legislation, in particular, the level of uncertainty as to your policy intention that omissions from the face of the Bill create and the over-reliance on secondary legislation, with its restricted opportunity for scrutiny. You may have listened to those concerns, Minister, but you did not answer them sufficiently for us to help you pass this Bill today.

The policy intention, as far as we can ascertain it, Minister, gives us less of a problem. Yes, we think that you could have used this opportunity to address continuing professional development, and it could have been a bit clearer that this Bill will help to reward and support teachers as part of improving standards, as well as punishing them. However, on balance, we support your main objectives. That leaves us in a position today where we must abstain in the vote.

In the legislative programme debate last week, in which we had left you in no doubt at all about our views on the quality of this Bill, I reiterated our position that, where the Welsh Government brings forward legislation that is well crafted, well-thought-through and fully costed, the Welsh Conservatives will work constructively and in the national interest to support the Government in steering the legislation through the Assembly. This is not such a piece of legislation. We have tried our best to help you to address its faults, but it was clearly an accommodation too far.

Weinidog, rwyf am ddechrau drwy ddiolch i chi unwaith eto am gytuno i gael gwared ar y rhan o'r Bil a oedd i fod i ymdrin ag anghenion arbennig. Rydym yn edrych ymlaen at weld eich cynigion ar gyfer y Bil anghenion dysgu ychwanegol yr ymrwymwyd iddo'r wythnos diwethaf. Mae'r ffaith eich bod yn gwneud hynny yn profi y gall Gweinidogion ystyried barn y gwrthbleidiau heb golli wyneb ac ar y sail y bydd yn arwain at well deddfwriaeth. Serch hynny, Weinidog, ni ddylai fod yn syndod i chi nad oes gennych gefnogaeth lwyr grŵp Ceidwadwyr Cymru ar gyfer y Bil hwn fel y mae heddiw. Yng Nghyfnodau 2 a 3, rhoddwyd cyfle i chi, gyda chefnogaeth gan y gwrthbleidiau eraill, i wrando ar ein pryderon am ansawdd y ddeddfwriaeth, yn benodol, y lefel o ansicrwydd ynghylch eich bwriad polisi y mae hepgoriadau oddi ar wyneb y Bil yn ei greu a gorddibyniaeth ar ddeddfwriaeth eilaidd, gyda'i chyfle cyfyngedig ar gyfer craffu. Efallai eich bod wedi gwrandao ar y pryderon hynny, Weinidog, ond nid ydych wedi ateb iddynt yn ddigonol i ni eich helpu chi i basio'r Bil hwn heddiw.

Mae'r bwriad polisi, cyn belled ag y gallwn weld, Weinidog, yn rhoi llai o broblem i ni. Ydym, rydym yn credu y gallech fod wedi defnyddio'r cyfle hwn i fynd i'r afael â datblygiad profesiynol parhaus, a gallai fod wedi bod ychydig yn fwy eglur y bydd y Bil hwn yn helpu i wobrwyo a chefnogi athrawon yn rhan o wella safonau, yn ogystal â'u cosbi. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym yn cefnogi eich prif amcanion. Mae hynny'n ein gadael ni mewn sefyllfa heddiw lle mae'n rhaid i ni ymatal yn y bleidlais.

Yn y ddadl rhaglen ddeddfwriaethol yr wythnos diwethaf, pryd y gwnaethom ein barn am ansawdd y Bil hwn yn gwbl glir i chi, ailadroddais ein safbwynt, sef pan fo Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth sydd wedi'i llunio'n dda, wedi'i hystyried yn dda ac wedi ei hostio'n llawn, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio'n adeiladol ac er budd cenedlaethol i gefnogi'r Llywodraeth i lywio'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad. Nid yw hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth o'r fath. Rydym wedi ceisio ein gorau i'ch helpu chi i fynd i'r afael â'i ddiffygion, ond yr oedd yn amlwg yn gofyn i chi fynd yn rhy bell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want all Ministers in this Government to understand that this is a final warning—a yellow card. In fact, I want you to really understand how close this came to being a red card as far as the Conservatives are concerned. Please stop the use of inappropriate framework Bills, because you have exhausted our patience.

Rwyf am i bob Gweinidog yn y Llywodraeth hon ddeall bod hwn yn rhybudd terfynol—cerdyn melyn. Yn wir, rwyf am i chi wir ddeall pa mor agos y daeth hyn at fod yn gerdyn coch cyn belled ag y mae'r Ceidwadwyr yn y cwestiwn. Ataliwch da chi rhag defnyddio Biliau fframwaith amhriodol, oherwydd rydym ar ben ein tennyn.

16:34

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i'r Gweinidog am agor trafodaeth fer ar egwyddorion y Bil hwn. Mae'n gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r Bil am y tro olaf. Bydd Plaid Cymru'n cefnogi'r Bil heno. Rydym yn gwneud hynny heb ei gefnogi'n llwyr, ond rydym yn gweld bod angen diwygio Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru—cyngor y gweithlu addysg, fel y bydd yn cael ei alw'n awr—a bod angen gwella yn y maes hwn er mwyn cael safonau uwch ac eglurder i'r cyhoedd hefyd.

Rwy'n meddwl bod y Bil, fel y mae wedi'i gyflwyno'n gerbron y Cynulliad am ei gymeradwyaeth olaf, yn Fil tipyn yn well oherwydd y system craffu yn y pwyllgor ac ar lawr y Siambr. Rwy'n rhannu llawer o'r gofidiau yr oedd Suzy Davies wedi eu hamlinellu, er nad ydynt yn gwneud i mi deimlo bod yn rhaid gwrthod y Bil ar yr adeg hon.

Rwy'n cydnabod bod tynnu anghenion addysgol arbennig o'r Bil yn welliant ac wedi gwneud y Bil yn fwy clir, wrth edrych ar y Bil yn ôl ei egwyddorion ei hun. Mae'n rhoi cyfle i ni, fel sydd wedi cael ei gadarnhau gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, i edrych ar Fil penodol neilltuol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn y dyfodol agos, cyn diwedd y Cynulliad hwn. Rwy'n croesawu hynny ac yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi gwrandao yn hynny o beth. Lle nid yw'r Llywodraeth wedi gwrandao, rwy'n meddwl, yw ynglŷn â rhai pethau fydd yn bwysig wrth i ni fynd ymlaen: er enghraifft, yr angen i gyngor y gweithlu fod yn gwbl broffesiynol yn y ffordd y mae'n ymdrin â'r proffesiwn, ac i adlewyrchu'r egwyddorion proffesiynol hynny. Rwy'n meddwl bod rhai o'r penderfyniadau ynglŷn â'r cydbwysedd ar wyneb y Bil rhwng safonau, hyfforddiant proffesiynol a disgyblu yn anghymesur. Nid yw'r cydbwysedd yn iawn. Byddwn wedi ei licio gweld, os nad ein gwelliannau ni, yna gwelliannau gan y gwrthbleidiau eraill, neu gan y Llywodraeth o leiaf, er mwyn gwella'r cydbwysedd hwnnw.

Rwyf hefyd yn meddwl bod gan Suzy bwynt pwysig ynglŷn â'r pwerau sydd wedi cael eu cymryd gan y Gweinidog yn y Bil hwn, sy'n bwerau eilaidd ac yn bwerau rheoleiddio. Mae job o waith gennym i gyd yn awr yn y Cynulliad hwn i graffu ar y defnydd o'r pwerau hynny gan y Llywodraeth er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny'n gymesur ac yn briodol. Fodd bynnag, dyna yw ein job. Rwy'n credu bod tueddiad wedi bod gan y Llywodraeth, yn ystod y cyfnod cyntaf hwn yn y Senedd hon o ddechrau deddfu go iawn, i ddefnyddio'r dull hwn o ddeddfu, ac rwy'n bryderus yn ei gylich. Fodd bynnag, yn hytrach na phleidleisio yn erbyn y Bil hwn heno, neu ymatal, byddai'n well gennyf fod hynny yn cael ei ystyried yn ei gryswth ar draws y nifer o Filiau sydd wedi eu cyflwyno gan y Llywodraeth. Bydd hynny efallai'n ddyletswydd ar gyfer y pwyllgor yr ydych chi'n ei gadeirio, Ddirprwy Lywydd.

I thank the Minister for opening this brief debate on the principles of this Bill. He is asking the Assembly to approve the Bill for the final time. Plaid Cymru will be supporting the Bill this evening. We do so without giving our unconditional support, but we see that there is a need to reform the General Teaching Council for Wales—the education workforce council, as it will now be called—and that this area needs improvement in order to achieve higher standards and clarity for the public too.

I believe that the Bill, as it has been presented before the Assembly for its final approval, is a substantially better Bill as a result of the scrutiny system in committee and on the floor of the Chamber. I share many of the concerns expressed by Suzy Davies, although they do not persuade me that we should reject the Bill at this particular point.

I recognise that removing special educational needs from the Bill is an improvement and has made the Bill clearer, looking at the Bill in terms of its own principles. It gives us an opportunity, as has been confirmed by the First Minister last week, to look at a specific Bill on special educational needs in the near future, before the end of this Assembly. I welcome that and recognise that the Government has listened in that regard. Where the Government has failed to listen, I think, is in relation to some things that will be important as we progress: for example, the need for the workforce council to be entirely professional in the way that it treats the profession, and to reflect those professional principles. I think that certain decisions relating to the balance on the face of the Bill between standards, CPD and discipline are not commensurate. They have not struck the right balance. I would have liked to have seen, if not our amendments, then other opposition party amendments, or amendments from the Government at least, in order to strike the right balance.

I also think that Suzy has an important point about the powers vested in the Minister through this Bill, which are secondary legislation and regulatory powers. We all have a job of work to do in this Assembly to scrutinise the use of those powers by the Government to ensure that that is appropriate. However, that is our job. I believe that there has been a tendency for the Government, during this first period in the Senedd of starting to legislate properly, to use this method of legislating, and I am concerned about that. However, rather than voting against the Bill today, or abstaining, I would prefer that to be looked at holistically across the number of Bills that have been presented by the Government. That is perhaps a duty for the committee that you chair, Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn y cyd-destun hwnnw, felly, mae Plaid Cymru yn gweld bod y Bil yn symud y proffesiwn yn ei flaen. Mae'n cyflwyno'r posibilid o godi safonau yn y proffesiwn, a chodi safonau ar draws y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Mae cyfleoedd wedi eu colli mewn sawl man, ond, ar y cyfan, byddai'n well gennyf weld y Bil hwn yn cael ei weithredu, a dyna pam y bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r Bil.

In that context, therefore, Plaid Cymru believes that this Bill does move the profession forward. It provides the possibility of raising standards within the profession, and of raising standards across the education system in Wales. Opportunities have been lost in a number of areas, but, on the whole, I would prefer to see this Bill implemented, and that is why Plaid Cymru will support the Bill.

16:37 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We welcome the fact that the Government listened to concerns across the Chamber, I think, as far as the additional learning needs measures within the Bill were concerned, and we welcomed the Government decision at that stage. However, I think there is an issue here with regard to the number of opposition amendments, albeit that the Minister says that they were very carefully considered. There were in fact 35 amendments, which we considered to be constructive, at Stage 2, and 42 amendments at Stage 3. Many of those amendments were based on recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which expressed concerns with regard to the use of the negative procedure, and the use of subordinate legislation by the Government, which we feel were used in an attempt to actually deter the Assembly from scrutinising properly, on the face of the Bill, regulations that the Government would seek to take forward. I have to say that we were disappointed that Members who had actually voted in favour of recommendations at committee stage, both in the Children, Young People and Education Committee and in the Constitutional and Legislative Affairs Committee, then voted another way when the matter came to Plenary.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi gwrandao ar y pryderon ar draws y Siambr, rwy'n credu, cyn belled ag yr oedd y mesurau anghenion dysgu ychwanegol yn y Bil yn y cwestiwn, a chroesawyd penderfyniad y Llywodraeth gennym ar y cam hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod problem yma o ran y nifer o welliannau gan y gwrthbleidiau, er bod y Gweinidog yn dweud eu bod wedi eu hystyried yn ofalus iawn. Roedd mewn gwirionedd 35 o welliannau, yr oeddem yn credu eu bod yn adeiladol, yng Nghyfnod 2, a 42 o welliannau yng Nghyfnod 3. Mae llawer o'r gwelliannau hynny'n seiliedig ar argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a fynegodd pryderon o ran y defnydd o'r weithdrefn negyddol, a'r defnydd o is-ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth, yr ydym yn teimlo oedd yn cael eu defnyddio mewn ymgais i atal y Cynulliad mewn gwirionedd rhag craffu'n briodol, ar wyneb y Mesur, ar reoliadau y byddai'r Llywodraeth yn ceisio eu datblygu. Mae'n rhaid i mi ddweud ein bod yn siomedig bod yr Aelodau a oedd wedi pleidleisio o blaid argymhellion yn ystod y cam pwyllgor, yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yna wedi pleidleisio'r ffordd arall pan ddaeth y mater i'r Cyfarfod Llawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is called whipping.

Fe'i gelwir yn chwipio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:39 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is called whipping, yes, and that is the reality of the situation. However, we are where we are. We have concerns regarding the independence of the new body. We feel that there is an issue with regard to the resources that will be available to the council, and the fact that the Minister will rely on the explanatory memorandum with regard to many of the issues that were drawn to the Government's attention at committee stage. We thought very carefully as a group about the stance that we will take here today, because we have concerns with regard to the use—the extensive use we would say—of subordinate legislation, and, because of that, rather than abstain on the motion today, we feel that we need to make our views clear, and, on that basis, we will be voting against approval at Stage 4.

Fe'i gelwir yn chwipio, yn wir, a dyna wirionedd y sefyllfa. Fodd bynnag, yr ydym lle yr ydym. Mae gennym pryderon ynghylch annibyniaeth y corff newydd. Rydym yn teimlo bod problem o ran yr adnoddau a fydd ar gael i'r cyngor, a'r ffaith y bydd y Gweinidog yn dibynnu ar y memorandwm esboniadol ynglŷn â llawer o'r materion y tynnwyd sylw'r Llywodraeth atynt yn ystod y cam pwyllgor. Rydym wedi meddwl yn ofalus iawn fel grŵp ynghylch y safbwynt y byddwn yn ei gymryd yma heddiw, oherwydd mae gennym pryderon o ran y defnydd—y defnydd helaeth byddem ni'n ei ddweud—o is-ddeddfwriaeth, ac, oherwydd hynny, yn hytrach nag ymatal ar y cynnig heddiw, rydym yn teimlo bod angen i ni wneud ein barn yn glir, ac, ar sail hynny, byddwn yn pleidleisio yn erbyn cymeradwyo yng Nghyfnod 4.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:40

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome Members' comments. It is vital that this Bill, as I have said before, provides the necessary agility to put in place different arrangements for the different sectors of the education workforce, reflecting and responding to their different stages of development. At Stage 2, I gave a detailed and lengthy explanation for the procedures in the Bill. We need to be able to meet the changing needs of the education workforce, both now and in the future, and to make certain that arrangements meet the different requirements of that wider workforce. That is why discretionary regulation-making powers are appropriate, we feel, for sections 14 to 17, 23 and 25.

In determining the provisions for the subordinate legislation, I have applied the Counsel General's guidelines on whether the affirmative or negative procedure should apply. Given all that, I have, as always, listened carefully to comments made by opposition Members today and I will think carefully on the implications for any future legislation. I have been appreciative of the general support for the general principles of this Bill from the very start, and I would like to thank Members for contributing to its scrutiny throughout the last few months. I am confident that we have a Bill that will further strengthen and enhance standards. Therefore, once again, I ask Members to support the Bill.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu sylwadau'r Aelodau. Mae'n hanfodol bod y Bil hwn, fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen, yn darparu'r ystwythder angenrheidiol i sefydlu trefniadau gwahanol ar gyfer y gwahanol sectorau o'r gweithlu addysg, gan adlewyrchu ac ymateb i'w gwahanol gamau datblygu. Yn ystod Cyfnod 2, rhoddais esboniad manwl a hir ar y gweithdrefnau yn y Bil. Mae angen i ni fod yn gallu diwallu anghenion newidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol, a gwneud yn siŵr bod trefniadau yn bodloni gwahanol ofynion y gweithlu ehangach hwnnw. Dyna pam mae pwerau gwneud rheoliadau dewisol yn briodol, yn ein barn ni, ar gyfer adrannau 14 i 17, 23 a 25.

Wrth benderfynu ar y darpariaethau ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, rwyf wedi defnyddio canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol ar ba un a ddylai'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol fod yn berthnasol. O ystyried hynny i gyd, yr wyf, fel bob amser, wedi gwrandod o'falus ar sylwadau a wnaed gan Aelodau'r gwrthbleidiau heddiw a byddaf yn meddwl yn ofalus am y goblygiadau ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Rwyf wedi bod yn werthfawrogol o'r gefnogaeth gyffredinol i egwyddorion cyffredinol y Bil hwn o'r cychwyn cyntaf, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at y gwaith craffu arno drwy gydol y misoedd diwethaf. Rwy'n hyderus bod gennym Fil a fydd yn cryfhau ac yn gwella safonau ymhellach. Felly, unwaith eto, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r Bil.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. I defer voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais tan yr amser pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:41

Cyfnod Pleidleisio **Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5474](#)

Derbyniwyd gwelliant 4: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5474](#)

Derbyniwyd gwelliant 5: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5474](#)

Derbyniwyd gwelliant 6: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Cynnig NDM5474 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Voting Time

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5474](#)

Amendment 4 agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5474](#)

Amendment 5 agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5474](#)

Amendment 6 agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

Motion NDM5474 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

2. Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân.

4. Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud—a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

5. Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5474 fel y'i diwygiwyd](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5474 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5475](#)

Derbyniwyd gwelliant 4: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Cynnig NDM5475 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a'u lles;

2. Yn credu bod polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau;

3. Yn nodi canfyddiadau ac argymhellion allweddol ymchwil Llywodraeth Cymru 'Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review' fel sail ar gyfer gweithredu pellach;

1. Notes the Welsh Government's work with Fire and Rescue Services in Wales to deliver safer communities for citizens.

2. Notes with concern the rise in attacks on fire and rescue crews and the impact this has on delivering safer communities.

3. Calls for a robust joint evaluation of fire safety interventions by the Welsh Government, Fire and Rescue Services and the third sector.

4. Recognises the essential work undertaken by fire fighters—on whom Welsh communities rely for much more than fire fighting.

5. Believes there should be a national approach to fire and rescue service in which strategic operational decisions are made on the basis of service need.

6. Calls on the Welsh Government to bring forward proposals to examine the structure of Fire and Rescue Services in Wales.

7. Calls on the Welsh Government to work closely with Fire and Rescue Authorities to ensure proper provision, particularly in rural areas.

[Result of the vote on motion NDM5474 as amended](#)

Motion NDM5474as amended agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5475](#)

Amendment 4 agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

Motion NDM5475 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the negative impact that housing related anti-social behaviour can have on people and on their health and well-being;

2. Believes that anti-social behaviour policies and procedures are most effective when focused on early intervention, prevention, and cooperation between agencies;

3. Notes the findings and key recommendations of the Welsh Government's research 'Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review' as a foundation for further action;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thaj; a

4. Calls on the Welsh Government to ensure that relevant public and third sector organisations work together more effectively to address housing related anti-social behaviour; a

5. Yn cydnabod y goryffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlisma, ac yn credu y byddai modd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thaj mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

5. Recognises the extensive overlap between areas such as housing, anti-social behaviour, community safety and policing, and believes that housing related anti-social behaviour could be more effectively tackled if all these areas were to be devolved.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5475 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5475 as amended](#)

Derbyniwyd cynnig NDM5475 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Motion NDM5475 as amended agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar y cynnig](#)

[Result of the vote on the motion](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 4, Ymatal 11.

Motion as amended agreed: For 37, Against 4, Abstain 11.

16:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

That brings concludes today's business.

Daw hynny â busnes heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45.

The meeting ended at 16:45.